



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mercher 2 Ebrill 2003**

**Wednesday 2 April 2003**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 4 Anerchiad gan Colin Jackson  
*Address by Colin Jackson*
- 8 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol a Chymunedau i'r Gweinidog Cyllid  
*Questions on Local Government and Communities to the Finance Minister*
- 20 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd  
*Questions to the Minister for Environment*
- 31 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ  
*Questions to the House Committee*
- 32 Datganiad ar Ddatblygiadau Hyfforddiant ar gyfer y Gweithlu Iechyd  
*Statement on Health Workforce Training Developments*
- 44 Pwyntiau o Drefn  
*Points of Order*
- 48 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion  
*Composite Motion: Approval of Orders*
- 49 Cymeradwyo Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003  
*Approval of the Commission for Health Improvement (Functions) (Wales) Regulations 2003*
- 51 Cymeradwyo Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003  
*Approval of the Care Homes (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2003*
- 53 Cymeradwyo Rheoliadau Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (Diwygio) (Cymru) 2003  
*Approval of the Zoo Licensing Act 1981 (Amendment) (Wales) Regulations 2003*
- 58 Cymeradwyo Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2003  
*Approval of the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2003*
- 60 Cymeradwyo Rheoliadau Porthiant (Diwygio) 2003  
*Approval of the Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003*
- 61 Cynnig Trefniadol  
*Procedural Motion*
- 62 Cymeradwyo Cyfarwyddiadau Cymorth Gwladol (Taliadau Gohiriedig) 2003  
*Approval of the National Assistance (Deferred Payments) Directions 2003*
- 64 Y Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan  
*The All Wales Youth Offending Strategy*
- 79 Dadl am y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant 14 i 19  
*Debate on the 14 to 19 Education and Training Action Plan*
- 100 Dadl Fer: Mae Angen Llais Cryfach ar Ogledd Cymru yn y Llywodraeth  
*Short Debate: North Wales Needs a Stronger Voice in Government*

- 111 Datganiad gan y Llywydd  
*Statement by the Presiding Officer*
- 112 Pwynt o Drefn  
*Point of Order*

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

## Anerchiad gan Colin Jackson Address by Colin Jackson

**Y Llywydd:** Pleser arbennig heddiw yw croesawu Colin Jackson.

It is a great privilege to welcome you here to address Assembly Members. You have brought us all honour. When you used to run for Great Britain, I always enjoyed seeing you wear a Welsh flag as well as the Union Jack.

**Colin Jackson:** Thank you. It is quite funny, because I have all the notes for my speech on this device—I am a technology boy at heart; running was secondary. If you see me scrolling, you will understand why.

First of all, I thank you for allowing me to do this. It was a great honour when my office called and asked me whether I would address the Assembly. I was really excited. Then they gave me the date, and I thought that I would be very tired, as I came back from New York yesterday. However, the fact that I am extremely excited just to be here has made me a bit more buoyant and bubbly. If I have bags under my eyes, you will understand why—it is a little bit of jet-lag setting in.

Sport, for me, has always been, first of all, about enjoyment, and secondly a business. Top sports people nowadays earn huge amounts—I am not one of them—and with that, you have to take a lot of responsibility. Being Welsh, I feel that I have put myself in a position of being a role model, not only to the Welsh people in general but to the up-and-coming kids in society. I have tried my best to live a clean life, and to be a good example to them in that way. Also, I have tried to let them see what can happen. There is a dream, and I believe that everybody should be able to live that dream. Hopefully, when they see what I have achieved, in a relatively short space of time, they can see that it can actually happen to them.

The first time that I ever gave an address was in 1986, after I won a silver medal at the Commonwealth Games. I was 19 years old,

**The Presiding Officer:** It is a great pleasure today to welcome Colin Jackson.

Mae'n ffrind fawr eich croesawu yma i annerch Aelodau'r Cynulliad. Daethoch ag anrhydedd i bob un ohonom. Pan oeddech yn rhedeg dros Brydain Fawr, yr oeddwn bob amser yn mwynhau eich gweld yn gwisgo baner Cymru yn ogystal â Jac yr Undeb.

**Colin Jackson:** Diolch. Mae'n eithaf doniol, gan fod gennyf yr holl nodiadau ar gyfer fy araith ar y ddyfais hon—technolog yw fy mhrif ddiddordeb; eilbeth oedd rhedeg. Os byddwch yn fy ngweld yn sgrolio, byddwch yn deall pam.

Yn gyntaf oll, diolch ichi am roi'r cyfle imi wneud hyn. Yr oedd yn anrhydedd mawr pan ffoniodd fy swyddfa a gofyn imi annerch y Cynulliad. Yr oeddwn ar ben fy nigon. Wedyn derbyniais y dyddiad, a meddyliais y byddwn wedi blino'n lân, gan mai ddoe y dychwelais o Efrog Newydd. Fodd bynnag, mae'r ffaith fy mod yn llawn cyffro i fod yma wedi golygu fy mod ychydig yn fwy bywiog ac effro. Os oes bagiau dan fy llygaid, fe ddeallwch pam—blinder ar ôl yr holl deithio ydyw.

Prif ddiben chwaraeon, i mi, bob amser, fu mwynhau, a dim ond yn ail y'u hystyriaf fel busnes. Mae pencampwyr chwaraeon yn yr oes sydd ohoni yn ennill symiau enfawr—nid wyf yn un ohonynt—a chyda hynny, rhaid ichi dderbyn llawer o gyfrifoldeb. Fel Cymro, teimlaf fod yn rhaid imi fod yn esiampl, nid yn unig i bobl Cymru yn gyffredinol ond i'r plant yn ein cymdeithas. Gwneuthum fy ngorau i fyw bywyd glân, ac i fod yn esiampl dda iddynt yn hynny o beth. Hefyd, ceisiais ddangos iddynt beth all ddigwydd. Mae yna freuddwyd, a chredaf y dylai pawb allu byw'r freuddwyd honno. Gobeithio, pan welant yr hyn a gyflawnais, mewn cyfnod cymharol fyr o amser, gallant weld y gall ddigwydd iddynt hwy.

Y tro cyntaf erioed imi roi annerchiad oedd yn 1986, ar ôl imi ennill medal arian yng Ngemau'r Gymanwlad. Yr oeddwn yn 19

and was asked by my former school to address sixth-form pupils. I was a year older than them. I stepped back from that, and realised that people were actually taking notice of what I was doing. There was a sense of responsibility on my shoulders, and I could do one of two things. I could hide, and shy away from it, and be second place, or I could take that responsibility on my shoulders, walk proud, really appreciate my performances and achievements, and take on the responsibility of being a role model. I decided to take the second way.

I trained hard, and had the right people around me to direct me in the right way. I think that that is very important—you must have the right people to put you in the position to speak well, to perform well, and to do, basically, what you are told to do. I have enjoyed every aspect of that, I must admit. It has been a fun time, a fun life. I also tell people that, if they have kids, they should encourage them to go into sport. It is a great way to get free travel, a little bit of money and a lot of recognition. I think that it was a huge plus for me being born in Cardiff, being a Welshman, as the facilities here are the envy of many cities in the United Kingdom. I know for a fact that athletes in London would be extremely happy to have the indoor facility that we now have. I know that they would love to have the infrastructure we have in athletics, without the bickering—they cannot even build Wembley. They have the money and the responsibility and they cannot even build that. We had a no-nonsense campaign, we got the Millennium Stadium and now we make the money from them, so we are happy with that. The stadium has also given our city and nation huge recognition worldwide. That has been very important for us as a Welsh nation.

I feel honoured and privileged to be part of a society that is developing and growing. I think that the response of everyone in this room would be the same as mine: we have to show that Wales is shining. We have to show that Wales is prominent and we have to show our young people that this is the place to be,

mlwydd oed, a gofynnodd fy hen ysgol imi annerch disgyblion y chweched dosbarth. Yr oeddwn flwyddyn yn hŷn na hwy. Camais yn ôl o'r sefyllfa, a sylweddolais fod pobl yn cymryd sylw gwirioneddol o'r hyn yr oeddwn yn ei wneud. Yr oedd ymdeimlad o gyfrifoldeb gennyf, ac yr oedd gennyf ddau ddewis. Gallwn guddio, a chelu rhagddo, a bod yn ail, neu gallwn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw, ymfalchïo, gan werthfawrogi fy mherfformiadau a'm cyflawniadau, a derbyn y cyfrifoldeb o fod yn rôl-fodel. Dewisais yr ail ffordd.

Bûm yn hyfforddi'n ddiwyd, gyda'r bobl gywir o'm hamgylch i'm rhoi ar y trywydd cywir. Mae hynny'n bwysig iawn—rhaid bod gennych y bobl gywir i ddangos i chi sut i siarad yn dda, i berfformio'n dda, ac, mewn gwirionedd, i wneud yr hyn y dywedir wrthyhych i'w wneud. Yr wyf wedi mwynhau pob agwedd ar hynny, rhaid cyfaddef. Bu'n gyfnod llawn hwyl, yn fywyd llawn hwyl. Dywedaf hefyd wrth bobl, os oes ganddynt blant, y dylent eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'n ffordd ardderchog o gael teithio am ddim, ennill ychydig o arian a chael llawer o gydnabyddiaeth. Yr oedd y ffaith imi gael fy ngeni yng Nghaerdydd a'r ffaith fy mod yn Gymro yn fantais enfawr imi, gan fod sawl dinas yn y Deyrnas Unedig yn cenfigennu o weld y cyfleusterau sydd gennym. Gwn y byddai athletwyr yn Llundain yn falch iawn o gael y cyfleuster dan do sydd gennym yn awr. Gwn y byddent wrth eu boddau i gael y seilwaith sydd gennym o ran athletau, heb y cecru—ni allant adeiladu Wembley hyd yn oed. Mae'r arian a'r cyfrifoldeb ganddynt ac ni allant adeiladu hwnnw hyd yn oed. Bu ymgyrch gadarn ar waith gennym, cawsom Stadiwm y Mileniwm ac yn awr ni sy'n ennill yr arian oddi wrthynt hwy, felly yr ydym yn fodlon ar hynny. Mae'r stadiwm hefyd wedi rhoi cydnabyddiaeth enfawr i'n dinas ac i'n gwlad ledled y byd. Bu hynny'n bwysig iawn inni fel cenedl o Gymry.

Mae'n ffrainc ac anrhydedd cael bod yn rhan o gymdeithas sy'n datblygu ac yn tyfu. Credaf y byddai pawb yn yr ystafell hon yn ymateb yn yr un ffordd: rhaid inni ddangos bod Cymru yn ffynnu. Rhaid inni ddangos bod gan Gymru le amlwg a rhaid inni ddangos i'n pobl ifanc mai dyma'r lle i fod, dyma'r lle i

this is the place to stay, and this is the place for them to bring their own children up in. I am extremely proud to be a Welshman and to still be living in Wales and I am proud to be here today to share these brief remarks.

Once again, I thank everyone for allowing me to be here and for coming to listen to what I have to say—and I am not charging. How about that? [*Applause.*]

**The First Minister (Rhodri Morgan):** What better way could there be to celebrate our retirement as an Assembly on the final day of the final year of the first Assembly, after four years, than with Colin Jackson, one of the greatest sportsmen that Wales—and, indeed, Great Britain—has ever produced, who is himself celebrating his retirement? Sport is a topsy-turvy world and I do not remember a time when you could say that ‘Wales cannot play rugby, but England can; Wales can play football, but England cannot’ and that Colin Jackson was not there as the first name on the team sheet when the British athletics team was being selected. We have to get used to that, Colin; you are not going to be there—unless you change your mind, of course—when the world athletics championship takes place later this year in Paris, and then in Athens next year. It is going to be difficult; those selectors will still put down ‘C. Jackson for 110m hurdles’, because they have been doing so for so long.

What is notable about your athletic career, Colin, is this unusual combination of being there for a long time—you mentioned your first senior medal in 1986, which is 17 seasons ago—that longevity of your career, combined with consistency in medal-winning. The medals were sometimes gold, sometimes silver and, rarely, bronze—won sometimes in relays, but usually in the individual races. It was quite an extraordinary career that came to an end last month. You have applied a principle that I think should apply to almost every walk of life, and which many other athletes apply. You are in a measurable sport. In team sport you can sometimes hide behind the team performance, but a good athlete and a great athlete will always say, ‘this year’s peak must be next year’s plateau; next year’s peak must

aros, a dyma’r lle iddynt fagu eu plant. Yr wyf yn falch iawn fy mod yn Gymro ac fy mod yn byw yng Nghymru o hyd ac yr wyf yn falch o fod yma heddiw i rannu’r sylwadau cryno hyn.

Unwaith eto, diolchaf i bawb am roi’r cyfle imi fod yma ac am ddod i wrando ar yr hyn sydd gennyf i’w ddweud—ac nid wyf yn codi tâl. Beth feddyliwch chi o hynny? [*Cymeradwyaeth.*]

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Pa ffordd well sydd o ddathlu ein hymddeoliad fel Cynulliad ar ddiwrnod olaf blwyddyn olaf y Cynulliad cyntaf, ar ôl pedair blynedd, na chyda Colin Jackson, un o’r pencampwyr chwaraeon gorau a gynhyrchodd Cymru—ac, yn wir, Prydain Fawr—erioed, sydd yntau hefyd yn dathlu ei ymddeoliad? Mae’r byd chwaraeon yn fyd anghyson ac ni chofiaf amser lle y gellid dweud ‘Ni all Cymru chwarae rygbi, ond gall Lloegr; gall Cymru chwarae pêl-droed, ond ni all Lloegr’ a phan nad Colin Jackson oedd yr enw cyntaf ar y rhestr wrth ddewis tîm athletau Prydain. Bydd yn rhaid inni ymgyfarwyddo â hynny, Colin; ni fyddwch yno—oni newidiwch eich meddwl, wrth gwrs—pan gynhelir pencampwriaeth athletau’r byd yn ddiweddarach eleni ym Mharis, ac yna yn Athen y flwyddyn nesaf. Bydd yn anodd; bydd y detholwyr hynny yn parhau i nodi ‘C. Jackson ar gyfer ras 110m dros y clwydi’, gan eu bod wedi gwneud hynny ers cyhyd.

Yr hyn sy’n hynod am eich gyrfa fel athletwr, Colin, yw’r cyfuniad anarferol hwn o fod yno am gyfnod hir—soniasoch am eich medal cyntaf fel oedolyn yn 1986, 17 tymor yn ôl—hynny yw, hyd eich gyrfa, wedi’i gyfuno â chysondeb wrth ennill medalau. Yr oedd y medalau weithiau’n aur, weithiau’n arian ac, ar adegau prin, yn efydd—wedi’u hennill weithiau mewn ras gyfnewid, ond fel arfer yn y rasys unigol. Yr oedd yn yrfa eithriadol a ddaeth i ben fis diwethaf. Gwnaethoch gymhwyso egwyddor a ddylai fod yn berthnasol, fe gredaf, i bob gyrfa, fwy neu lai, ac y mae llawer o athletwyr eraill yn ei chymhwyso. Yr ydych mewn maes chwaraeon y gellir ei fesur. Mewn chwaraeon tîm gallwch weithiau guddio y tu ôl i berfformiad y tîm, ond bydd athletwr da ac athletwr gwych bob amser yn dweud, ‘rhaid i

be the following year's plateau'. You are always improving 5 per cent every time, so that when you were 19 in 1986 in the Commonwealth Games and finished second behind Mark McCoy, you knew that you had to beat that in 1987, 1988 and so on.

Despite injuries and the occasional disappointment, at the Olympics especially, you continued to reach higher every year. That is a remarkable tribute to you and the way in which you have handled your body, your mind and your training. It is a tribute to Malcolm Arnold, your coach and one of the great coaches of all time in the hurdles. I believe that you have done wonders for Wales. As you said in your speech, we are trying to do the same. I do not think that we will do it as well as you, but we will use you as a target. If we can do as much for Wales, as ambassadors on the political side, as you have done on the sporting side, then I think that we could all retire happy, as you are doing now. [*Applause.*]

uchafbwynt eleni fod yn ddechreubwynt ar gyfer y flwyddyn nesaf; rhaid i uchafbwynt y flwyddyn nesaf fod yn ddechreubwynt ar gyfer y flwyddyn ganlynol'. Yr ydych bob amser yn gwella 5 y cant bob tro, felly yn 1986 pan oeddech yn 19 oed ac yng Ngemau'r Gymanwlad a daethoch yn ail i Mark McCoy, gwyddoch y byddai'n rhaid ichi ragori ar hynny yn 1987, 1988 ac ati.

Er gwaethaf anafiadau a'r siom achlysurol, yn y Gemau Olympaidd yn arbennig, llwyddasoch i gyrraedd yn uwch bob blwyddyn. Mae hynny'n deyrnged eithriadol i chi ac i'r ffordd yr ymdriniasoch â'ch corff, eich meddwl a'ch hyfforddiant. Mae'n deyrnged i Malcolm Arnold, eich hyfforddwr ac un o'r hyfforddwyr gorau a fu erioed ar gyfer rasys dros y clwydi. Credaf ichi wneud gwyrthiau dros Gymru. Fel y dywedasoch yn eich anerchiad, yr ydym yn anelu at yr un nod. Ni chredaf y llwyddwn cystal ag y gwnaethoch chi, ond fe'ch defnyddiwn fel targed. Os gallwn wneud cymaint i Gymru, fel llysgenhadon ar yr ochr wleidyddol, ag y gwnaethoch chi ar yr ochr chwaraeon, credaf y gallai pob un ohonom ymddeol yn fodlon, fel yr ydych chi'n ei wneud yn awr. [*Cymeradwyaeth.*]

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau ar Lywodraeth Leol a Chymunedau i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government and Communities to the Finance Minister**

### **Cod Ymddygiad Drafft i Gynghorwyr Draft Code of Conduct for Councillors**

**Q1 Richard Edwards:** Can the Minister make a statement on the draft code of conduct for councillors in local authorities? (OAQ23819)

**C1 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cod ymddygiad drafft i gynghorwyr mewn awdurdodau lleol? (OAQ23819)

**The Finance Minister (Edwina Hart):** Thank you, Richard; since this is probably the last occasion on which you ask me a question, I wish you well as you retire as a Member of the National Assembly for Wales.

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Diolch, Richard; gan mai dyma'r tro olaf, fwy na thebyg, y byddwch yn gofyn cwestiwn imi, hoffwn ddymuno'n dda ichi wrth ichi ymddeol fel Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

The model code of conduct was introduced under part 3 of the Local Government Act 2000. It forms part of a new and robust framework to promote observance of consistent standards of conduct by all local government members in Wales. The new code is intended to foster an atmosphere of trust and confidence in local government and to maintain the Assembly's commitment to local government.

Cyflwynwyd y cod ymddygiad enghreifftiol o dan ran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'n rhan o fframwaith newydd a chadarn ar gyfer annog pob aelod o lywodraeth leol yng Nghymru i ymlynu at safonau ymddygiad cyson. Bwriedir i'r cod newydd feithrin awyrgylch o ymddiriedaeth a hyder mewn llywodraeth leol a chynnal ymrwymiad y Cynulliad i lywodraeth leol.

**Richard Edwards:** Thank you, Minister. It is fit and proper that my last question should concern my beloved local authority, the democratic republic of Pembrokeshire—democratic republic in the former East German sense. Peculiar to this individual concept of democracy is a self-imposed silence on the part of councillors when county council matters are discussed by other democratic fora, such as town and community councils, of which they are also members. They cite the new code of conduct as their excuse. Will the Minister categorically confirm that the code is not intended to prevent members from expressing opinions, and engaging in debate, but rather to increase transparency and accountability? In Pembrokeshire, the exact opposite seems to be happening, with members of the ruling party wilfully subverting the democratic process.

**Richard Edwards:** Diolch, Weinidog. Mae'n gwbl addas bod fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â'm hannwyl awdurdod lleol, gweriniaeth ddemocrataidd Sir Benfro—gweriniaeth ddemocrataidd yn yr un modd ag yr arferai Dwyrain yr Almaen fod yn weriniaeth ddemocrataidd. Yr hyn sy'n unigryw i'r cysyniad unigol hwn o ddemocratiaeth yw tawelwch hunan-orfodol ar ran cynghorwyr wrth i ffora democrataidd eraill, megis cynghorau tref a chymuned, y maent hefyd yn aelodau ohonynt, drafod materion sy'n ymwneud â'r cyngor sir. Dyfynnant y cod ymddygiad newydd fel eu hesgus. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'n bendant nad bwriad y cod yw atal aelodau rhag mynegi barn, a rhag cymryd rhan mewn dadl, ond yn hytrach cynyddu tryloywder ac atebolrwydd? Yn Sir Benfro, ymddengys mai'r union wrthwyneb sy'n digwydd, gydag aelodau o'r blaid sydd mewn grym yn fwriadol yn tanseilio'r broses ddemocrataidd.



**Edwina Hart:** The code of conduct is there to ensure that local authority members have consistent standards of conduct. It is not a gagging order, and does not prevent councillors from expressing their opinions. Councillors must only be mindful of the code's aim. It is important that no-one hides behind the code. Every level of government must be democratic and transparent. I was delighted that you alluded to community councils, which are the foundations of democracy in Wales. Today, the Presiding Officer and I attended the successful launch of 'One Voice Wales' outside the Assembly building, which demonstrates our commitment to local community councils and to the fact that they have adapted to changes within government in Wales.

**Janet Ryder:** I will take that point further and refer again to town and community councils, and the requirement for them to have standards committees, or to participate with the principal council in their area, and work through its standards committee. Will you give us reassurance that all standards committees are up and running and that all connections with town and community councils are in place?

**Edwina Hart:** As far as I am aware—unless you have an example to prove otherwise—that is the case. However, I will check with officials in my department and place a letter in the Library for Members.

**William Graham:** You indicated in the Local Government and Housing Committee that you would ensure proper de minimus rules. When will you do that, so that councillors can speak openly in all venues?

**Edwina Hart:** Councillors can speak openly and properly in venues. I know that councillors are concerned about some issues, particularly with regard to planning, but I will consider this matter again, if I am the Minister with responsibility for this area.

**Edwina Hart:** Cynhyrchwyd y cod ymddygiad er mwyn sicrhau bod gan aelodau awdurdodau lleol safonau ymddygiad cyson. Nid gorchymyn gagio mohono, ac nid yw'n atal cynghorwyr rhag mynegi eu barn. Yr unig beth y disgwylir i gynghorwyr ei gofio yw nod y cod. Mae'n bwysig nad oes unrhyw un yn cuddio y tu ôl i'r cod. Rhaid i bob lefel o lywodraeth fod yn ddemocrataidd ac yn dryloyw. Yr oeddwn yn falch ichi sôn am gynghorau cymuned, sef sylfeini democratiaeth yng Nghymru. Heddiw, bûm innau a'r Llywydd yn achlysur lansio llwyddiannus 'Cymru Un Llais' y tu allan i adeilad y Cynulliad, sy'n dangos ein hymrwymiad i gynghorau cymuned lleol ac i'r ffaith eu bod wedi addasu i newidiadau o fewn llywodraeth yng Nghymru.

**Janet Ryder:** Ymhelaethaf ar y pwynt hwnnw gan gyfeirio eto at gynghorau tref a chymuned, a'r gofyniad iddynt sefydlu pwyllgorau safonau, neu gydweithio â phrif gyngor eu hardal, a gweithio drwy ei bwyllgor safonau. A roddwch sicrwydd inni fod yr holl bwyllgorau safonau wedi'u sefydlu a bod yr holl gysylltiadau gyda chynghorau tref a chymuned ar waith?

**Edwina Hart:** Hyd y gwn i—onid oes gennych enghraifft i brofi fel arall—mae hynny'n wir. Fodd bynnag, gwiriaf hyn â swyddogion yn fy adran a rhoddaf lythyr yn y Llyfrgell i Aelodau.

**William Graham:** Bu ichi nodi yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y byddech yn sicrhau rheolau de minimus priodol. Pryd y gwnewch hynny, er mwyn i gynghorwyr allu siarad yn agored ymhob lleoliad?

**Edwina Hart:** Gall cynghorwyr siarad yn agored ac yn briodol mewn lleoliadau. Gwn fod cynghorwyr yn pryderu am rai materion, yn arbennig o ran cynllunio, ond ailystyriaf y mater hwn, os mai fi fydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am y maes hwn.

**Cyngor Sir Ynys Môn (Ansawdd Gwasanaethau)  
Isle of Anglesey County Council (Quality of Services)**

**Q2 Peter Rogers:** Can the Minister make a

**C2 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog

statement on the quality of services provided by the Isle of Anglesey County Council? (OAQ23827)

**Edwina Hart:** I do not discuss the performance of individual local authorities.

**Peter Rogers:** Thank you for that response. You will be aware of the issue—I have been corresponding with you about it for a long time—with regard to a planning appeal before one of your inspectors in April in relation to a caravan site. The inspector dismissed the appeal but granted a certificate of lawfulness for a certain time for touring caravans during the summer season. He also noted in his report that 40 caravans were already in a dilapidated condition on the site which would need to be removed. I have been in constant contact with the council asking for an enforcement order to be made to take those caravans away. Eventually, the council's rating officer decided that the property of one neighbour had been blighted because of the state of the caravan park, and that illegal caravans were on the site; subsequently, the rates in that case were downgraded by one band. Eventually, the enforcement order was served this January—

**The Presiding Officer:** Order. This is not a debate, and I doubt that the Minister would regard it as appropriate to answer your question.

ddatganiad ar ansawdd y gwasanaethau y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn eu darparu? (OAQ23827)

**Edwina Hart:** Nid wyf yn trafod perfformiad awdurdodau lleol unigol.

**Peter Rogers:** Diolch am yr ymateb hwnnw. Byddwch yn ymwybodol o'r mater—bûm yn gohebu â chi yn ei gylch ers peth amser—o ran apêl cynllunio gerbron un o'ch arolygwyr ym mis Ebrill mewn perthynas â safle carafanau. Gwrthododd yr arolygydd yr apêl ond dyfarnodd dystysgrif cyfreithlondeb am gyfnod penodol i garafanau teithio yn ystod tymor yr haf. Nododd hefyd yn ei adroddiad bod 40 o garafanau eisoes mewn cyflwr gwael ar y safle ac y byddai angen eu symud. Bûm mewn cysylltiad cyson â'r cyngor yn gofyn iddynt wneud gorchymyn gorfodi i symud y carafanau hynny ymaith. O'r diwedd, penderfynodd swyddog ardrethu'r cyngor fod cyflwr y maes carafannau wedi cael effaith andwyol ar eiddo un o'r cymdogion, a bod carafannau anghyfreithlon ar y safle; o ganlyniad, israddiwyd y trethi yn yr achos hwnnw un band. O'r diwedd, cyflwynwyd y gorchymyn gorfodi ym mis Ionawr—

**Y Llywydd:** Trefn. Nid dadl yw hon, ac yr wyf yn amau a fyddai'r Gweinidog o'r farn y byddai'n briodol ateb eich cwestiwn.

### **Adfywio'r Gymuned yn Abertawe Community Regeneration in Swansea**

**Q3 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement about capacity building for community regeneration in Swansea? (OAQ23817)

**Edwina Hart:** The Local Government and Housing Committee's review of community regeneration has acknowledged the importance of capacity building in Swansea and across Wales. In Swansea, more than £1 million has been allocated to help prepare and build capacity for local communities under the Communities First programme.

**Val Lloyd:** It is possible to meet the increase in demand for employment in the community regeneration sector by using suitable people

**C3 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am feithrin gallu cymuned Abertawe i adfywio'r gymuned honno? (OAQ23817)

**Edwina Hart:** Cydnabu adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o adfywiad cymunedol bwysigrwydd cynyddu capasiti yn Abertawe a ledled Cymru. Yn Abertawe, dyrannwyd dros £1 filiwn i helpu i baratoi a chynyddu capasiti cymunedau lleol o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

**Val Lloyd:** Mae'n bosibl ymateb i'r cynnydd yn y galw am gyflogaeth yn y sector adfywio cymunedau drwy ddefnyddio

from targeted communities. Not only does that create employment and develop skills in those communities, but community volunteers, who contribute so much to community programmes, have the ideal experience to make excellent regeneration workers. Such a scheme for voluntary services led by the City and County of Swansea Council has five trainees from the first intake, and provides traineeships for people from Communities First areas, which then lead to a national vocational qualification in community work. Will you join me in commending this scheme, and in encouraging wider use of such talent?

pobl addas o gymunedau a dargedir. Mae hynny nid yn unig yn creu cyflogaeth ac yn datblygu sgiliau yn y cymunedau hynny, ond mae gwirfoddolwyr cymunedol, sy'n cyfrannu cymaint at raglenni cymunedol, yn meddu ar y profiad delfrydol i fod yn weithwyr adfywio ardderchog. Mae gan gynllun gwasanaethau gwirfoddol o'r fath o dan arweiniad Cyngor Dinas a Sir Abertawe bump hyfforddai o'r cylch cyntaf, ac mae'n darparu cynlluniau hyfforddi i bobl o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedyn yn arwain at gymhwyster galwedigaethol cenedlaethol mewn gwaith cymunedol. A ymunwch â mi i gymeradwyo'r cynllun hwn, ac annog defnydd ehangach o dalent o'r fath?

2.10 p.m.

**Edwina Hart:** That is an excellent scheme. One area about which I am concerned as Minister, as is the Committee, is training and ensuring adequate numbers of community development workers. Therefore, any successful initiatives that we can share across the board are useful. It is also important that we recognise that we have much more to do in encouraging people to go into community development work. We have some examples also of poaching under Communities First, which has not been helpful.

**Edwina Hart:** Mae hwnnw'n gynllun ardderchog. Un maes yr wyf yn pryderu yn ei gylch fel Gweinidog, fel y mae'r Pwyllgor hefyd, yw hyfforddiant a sicrhau nifer digonol o weithwyr datblygu cymunedau. Felly, mae unrhyw fentrau llwyddiannus y gallwn eu rhannu yn gyffredinol yn ddefnyddiol. Mae hefyd yn bwysig inni gydnabod bod gennym lawer mwy i'w wneud i annog pobl i fentro i waith datblygu cymunedau. Gwelsom rai enghreifftiau hefyd o botsio o dan Cymunedau yn Gyntaf, na fu o gymorth.

**Alun Cairns:** Like Val Lloyd, and other Members, I have just taken part in a question time session with representatives of ethnic minority communities, who desperately want to become engaged in community regeneration. What specific plans do you have to support ethnic minority communities in this respect?

**Alun Cairns:** Fel Val Lloyd, ac Aelodau eraill, yr wyf newydd gymryd rhan mewn sesiwn cwestiynau gyda chynrychiolwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, sy'n awyddus iawn i ymwneud ag adfywio cymunedau. Pa gynlluniau penodol sydd gennych i gefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn hyn o beth?

**Edwina Hart:** When we first introduced Communities First, we introduced communities of interest, in addition to the 100 communities taken from the Welsh index of multiple deprivation. That applied to ethnic minority communities. We have tried to encourage ethnic minority communities to engage in communities of interest bids. We have had some preliminary bids and discussions, but much more work needs to be done in that area in the coming years.

**Edwina Hart:** Pan gyflwynwyd Cymunedau yn Gyntaf gennym am y tro cyntaf, cyflwynasom gymunedau o ddiddordeb, yn ogystal â'r 100 o gymunedau a ddewiswyd o fynegai amlamddifadedd Cymru. Yr oedd hynny'n berthnasol i gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Yr ydym wedi ceisio annog cymunedau lleiafrifoedd ethnig i gyflwyno ceisiadau cymunedau o ddiddordeb. Derbyniwyd rhai ceisiadau cychwynnol a chafwyd rhai trafodaethau, ond mae angen gwneud llawer mwy o waith

yn y maes hwnnw yn ystod y blynyddoedd nesaf.

**David Lloyd:** O'r £160 miliwn o arian Amcan 1 sydd wedi ei glustnodi ar gyfer adfywio cymunedol yng Nghymru, dim ond £8 miliwn sydd wedi ei wario. A oes bwriad i wario mwy o'r arian Amcan 1 hwn i adeiladu capasiti cymunedol yn Abertawe?

**David Lloyd:** Of the £160 million of Objective 1 funding that has been allocated for community regeneration in Wales, only £8 million has been spent. Is there any intention to spend more of this Objective 1 funding to build community capacity in Swansea?

**Edwina Hart:** I am not clear which pot you are referring to; I will check the question in the Record and get back to you. My understanding is that match funding provision is going well across the board, money is being spent, and everything is hunky-dory on Objective 1.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn glir at ba gronfa yr ydych yn cyfeirio; edrychaf ar y cwestiwn yn y Cofnod a rhoddaf ateb i chi. O'r hyn a ddeallaf, mae'r ddarpariaeth arian cyfatebol yn gyffredinol yn llwyddo, mae arian yn cael ei wario, ac mae Amcan 1 yn gweithio'n fendigedig.

### Targedau Dogfennau Strategol Strategic Documents Targets

**Q4 Janet Ryder:** Has the Assembly Government fulfilled all the promises and targets contained in the strategic documents published since 1999, in relation to the local government and communities portfolio? (OAQ23812)

**C4 Janet Ryder:** A yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflawni'r holl addewidion a chyrraedd y targedau yn y dogfennau strategol a gyhoeddwyd ers 1999 mewn perthynas â'r portffolio llywodraeth leol a chymunedau? (OAQ23812)

**Edwina Hart:** We are making solid progress on regenerating local democracy and supporting local communities. We have achieved many—although not all—of the commitments set out in 'Plan for Wales 2001'.

**Edwina Hart:** Yr ydym yn gwneud cynnydd cadarn o ran adfywio democratiaeth leol a chefnogi cymunedau lleol. Yr ydym wedi cyflawni llawer—er nad pob un—o'r ymrwymadau a nodwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'.

**Janet Ryder:** In your partnership document with the Liberal Democrats, you pledged to invest £21 million over three years in improving the quality of housing. We now face a £1.8 billion backlog in housing repairs. How do you intend to reach your 2012 target for quality social housing in Wales? Will you revisit that £21 million over three years in the next budget?

**Janet Ryder:** Yn eich dogfen bartneriaeth â'r Democratiaid Rhyddfrydol, gwnaed addewid gennych i fuddsoddi £21 miliwn dros dair blynedd i wella ansawdd tai. Yr ydym yn awr yn wynebu ôl-groniad o £1.8 biliwn o ran trwsio tai. Sut y bwriadwch gyrraedd eich targed ar gyfer 2012 o ran tai cymdeithasol o ansawdd yng Nghymru? A ailystyriwch y £21 miliwn dros dair blynedd yn y gyllideb nesaf?

**Edwina Hart:** I was looking at our commitments to improve housing in 'Plan for Wales 2001', which is the document that I go by. That document refers to providing a new national housing strategy, which we have created; tackling homelessness and rough sleeping, which we have done in terms of

**Edwina Hart:** Yr oeddwn yn edrych ar ein hymrwymadau i wella tai yn 'Cynllun i Gymru 2001', sef y ddogfen a ddilynaf. Mae'r ddogfen honno yn cyfeirio at ddarparu strategaeth dai genedlaethol newydd, a luniwyd gennym; mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd, yr ydym

legislation and cash; and continuing to support Care and Repair Cymru to enable people to stay in their homes, which we have also done. We are also committed to a range of social housing issues. Therefore, we are on course to deliver on our targets. When you talk to people, they can see that we have delivered on this agenda.

**Eleanor Burnham:** Do you agree that we have made considerable progress in the last four years? After all, we are in the infancy of a new democracy, and we should have some confidence that we are just starting to build a new future.

**Edwina Hart:** We are a fledgling democracy, but the actions that we have taken show us to be a grown-up democracy. We have been prepared to move the agenda forward and have done so more quickly than other parts of the United Kingdom. It is important to recognise the Assembly's achievements—they should not be talked down, even during this election period. We must be proud of what we have all done as Assembly Members. I am proud of what I have done in Government, and I am proud of this Labour-led administration.

wedi'i wneud o ran deddfwriaeth ac arian; a pharhau i gefnogi Gofal a Thrawsio Cymru er mwyn galluogi i bobl aros yn eu cartrefi, yr ydym hefyd wedi'i wneud. Yr ydym hefyd yn ymrwymedig i amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thai cymdeithasol. Felly, yr ydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targedau. Wrth siarad â phobl, gallant weld ein bod wedi gweithredu ar yr agenda hon.

**Eleanor Burnham:** A gytunwch ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf? Wedi'r cyfan, megis dechrau y mae'r ddemocratiaeth newydd hon, a dylem fod yn eithaf hyderus ein bod wrthi'n dechrau adeiladu dyfodol newydd.

**Edwina Hart:** Yr ydym yn ddemocratiaeth ifanc, ond mae'r camau a gymerwyd gennym yn dangos ein bod yn ddemocratiaeth aeddfed. Buom yn barod i ddatblygu'r agenda ac i wneud hynny'n gynt na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae'n bwysig cydnabod cyflawniadau'r Cynulliad—ni ddylid eu bychanu, hyd yn oed yn ystod y cyfnod etholiadol hwn. Rhaid inni ymfalchïo yn yr hyn a wnaed gennym fel Aelodau'r Cynulliad. Yr wyf fi'n ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnais yn y Llywodraeth, ac yr wyf yn ymfalchïo yn y weinyddiaeth hon o dan arweiniad y Blaid Lafur.

### System Radio 'Airwave' The Airwave Radio System

**Q5 Alison Halford:** What discussions has the Minister had with the UK Government/police in Wales about the effectiveness of the new Airwave system in reducing crime? (OAQ23820)

**Edwina Hart:** I meet regularly with Wales's chief constables and police authorities. The Airwave system has been rolled out to all police forces in Wales.

**Alison Halford:** First, I warmly thank you for the extra £2 million announced yesterday in the all-Wales police school programme. That is an excellent initiative. Bearing in mind that you have shown excellent husbandry of Assembly finances, do you agree that Wales should gain control of policing to ensure that expensive schemes, such as Airwave, achieve good value

**C5 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU/heddlu Cymru ynghylch effeithiolrwydd y system 'airwave' newydd yn y gwaith o leihau trosedd? (OAQ23820)

**Edwina Hart:** Cyfarfyddaf yn gyson â phrif gwnstabiliaid ac awdurdodau heddlu Cymru. Cyflwynwyd y system Airwave i bob heddlu yng Nghymru.

**Alison Halford:** Yn gyntaf, hoffwn ddiolch ichi'n fawr am y £2 filiwn ychwanegol a gyhoeddwyd ddoe yn rhaglen ysgol heddlu Cymru gyfan. Mae hon yn fenter ardderchog. O gofio eich bod wedi glynu wrth gyllidau'r Cynulliad yn arbennig o dda, a gytunwch y dylai Cymru ennill rheolaeth dros blismona er mwyn sicrhau bod

for money for the people of Wales?

**Edwina Hart:** It is essential that we assess whether Home Office schemes offer good value for money in Wales. In relation to the debate on devolving police powers to Wales, I am minded to support it in principle.

**Geraint Davies:** Concerns have been expressed recently about the location of Airwave Tetra masts. What guidance has been issued to local authorities regarding the effect of these masts on public health and the environment?

**Edwina Hart:** Tetra masts are a matter for the Home Office, as the department with responsibility for policing matters. However, I will make inquiries on whether any guidance has been issued to local government—I do not think that my department has issued any—and advise Members accordingly.

cynlluniau drud, fel Airwave, yn cyflawni gwerth da am arian i bobl Cymru?

**Edwina Hart:** Mae'n hanfodol ein bod yn asesu a yw cynlluniau'r Swyddfa Gartref yn cynnig gwerth da am arian yng Nghymru. O ran y ddadl ar ddatganoli pwerau'r heddlu i Gymru, tueddaf i gefnogi hynny mewn egwyddor.

**Geraint Davies:** Mynegwyd pryderon yn ddiweddar ynghylch lleoliad mastiau Tetra Airwave. Pa ganllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol ynghylch effaith y mastiau hynny ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd?

**Edwina Hart:** Mater i'r Swyddfa Gartref, fel yr adran sydd â chyfrifoldeb dros faterion plismona, yw mastiau Tetra. Fodd bynnag, gwnaf ymholiadau ar p'un a roddwyd unrhyw ganllawiau i lywodraeth leol—ni chredaf i'm hadran roi unrhyw ganllawiau— a chynghori Aelodau yn unol â hynny.

### Tai Cymdeithasol a'r Cynllun Prynu Cartref Social Housing and the Homebuy Scheme

**C6 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ryddhau rhagor o arian ar gyfer tai, yn benodol i ariannu tai cymdeithasol a'r cynllun prynu cartref? (OAQ23852)

**Edwina Hart:** I have already announced the allocation of £5.64 million for the social housing grant programme for 2003-04. Having taken into account many of the competing pressures for resources, I do not plan to change this budget. The figure includes a supplement of £1.5 million specifically for the rural homebuy scheme. Allocating the social housing grant to the homebuy scheme is a matter for individual authorities.

**Owen John Thomas:** Mae'n amlwg bod problem fawr mewn ardaloedd fel Caerdydd, lle mae 8,000 o bobl ar y rhestr aros. A gredwch ei bod yn bwysig eich bod yn neilltuo arian ychwanegol i helpu â'r sefyllfa hon, a sicrhau bod mwy o arian ar gael ar gyfer y cynllun prynu cartref?

**Edwina Hart:** The National Assembly has given special consideration to homebuy issues, particularly in rural areas. You have raised the

**Q6 Owen John Thomas:** Will the Minister make more money available for housing, specifically for the funding of social housing and the homebuy scheme? (OAQ23852)

**Edwina Hart:** Yr wyf eisoes wedi datgan bod y £5.64 miliwn wedi ei ddyranu ar gyfer y rhaglen grant tai cymdeithasol ar gyfer 2003-04. Ar ôl ystyried llawer o'r pwysau cystadleuol ar gyfer adnoddau, ni fwriadaf newid y gyllideb hon. Mae'r ffigur yn cynnwys swm atodol o £1.5 miliwn yn benodol ar gyfer y cynllun cymorth prynu gwledig. Mater i'r awdurdodau unigol yw dyrannu'r grant tai cymdeithasol i'r cynllun cymorth prynu.

**Owen John Thomas:** It is evident that there is a huge problem in areas such as Cardiff, where there are 8,000 people on the waiting list. Do you think that it is important that you allocate additional funding to help with this situation and ensure that more funding is available for the homebuy scheme?

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi ystyriaeth arbennig i faterion cynllun prynu cartref, yn arbennig

situation in Cardiff previously and the local authority recently published a housing needs survey, which recognised the possibility that many households, which aspired to buy their own homes, could find adequate housing in surrounding areas where it is much cheaper. As I have said previously, to achieve a balance, it is for local authorities to consider issues of particular concern. The Assembly has been generous in how it has dealt with the homebuy scheme. We continue to review homebuy issues and, in future, we will probably review them as part of the budget process.

**Lorraine Barrett:** Do you believe that if Rhondda Cynon Taf County Borough Council had not wasted nearly £300,000 renovating one terraced house, it might have enough money to transfer to the homebuy scheme?

**Edwina Hart:** It is the responsibility of the local authority to decide how it spends its resources. I am not certain that the money was for one terraced house: it might have been for a terrace. I am making inquiries on that particular matter.

**Pauline Jarman:** I wish to comment on a remark made in the Chamber yesterday. Will the Minister be mindful that, when statements are made, it should be established that they are truthful? The remark made by the Member in that question was not an accurate statement of the facts.

**Edwina Hart:** Your point is noted.

**The Presiding Officer:** Order. I would be grateful if Pauline Jarman would reconsider the phrasing of her comment, because it imputed that the Member had stated an untruth.

**Pauline Jarman:** It was an inaccurate reflection of the facts. Does the Minister agree?

**Edwina Hart:** I will consider the circumstances, assess the matter and, if necessary, place any comments in a letter in the Library.

mewn ardaloedd gwledig. Yr ydych wedi codi'r sefyllfa yng Nghaerdydd o'r blaen a chyhoeddodd yr awdurdod lleol arolwg anghenion tai yn ddiweddar, a nododd y posibilrwydd na allai llawer o deuluoedd, a ddymunai brynu eu tai eu hunain, ddod o hyd i dai digonol yn y cyffiniau lle mae'n rhatach o lawer. Fel y dywedais o'r blaen, er mwyn cael cydbwysedd, yr awdurdodau lleol ddylai ystyried materion o bryder penodol. Bu'r Cynulliad yn hael yn y modd y deliodd â'r cynllun prynu cartref. Parhawn i adolygu materion y cynllun prynu cartref ac, yn y dyfodol, mae'n siŵr y byddwn yn eu hadolygu fel rhan o broses y gyllideb.

**Lorraine Barrett:** A gredwch, pe na bai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gwastraffu bron £300,000 yn adnewyddu un tŷ teras, y byddai ganddo ddigon o arian i drosglwyddo i'r cynllun prynu cartref?

**Edwina Hart:** Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw penderfynu sut y mae'n gwario ei adnoddau. Nid wyf yn sicr ai arian ar gyfer un tŷ teras ydoedd: efallai mai ar gyfer teras ydoedd. Yr wyf yn gwneud ymholiadau ynghylch y mater penodol hwnnw.

**Pauline Jarman:** Hoffwn wneud sylwadau am sylw a wnaed yn y Siambr ddoe. A wnaiff y Gweinidog gofio sicrhau, pan wneir datganiadau, eu bod yn wir? Nid oedd y sylw a wnaed gan yr Aelod yn y cwestiwn hwnnw yn ddatganiad cywir o'r ffeithiau.

**Edwina Hart:** Nodwyd eich pwynt.

**Y Llywydd:** Trefn. Byddwn yn ddiolchgar pe bai Pauline Jarman yn ailystyried geiriad ei sylw, oherwydd yr oedd yn ensynio bod yr Aelod wedi dweud anwiredd.

**Pauline Jarman:** Yr oedd yn adlewyrchiad anghywir o'r ffeithiau. A yw'r Gweinidog yn cytuno?

**Edwina Hart:** Ystyriaf yr amgylchiadau, asesaf y sefyllfa ac, os bydd angen, rhoddaf unrhyw sylwadau mewn llythyr yn y Llyfrgell.

**Troseddu mewn Ardaloedd Gwledig (Bro Morgannwg)**  
**Rural Crime (Vale of Glamorgan)**

**Q7 David Melding:** Will the Minister make a statement on rural crime in the Vale of Glamorgan? (OAQ23816)

**Edwina Hart:** The Government has made reducing crime and building safer communities throughout Wales a high priority. The fact that the fear of crime, and the level of crime in general, are significantly lower in rural areas than in urban areas has not led to complacency. Local community safety partnerships are engaged in a range of interventions, which address the specific problems of rural communities.

**David Melding:** There is a particular problem in rural areas regarding arson targeted at farm buildings. Will the Minister consider this issue as it is causing much distress in the Vale of Glamorgan?

**Edwina Hart:** Arson causes distress everywhere, not just in rural areas. Consider the distress caused when cars are set on fire, often in problem areas. All our constituents are keen for this to be sorted out. I will take your point into account.

2.20 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Y mae'r broblem o droseddu mewn ardaloedd gwledig yn amlwg yn bodoli ym Mro Morgannwg a thrwy Gymru gyfan, gan gynnwys fy etholaeth, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr. A wnaiff y Gweinidog dderbyn bod plismona mewn ardaloedd gwledig yn golygu costau ychwanegol i'r heddlu? A yw'r Gweinidog, unwaith eto, yn barod i ystyried sut yr ariennir yr heddlu, gan bwysu ar y Swyddfa Gartref i sicrhau bod heddluoedd yn derbyn y swm sydd ei angen arnynt i sicrhau plismona effeithiol?

**Edwina Hart:** I ensure that adequate funding is available for the police across Wales, to enable them to get on with their job. Different issues arise in rural areas, such as longer police response times because of greater travelling distances. I assure you that the chief constables

**C7 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar droseddu yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg? (OAQ23816)

**Edwina Hart:** Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau bod lleihau trosedd ac adeiladu cymunedau mwy diogel ledled Cymru yn flaenoriaeth. Nid yw'r ffaith bod ofn trosedd, a lefelau trosedd yn gyffredinol, gryn dipyn yn is mewn ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol wedi arwain at deimlo'n hunanfodlon. Mae partneriaethau diogelwch cymunedau lleol yn ymwneud ag ystod o ymyriaethau, sy'n mynd i'r afael â phroblemau penodol cymunedau gwledig.

**David Melding:** Mae problem benodol mewn ardaloedd gwledig ynglŷn â llosgi adeiladau fferm yn fwriadol. A wnaiff y Gweinidog ystyried y mater hwn gan ei fod yn achosi llawer o ofid ym Mro Morgannwg.

**Edwina Hart:** Mae llosgi bwriadol yn achosi gofid ymhobman, nid mewn ardaloedd gwledig yn unig. Ystyriwch y gofid a achosir pan losgir ceir, yn aml mewn ardaloedd problemus. Mae ein hetholwyr i gyd yn awyddus i hyn gael ei ddatrys. Ystyriaf eich pwynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** The problem of rural crime clearly exists in the Vale of Glamorgan, as well as throughout Wales, including in my constituency of Carmarthen East and Dinefwr. Will the Minister accept that policing rural areas means additional costs for the police? Is the Minister, once again, willing to consider how the police is funded, and urge the Home Office to ensure that police forces receive the amount that they require to ensure effective policing?

**Edwina Hart:** Sicrhaf fod digon o arian ar gael ar gyfer yr heddlu ledled Cymru, i'w galluogi i fwrw ymlaen â'u gwaith. Mae materion gwahanol yn codi mewn ardaloedd gwledig, megis amserau ymateb hwy yr heddlu oherwydd pellteroedd teithio hwy.



of forces that police rural areas, such as Dyfed-Powys Police, make their representations known to me. It is important that enough money is available, so that people feel protected and feel that criminals are being caught.

Fe'ch sicrhaf fod prif gwnstabiliaid yr heddluoedd sy'n plismona'r ardaloedd gwledig, fel Heddlu Dyfed-Powys, yn cyflwyno eu sylwadau i mi. Mae'n bwysig bod digon o arian ar gael, fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo bod troseddwy'r yn cael eu dal.

### **Llywodraeth Leol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed Local Government in Brecon and Radnorshire**

**Q8 Kirsty Williams:** What has the Welsh Assembly Government achieved in the policy area of local government in Brecon and Radnorshire since the establishment of the partnership? (OAQ23813)

**C8 Kirsty Williams:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni ym maes polisi llywodraeth leol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed ers sefydlu'r bartneriaeth? (OAQ23813)

**Edwina Hart:** A Welsh Assembly Government fact-file has been published on the Assembly's internet site. Brecon and Radnorshire, like all other parts of Wales, has benefited from the initiatives listed under the local government, housing and communities portfolio.

**Edwina Hart:** Cyhoeddwyd ffeil ffeithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wefan y Cynulliad. Mae Brycheiniog a Sir Faesyfed, fel manau eraill yng Nghymru, wedi elwa ar y mentrau a restrwyd o dan bortffolio llywodraeth leol, tai a chymunedau.

**Kirsty Williams:** Minister, you may know of the publication of a recent report on child poverty by the National Society for the Prevention of Cruelty to Children and the National Children's Home. That report stated that services in rural areas are often not properly funded, because national funding formulae and programmes do not fully recognise the state of poverty in rural areas. Communities First was, quite rightly, targeted at the 100 poorest wards in Wales, but Llandrindod North is in the top 100 areas with the highest level of child poverty, yet it receives no Communities First money. If you are reappointed as Minister for local government following the election in May, will you consider how allocation formulae work for rural areas?

**Kirsty Williams:** Weinidog, efallai y gwyddoch am adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar dlodi plant gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant a Chartref Cenedlaethol y Plant. Nododd yr adroddiad hwnnw nad yw gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn aml yn cael eu hariannu'n ddigonol, gan nad yw fformiwlâu a rhaglenni cyllido cenedlaethol yn cydnabod y sefyllfa o ran tlodi mewn ardaloedd gwledig yn llawn. Targedwyd Cymunedau yn Gyntaf, a hynny'n hollol deg, at y 100 ward tlotaf yng Nghymru, ond mae Gogledd Llandrindod yn y 100 o ardaloedd sydd â'r graddfeydd uchaf o dlodi plant, eto i gyd nid yw'n derbyn arian Cymunedau yn Gyntaf. Os cewch eich ailbenodi yn Weinidog dros lywodraeth leol yn dilyn etholiad Mai, a wnewch ystyried sut y mae fformiwlâu dyrannu yn gweithio ar gyfer ardaloedd gwledig?

**Edwina Hart:** The local government formula is subject to agreement between the Assembly and the Welsh Local Government Association, but additional money is given by special grant, which can impact on this agenda. I am more than willing to consider the mechanisms of allocating special grants to ensure that they are fair and equitable. Child poverty is a blight on society. It is incumbent upon us all to think

**Edwina Hart:** Mae fformiwlâ llywodraeth leol yn dibynnu ar gytundeb rhwng y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond rhoddir arian ychwanegol drwy grant arbennig, a all effeithio ar yr agenda hon. Yr wyf yn fwy na pharod i ystyried y dulliau o glustnodi grantiau arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn deg ac yn gyfiawn. Mae tlodi plant yn bla ar gymdeithas. Mae'n

about what we can do to tackle that issue, whether in rural or urban Wales, because we do not want to see any child growing up in poverty.

ddyletswydd ar bawb i feddwl am beth y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwnnw, boed yn ardaloedd gwledig neu drefol Cymru, oherwydd nid ydym am weld unrhyw blentyn yn cael ei fagu mewn tloidi.

**Cyngor Sir Ynys Môn (Ymgynghori â Masnachwyr Lleol)  
Isle of Anglesey County Council (Consultation with Local Traders)**

**Q9 Peter Rogers:** What responsibility does the Isle of Anglesey County Council have in terms of consulting local traders with any decision it makes? (OAQ23876)

**C9 Peter Rogers:** Pa gyfrifoldeb sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn o ran ymgynghori â masnachwyr lleol mewn unrhyw benderfyniad a wnaiff? (OAQ23876)

**Edwina Hart:** This is a matter for the local authority.

**Edwina Hart:** Mae hyn yn fater ar gyfer yr awdurdod lleol.

**Peter Rogers:** What powers do traders have to oppose council decisions that threaten their livelihoods?

**Peter Rogers:** Pa bwerau sydd gan fasnachwyr i wrthwynebu penderfyniadau'r cyngor sy'n bygwth eu bywoliaethau?

**Edwina Hart:** Local authorities are responsible for the general economic wellbeing of their areas. It is important that authorities hold discussions with local traders and businesses on how to promote their businesses.

**Edwina Hart:** Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am les economaidd cyffredinol eu hardaloedd. Mae'n bwysig bod yr awdurdodau'n cynnal trafodaethau gyda masnachwyr a busnesau lleol ar sut i hybu eu busnesau.

**The Presiding Officer:** Question 10 (OAQ23825) is transferred for written answer.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 10 (OAQ23825) ar gyfer ateb ysgrifenedig.

**Dosbarthu'r Grant Amddifadedd  
Distribution of the Deprivation Grant**

**Q11 Janet Davies:** Will the Minister make a statement on the distribution of the deprivation grant to local authorities in Wales? (OAQ23823)

**C11 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosbarthu'r grant amddifadedd i awdurdodau lleol yng Nghymru? (OAQ23823)

**Edwina Hart:** The formula for distributing the £20 million deprivation grant is calculated using the Welsh index of multiple deprivation. The index allows wards to be ranked according to the most deprived, based on several factors. The formula then allocates the grants on a weighted basis, taking account of those rankings and the relative population in the more deprived wards. The grant is unhypothecated, and authorities are free to use the money as they see fit.

**Edwina Hart:** Caiff y fformiwla ar gyfer dosbarthu'r grant amddifadedd £20 miliwn ei chyfrifo gan ddefnyddio mynegrif amddifadedd lluosog Cymru. Mae'r mynegrif yn caniatáu i wardiau gael eu trefnu yn ôl y rhai mwyaf difreintiedig, yn seiliedig ar sawl ffactor. Yna mae'r fformiwla yn dyrannu'r grantiau ar sail gymhwysol, gan ystyried y dull trefnu hwnnw a'r boblogaeth berthynol yn y wardiau mwyaf difreintiedig. Nid yw'r grant yn un wedi'i bridiannu, a chaiff awdurdodau ddefnyddio'r arian fel y gwelant orau.

**Janet Davies:** Minister, you mentioned the distribution factors, taking on board specific

**Janet Davies:** Weinidog, soniasoch am y ffactorau dosbarthu, sydd yn ystyried

issues in different wards. I assume that some communities, which do not qualify for Communities First, qualify for deprivation grant funding. However, some lack the capacity to tackle deprivation, or to get other agencies to tackle it. Will these grants take that into consideration and tackle those challenges?

**Edwina Hart:** I hope that local authorities will think carefully about how they spend the deprivation grant money, but it is entirely a matter for them to assess requirements across the local authority area and to decide where the money can be put to best use. It is important that it was an unhypothecated grant—money additional to the revenue support grant settlement—and that has been generally welcomed across Wales.

**Huw Lewis:** The deprivation grant has made a massive difference to people in my constituency, as Caerphilly County Borough Council and Merthyr Tydfil County Borough Council receive considerable sums of money. However, do you share my concern about the view openly-voiced by Plaid Cymru members of Caerphilly council, that this money should be used to offset Communities First spending and therefore spent in areas where Communities First does not apply—in other words, that it should be diverted from deprived areas to the more prosperous areas of the county borough?

**Edwina Hart:** It is important to recognise that I have given this grant to local authorities to use as they see fit. However, I would not wish it to replace any other funding streams, as it is in addition to the work that must be undertaken in deprived areas.

**David Ian Jones:** Do you accept that the method of calculating entitlement to the deprivation grant has resulted in deprived wards in north Wales not receiving the same level of support as similar wards in south Wales? Do you agree that it is now time to consult with local authorities so that deprived wards in all parts of Wales receive the same level of support?

materion penodol mewn wardiau gwahanol. Tybiaf fod rhai cymunedau, nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, yn gymwys ar gyfer arian grant amddifadedd. Fodd bynnag, nid oes gan rai y capasiti i fynd i'r afael ag amddifadedd, nac i gael asiantaethau eraill i fynd i'r afael â hyn. A fydd y grantiau hyn yn ystyried hynny ac yn mynd i'r afael â'r heriau hynny?

**Edwina Hart:** Gobeithiaf y bydd awdurdodau lleol yn ystyried yn ofalus sut y byddant yn gwario'r arian grant amddifadedd, ond eu dewis hwy yn llwyr yw asesu gofynion ar draws yr ardal awdurdod lleol a phenderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian. Mae'n bwysig mai grant heb ei bridianu ydoedd—arian sy'n ychwanegol at y setliad grant cynnal refeniw—a chroesawyd hynny yn gyffredinol ledled Cymru.

**Hugh Lewis:** Mae'r grant amddifadedd wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i bobl yn fy etholaeth, gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn derbyn symiau sylweddol o arian. Fodd bynnag, a rannwch fy mhryder ynglŷn â'r farn a fynegwyd yn agored gan aelodau Plaid Cymru ar gyngor Caerffili, y dylid defnyddio'r arian hwn i wrthbwysu gwariant ar Cymunedau yn Gyntaf a'i wario felly mewn ardaloedd lle nad yw Cymunedau yn Gyntaf yn berthnasol—hynny yw, y dylid ei ailgyfeirio o ardaloedd difreintiedig i ardaloedd mwy ffyniannus y fwrdeistref sirol?

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig cydnabod fy mod wedi rhoi'r grant hwn i awdurdodau lleol ei ddefnyddio fel y gwelant orau. Fodd bynnag, ni fyddwn yn dymuno iddo ddisodli unrhyw ffynonellau cyllido eraill, am ei fod yn ychwanegol at y gwaith y mae'n rhaid ei wneud mewn ardaloedd difreintiedig.

**David Ian Jones:** A dderbyniwch fod y dull o gyfrifo hawl i'r grant amddifadedd wedi golygu nad yw wardiau difreintiedig yn y Gogledd wedi derbyn yr un lefel o gymorth â wardiau tebyg yn y De? A gytunwch ei bod yn bryd inni ymgynghori ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod wardiau difreintiedig ym mhob cwr o Gymru'n derbyn yr un lefel o gymorth?

**Edwina Hart:** Your question raises two issues. In terms of Communities First money, wards in north and south Wales have the same access to the amount of money that can be spent and how it is dealt with because applications can be made to the Assembly and work is undertaken within Communities First partnerships. The deprivation fund is over and above all that, and is in addition to the revenue support grant. That money is given directly to local authorities, who can decide how they wish to spend the money. I have received representations by local government about the mechanism that I used to calculate allocations under the deprivation fund. I have indicated to local government that it can undertake work on this, if it so wishes, and bring proposals forward. However, at the end of the day, it is for the Minister to decide on the allocations.

**Edwina Hart:** Mae eich cwestiwn yn codi dau fater. O ran arian Cymunedau yn Gyntaf, mae gan wardiau yn y Gogledd a'r De yr un cyfle i gael y swm o arian y gellir ei wario a'r modd y caiff ei drin, oherwydd gellir cyflwyno ceisiadau i'r Cynulliad a chynhelir y gwaith o fewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r gronfa amddifadedd yn ychwanegol at hynny, ac mae'n ychwanegol at y grant cymorth refeniw. Rhoddir yr arian hwnnw yn uniongyrchol i awdurdodau lleol, a all benderfynu sut y dymunant wario'r arian. Yr wyf wedi derbyn sylwadau gan lywodraeth leol ynglŷn â'r dulliau a ddefnyddiais i gyfrifo dyraniadau o dan y gronfa amddifadedd. Dywedais wrth lywodraeth leol y gall gynnal gwaith ar hyn, os dymuna wneud hynny, a chyflwyno cynigion. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, y Gweinidog fydd yn penderfynu ar y dyraniadau.

**Brian Hancock:** My constituency of Islwyn forms part of Caerphilly County Borough Council, which only has one Communities First ward. The council is spending the money in sub-wards on projects as priorities for those communities. Do you share the concern that the partnerships running those projects are being top-sliced by other agencies coming into the area?

**Brian Hancock:** Mae fy etholaeth yn Islwyn yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sydd ond yn cynnwys un ward Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r cyngor yn gwario'r arian mewn is-wardiau ar brosiectau fel blaenoriaethau ar gyfer y cymunedau hynny. A rannwch fy mhryder bod y partneriaethau sy'n rhedeg y prosiectau hynny yn cael eu brigdorri gan asiantaethau eraill a ddaw i mewn i'r ardal?

**Edwina Hart:** I am not sure about the detail of your question, but I am happy to take on board any points that you may want to make. Caerphilly council received £2.2 million of deprivation grant, which places it among the largest beneficiaries of that grant.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn siŵr ynglŷn â manylion eich cwestiwn, ond yr wyf yn fodlon ystyried unrhyw bwyntiau yr hoffech eu gwneud. Derbyniodd cyngor Caerffili grant amddifadedd o £2.2 miliwn, sy'n golygu ei fod ymhlith prif fuddiolwyr y grant.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd Questions to the Minister for Environment**

#### **Didoli Gwastraff Min Ffordd Separation of Kerbside Waste**

**Q1 Janet Ryder:** What discussions has the Minister had with local authorities regarding the development of staff to promote the separation of kerbside waste? (OAQ23868)

**C1 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol am ddatblygu staff i ddidoli gwastraff min ffordd? (OAQ23868)

**The Minister for Environment (Sue Essex):** The Assembly Government sponsors the waste

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn

and resources action programme—generally known as WRAP—which has carried out training for local authority recycling officers, including for kerbside collection. Community groups carry out much collection of recyclates in Wales and I am in regular contact with the community recycling network, Cylch. The high diversion exemplars scheme that we are pursuing with five local authorities across Wales also emphasises kerbside collection.

**Janet Ryder:** Many local authorities and their staff have still not adjusted to the idea of recycling. Staff still require more training and communication on this. Do you believe that the Assembly should take a firmer lead on this? Will you make a commitment to that, so that we can ensure that local authorities take recycling seriously?

**Sue Essex:** I think that, for the most part, local authorities take recycling seriously. Recycling targets have been set for local authorities. While there may have been a slow start in some local authority areas, I am encouraged by recent figures. WRAP has placed a great emphasis on training, because we must ensure that this scheme is owned not only by local authorities but also by the front-line staff administering it. I am not sure whether you have particular examples that you wish to take up with me. I travel a great deal around Wales, and I spoke at a waste conference on Monday. As I have said, there was a slow start in places, but I am encouraged by the progress made. Targets have been set, and they are concentrating people's minds. The five exemplar local authorities that I mentioned will generate much useful best practice information that we can distribute across Wales.

**Rosemary Butler:** I congratulate you on your strong lead on environmental and recycling issues, which will move Wales forward. I know that you are aware of the excellent work being undertaken by Newport Wastesavers. As well as undertaking kerbside collections, it repairs and reuses white goods and has an excellent furniture outlet. Wastesavers and Newport City

noddi'r rhaglen gweithredu gwastraff ac adnoddau—a elwir yn WRAP yn gyffredinol—sydd wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer swyddogion ailgylchu awdurdodau lleol, yn cynnwys casglu min ffordd. Mae grwpiau cymunedol yn casglu llawer o ddeunydd y gellir ei ailgylchu yng Nghymru ac yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â'r rhwydwaith ailgylchu cymunedol, Cylch. Mae'r cynllun enghreifftiau dargyfeirio mawr yr ydym yn mynd ar ei drywydd gyda phum awdurdod lleol ar draws Cymru hefyd yn pwysleisio casglu min ffordd.

**Janet Ryder:** Nid yw llawer o awdurdodau lleol a'u staff wedi ymgynefino o hyd â'r syniad o ailgylchu. Mae angen mwy o hyfforddiant a chyfathrebu ar staff o hyd. A gredwch y dylai'r Cynulliad ymateb yn fwy cadarn i hyn? A wnewch ymrwymiad i hynny, fel y gallwn sicrhau bod awdurdodau lleol yn trin ailgylchu'n fwy difrifol?

**Sue Essex:** Credaf fod awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn ystyried ailgylchu o ddifrif. Pennwyd targedau ailgylchu ar gyfer awdurdodau lleol. Er mai araf fu'r ymateb mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, fe'm calonogwyd gan ffigurau diweddar. Mae WRAP wedi rhoi pwyslais mawr ar hyfforddi, oherwydd rhaid inni sicrhau nad yr awdurdodau lleol yn unig sy'n berchen ar y cynllun hwn ond hefyd y staff rheng-flaen sy'n ei weinyddu. Nid wyf yn siŵr a oes gennych enghreifftiau penodol yr hoffech eu trafod gyda mi. Yr wyf yn teithio'n helaeth o amgylch Cymru, a siaradais mewn cynhadledd ar wastraff ddydd Llun. Fel y dywedais, bu'r ymateb yn araf mewn rhai lleoedd, ond fe'm calonogwyd gan y cynnydd a wnaed. Pennwyd targedau, ac mae pobl yn rhoi sylw iddynt. Bydd y pum awdurdod lleol enghreifftiol y soniais amdanynt yn cynhyrchu llawer o wybodaeth arfer gorau defnyddiol y gallwn ei dosbarthu i bob cwr o Gymru.

**Rosemary Butler:** Hoffwn eich llongyfarch ar eich arweiniad cryf ar faterion amgylcheddol ac ailgylchu, a fydd yn datblygu Cymru. Gwn eich bod yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan Newport Wastesavers. Yn ogystal â chynnal casgliadau min ffordd, mae'n trwsio ac yn ailddefnyddio nwyddau

Council wish to continue this service and, hopefully, expand the operations, but a new facility is required to separate plastic waste. There has been concern about the use of landfill tax. Can you assure us that funding for these projects will continue and that there will be increased funding for community recycling projects across Wales?

gwyn ac mae ganddynt ganolfan ddodrefn wych. Mae Wastesavers a Chyngor Sir Casnewydd yn dymuno parhau â'r gwasanaeth hwn a'r gobaith yw y byddant yn ehangu, ond mae angen cyfleuster newydd ar gyfer gwahanu gwastraff plastig. Bu pryder ynglŷn â'r defnydd o dreth tirlenwi. A allwch ein sicrhau y bydd arian ar gyfer y prosiectau hyn yn parhau ac y bydd mwy o arian ar gael ar gyfer prosiectau ailgylchu cymunedol ledled Cymru?

2.30 p.m.

**Sue Essex:** Best practice examples, such as Newport Wastesavers, which has been at the cutting edge of community recycling for several years, are important in terms of giving people confidence in recycling projects across Wales. That kind of standard and community involvement is important. The Newport example shows how everyone in the community is involved and feels that they have a role to play.

**Sue Essex:** Mae enghreifftiau arfer gorau, fel Newport Wastesavers, sydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith ailgylchu cymunedol ers llawer o flynyddoedd, yn bwysig o ran rhoi hyder i bobl mewn prosiectau ailgylchu ledled Cymru. Mae'r math hwnnw o safon a chyfraniad cymunedol yn bwysig. Mae enghraifft Casnewydd yn dangos sut y caiff pawb yn y gymuned eu cynnwys a sut y teimlant fod ganddynt rôl i'w chwarae.

On landfill tax, a new regime was put in place on 1 April. We have made interim arrangements regarding funding, which should allay the worries of organisations across Wales that have depended on that funding. In the long term, the landfill tax money will be spent on mainstream waste and recycling management projects. The way in which credit money will be spent in future complements the type of work that Newport Wastesavers is undertaking, but I cannot guarantee that.

Ar y pwnc treth tirlenwi, rhoddwyd trefn newydd ar waith ar 1 Ebrill. Gwnaethom drefniadau dros dro o ran cyllido, a ddylai leddfu pryderon sefydliadau ledled Cymru sydd wedi dibynnu ar yr arian hwnnw. Yn yr hirdymor, caiff arian y dreth tirlenwi ei wario ar brosiectau rheoli gwastraff ac ailgylchu prif ffrwd. Mae'r ffordd y caiff arian credyd ei wario yn y dyfodol yn ategu'r math o waith y mae Newport Wastesavers yn ei wneud, ond ni allaf warantu hynny.

**Peter Black:** Kerbside recycling remains patchy around Wales, although it is slowly expanding. It is also limited in some areas, where only newspaper and glass waste is collected. What is the Assembly Government doing to try to increase funding to local councils to make this type of recycling universal across Wales? Furthermore, what is the Government doing to ensure an increase in the variety of products that can be collected and to promote the separation of waste early on?

**Peter Black:** Mae ailgylchu min ffordd yn parhau i fod yn anghyson ledled Cymru, er ei fod yn ehangu'n araf. Mae hefyd yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd, lle y cesglir gwastraff papurau newydd a gwydr yn unig. Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i geisio cynyddu'r arian a roddir i gynghorau lleol er mwyn sicrhau bod y math hwn o ailgylchu'n digwydd ledled Cymru? Yn ogystal, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau cynnydd yn amrywiaeth y cynnyrch y gellir ei gasglu ac i hyrwyddo'r broses o wahanu gwastraff yn gynnar?

**Sue Essex:** I am committed to source

**Sue Essex:** Yr wyf yn ymrwymedig i ddidoli

segregation because that is the only way people will realise what type of waste they accumulate in their homes. Through separating different products, they can understand how to minimise waste. To address the critical point in your question, waste must be segregated in such a way that it can be re-used and recycled. The Wales Environmental Trust is undertaking exciting work in Wales on specific products and feeding that work into the demand site where new industries and businesses are growing to use those recycled products. Once we manage to make recycling mainstream and sustainable, local authorities will know that the products that they collect from households will have a value and can be re-used. That is key to solving this problem.

yn ôl ffynhonnell oherwydd dyna'r unig ffordd y bydd pobl yn gwybod pa fath o wastraff maent yn ei greu yn eu cartrefi. Drwy wahanu gwahanol gynhyrchion, gallant ddeall sut i leihau gwastraff. Er mwyn ymdrin â'r pwynt pwysig yn eich cwestiwn, mae'n rhaid didoli gwastraff yn y fath fodd fel y gellir ei aildddefnyddio a'i ailgylchu. Mae Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Cymru yn gwneud gwaith cyffrous yng Nghymru ar gynhyrchion penodol ac yn bwydo'r gwaith hwnnw i'r safle galw lle mae diwydiannau a busnesau newydd yn tyfu i ddefnyddio'r cynhyrchion hynny wedi'u hailgylchu. Unwaith y llwyddwn i brif-ffrydio ailgylchu a sicrhau ei fod yn gynaliadwy, bydd awdurdodau lleol yn gwybod y bydd gwerth i'r cynhyrchion a gesglir o gartrefi ac y gellir eu haildddefnyddio. Mae hynny yn hollbwysig er mwyn datrys y broblem hon.

### **Caniatâd Cynllunio (Gorlifdiroedd) Planning Permission (Flood Plain Areas)**

**Q2 William Graham:** Will the Minister make a statement concerning the planning permission for residential dwellings in flood plain areas? (OAQ23874) [R]

**C2 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y caniatâd cynllunio ar gyfer tai preswyl ar orlifdiroedd? (OAQ23874) [R]

**Sue Essex:** The planning system has an important role in terms of avoiding and minimising the adverse effects of any environmental risk on present or future land use. The planning policy framework against which applications for development on flood plains should be considered is set out in chapter 13 of 'Planning Policy Wales'. It advises that it would be inappropriate to locate types of development, including residential dwellings, in some areas defined as being at high risk.

**Sue Essex:** Mae gan y system gynllunio rôl bwysig o ran osgoi a lleihau effeithiau andwyol unrhyw risg amgylcheddol ar y defnydd a wneir o dir yn awr ac yn y dyfodol. Nodir y fframwaith polisi cynllunio y dylid ystyried ceisiadau ar gyfer datblygu ar orlifdiroedd yn ei erbyn ym mhennod 13 'Polisi Cynllunio Cymru'. Mae'n cynghori y byddai'n amhriodol lleoli mathau o ddatblygiadau, yn cynnwys anheddau preswyl, mewn rhai ardaloedd sy'n cael eu diffinio fel ardaloedd sydd â risg uchel.

**William Graham:** I will quote the Environment Agency:

**William Graham:** Dyfynnaf Asiantaeth yr Amgylchedd:

'The real problem with flooding is that it will happen again.'

Problem fawr llifogydd yw y byddant yn digwydd eto.

When a house is flooded, the first nine inches of water causes 95 per cent of the damage; two feet of water will sweep away a car and six inches will knock over a person. In addition, flood water can be contaminated with sewage. Can you confirm that the measures that you

Pan fydd tŷ wedi gorlifo, y naw modfedd cyntaf o ddŵr sydd yn achosi 95 y cant o'r difrod; bydd dwy droedfedd o ddŵr yn ysgubo car ymaith a bydd chwe modfedd yn taro person drosodd. Yn ogystal, gall dŵr llifogydd fod wedi'i lygru â charthion. A

have initiated will alleviate the flooding problem?

**Sue Essex:** I agree with your first point; we are not powerful enough to change the forces of nature. The experience of autumn 2000 concentrated people's minds in north and south Wales. The Environment Agency, the Assembly and others have been trying to get more accurate information on assessing the risks. A great deal of good modelling work is being undertaken in terms of looking at the action of rivers and watercourses in their basins. The technical advice note that we are producing will provide planning authorities with good detailed advice about how to interpret that risk and how to make decisions on land usage in terms of development plans and individual decisions.

**Mick Bates:** I am sure that you would agree that it is better to go to the source of the problem, such as the Severn valley, where flooding often occurs because of a lack of capacity in the Clywedog dam. Do you agree that only by increasing that capacity at times of high risk can we alleviate the flooding problem for houses lower down the valley?

**Sue Essex:** Long-standing issues will come to the fore this afternoon. You have written to me frequently on this. I do not have the technical knowledge to decide upon the capacity of that dam. I leave that decision to others. Water falling in the upper reaches of the valley accumulates at the lower end and it becomes someone else's problem. We have a holistic approach to river basins. Where we intervene, collecting or dispersing water is critical in dealing with the heavy falls of rain that we will have in the future. The expectation in climate change in Wales is that in winter we will have 25 per cent extra rainfall. That is a hell of a lot of water. It is something that we will have to cope with. We will need to continuously consider some of the issues you have raised with me.

**Janet Davies:** Some unitary development plans that have recently been approved, or are about to be approved, still have allocations for development in flood plains. You said this

allwch gadarnhau y bydd y mesurau yr ydych wedi'u rhoi ar waith yn lleddfu'r broblem llifogydd?

**Sue Essex:** Cytunaf â'ch pwynt cyntaf; nid ydym yn ddigon pwerus i newid grymoedd natur. Cyfeiriwyd sylw pobl yn y Gogledd a'r De yn dilyn profiad hydref 2000. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, y Cynulliad ac eraill wedi bod yn ceisio casglu gwybodaeth fwy cywir ynglŷn ag asesu'r risgiau. Mae llawer iawn o waith modelu da yn cael ei gynnal o ran edrych ar batrymau afonydd a dyfrffosydd yn eu basnau. Bydd y nodyn cyngor technegol yr ydym yn ei gynhyrchu yn rhoi cyngor manwl da i awdurdodau cynllunio ynglŷn â sut i ddehongli'r risg honno a sut i wneud penderfyniadau ar y defnydd a wneir o dir o ran cynlluniau datblygu a phenderfyniadau unigol.

**Mick Bates:** Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno ei bod yn llawer gwell mynd at graidd y broblem, fel dyffryn afon Hafren, lle ceir llifogydd yn aml oherwydd diffyg capasiti yn argae Clywedog. A gytunwch mai dim ond drwy gynyddu'r capasiti ar adegau o risg uchel y gallwn leddfu problem llifogydd i dai sy'n is i lawr y dyffryn?

**Sue Essex:** Daw materion hirsefydlog i'r amlwg y prynhawn yma. Yr ydych wedi ysgrifennu ataf yn aml ar y mater hwn. Nid wyf yn meddu ar y wybodaeth dechnegol i benderfynu ar gapasiti'r argae hwnnw. Gadawaf y penderfyniad hwnnw i eraill. Mae dŵr sy'n disgyn yn rhannau uchaf y dyffryn yn cronni yn y rhan isaf a daw'n broblem i rywun arall. Mae gennym ymagwedd gyfannol tuag at fasnau afonydd. Pan fyddwn yn ymyrryd, mae casglu neu wasgaru dŵr yn hanfodol wrth ddelio â'r cawodydd trwm o law a gawn yn y dyfodol. Mae'r newid hinsawdd a ddisgwyllir yng Nghymru yn golygu y cawn gynydd o 25 y cant mewn glaw. Mae hynny'n swm aruthrol o ddŵr. Mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni ymdopi ag ef. Bydd angen inni roi ystyriaeth barhaus i rai o'r materion a godwyd gennych.

**Janet Davies:** Mae gan rai cynlluniau datblygu unedol a gymeradwywyd yn ddiweddar, neu sydd ar fin cael eu cymeradwyo, ddyraniadau o hyd ar gyfer



afternoon that you are taking action on that issue. How will you ensure, in the light of increased flooding as a result of climate change, that 'Planning Policy Wales' is properly taken into consideration before planning permission is granted?

**Sue Essex:** It depends what stage the development plan is at. The planning guidance that I mentioned has been approved and is in place. It should be used by local authorities in planning and by inspectors in reviewing draft plans. The technical advice note to which I referred will soon be available to advise local authorities. I am sure that it will not just be a piece of paper, but a useful piece of work. We should remember that it will not necessarily mean that there should be no development whatsoever on flood plains. There may be some things that may be suitable in certain places. However we know of the trauma caused by flooding in residential properties, and therefore we have stated quite clearly in planning guidance that residential properties should not be permitted in the areas of greatest risk.

**Karen Sinclair:** My constituency suffered more than most during the dreadful floods a few years ago. Do you agree that co-operation between local authorities, the Environment Agency and the Welsh Assembly Government has produced real benefits for areas that have suffered from flooding problems in the past, and that our policies will continue to lead to significant improvements?

**Sue Essex:** We have come a long way in the last few years, both in terms of how we look to develop flood defences and in co-operating with other bodies. The group set up to advise on the technical advice note includes the Environment Agency, the Welsh Development Agency and the House Builders Federation. We realise that we must understand the pressures and needs of development so that we can proceed in a way not to stifle development, but to put it on the best basis and to provide the best protection from flooding.

datblygu ar orlifdiroedd. Dywedasoch y prynhawn yma eich bod yn gweithredu ar y mater hwnnw. Sut y byddwch yn sicrhau, yng ngoleuni'r cynnydd mewn llifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd, y caiff 'Polisi Cynllunio Cymru' ei ystyried yn briodol cyn y rhoddir caniatâd cynllunio?

**Sue Essex:** Mae'n dibynnu ar ba gam y mae'r cynllun datblygu. Mae'r canllawiau cynllunio y soniais amdanynt wedi'u cymeradwyo ac maent ar waith. Dylai awdurdodau lleol eu defnyddio wrth gynllunio a dylai arolygwyr eu defnyddio wrth ddiwygio cynlluniau drafft. Bydd y nodyn cyngor technegol y cyfeiriais ato ar gael maes o law i gynghori awdurdodau lleol. Yr wyf yn siŵr mai nid dim ond darn o bapur fydd hynny, ond darn defnyddiol o waith. Dylem gofio na fydd o reidrwydd yn golygu na ddylid cael unrhyw ddatblygiadau ar orlifdiroedd. Efallai y bydd rhai pethau'n addas mewn rhai lleoedd. Fodd bynnag, gwyddom am y dioddefaint a achosir gan lifogydd mewn adeiladau preswyl, ac felly yr ydym wedi nodi'n glir mewn canllawiau cynllunio na ddylid caniatáu adeiladau preswyl yn yr ardaloedd sydd â'r risg fwyaf.

**Karen Sinclair:** Dioddefodd fy etholaeth i yn fwy na'r rhan fwyaf o etholaethau eraill yn ystod y llifogydd dychrynlyd ychydig flynyddoedd yn ôl. A gytunwch fod cydweithredu rhwng awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu buddiannau gwirioneddol i ardaloedd sydd wedi dioddef o broblemau llifogydd yn y gorffennol, ac y bydd ein polisiau yn parhau i arwain at welliannau sylweddol?

**Sue Essex:** Yr ydym wedi cyflawni llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o ran y modd y datblygwn amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r modd y cydweithredwn â chyrrff eraill. Mae'r grŵp a sefydlwyd i roi cyngor ar y nodyn cyngor technegol yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai. Sylweddolwn fod yn rhaid inni ddeall pwysau ac anghenion datblygu fel y gallwn wneud cynnydd mewn ffordd nad yw'n atal datblygiad, ond sy'n darparu'r sail orau ac sy'n darparu'r diogelwch gorau rhag llifogydd.

**Mesurau Amgylcheddol o Fudd i Gwm Cynon**  
**Environmental Measures Benefiting the Cynon Valley**

**Q3 Christine Chapman:** Will the Minister make a statement about the environmental measures benefiting the people of Cynon Valley? (OAQ23835)

**C3 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau amgylcheddol sydd o fudd i drigolion Cwm Cynon? (OAQ23835)

**Sue Essex:** The Welsh Assembly Government is committed to the development of environmental policies that will benefit the quality of life of all people living in Wales. Examples of our successes in the Cynon Valley include a joint, ongoing initiative with the WDA to deal with derelict and damaged sites such as those at Ancit/Phurnacite and Cefn Pennar, and to bring them back into beneficial use. I know, Christine, that you are well aware of these. We also have candidates for special areas of conservation in your patch, and the provision of financial assistance towards the cost of five projects, including the project at Maesygywn School, Cwmdare as part of the Environment Wales programme. There is also the development of partnerships by Groundwork Wales to work on projects such as the Hirwaun Industrial Estate, to take forward landscaping projects and provide business support.

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu polisiau amgylcheddol a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb sy'n byw yng Nghymru. Ymhlith yr enghreifftiau o'n llwyddiannau yng Nghwm Cynon mae cyd-fenter barhaus â'r WDA i ddelio â safleoedd gwag a rhai wedi'u difrodi fel y rhai yn Ancit/Phurnacite a Cefn Pennar, a'u hadfer er mwyn eu defnyddio unwaith eto. Gwn eich bod yn ymwybodol o'r rhain Christine. Mae gennym hefyd ardaloedd posibl i'w pennu'n ardaloedd cadwraeth arbennig yn eich ardal chi, a chymorth ariannol tuag at gost pum prosiect, yn cynnwys y prosiect yn Ysgol Maesygywn, Cwmdâr fel rhan o raglen Amgylchedd Cymru. Datblygir partneriaethau hefyd gan Groundwork Cymru i weithio ar brosiectau fel Ystad Ddiwydiannol Hirwaun er mwyn datblygu prosiectau tirweddu a darparu cymorth busnes.

**Christine Chapman:** Do you agree that the measures you have just mentioned, and other key projects, including the award-winning Cefn Pennar regeneration project, have improved the aesthetic quality of the local community as well as providing recreational and tourism opportunities? Do you agree that the clean up of the Phurnacite plant at Abercwmboi is a key component of extending those environmental benefits? Do you welcome the progress made by the working group set up to realise that goal?

**Christine Chapman:** A gytunwch fod y mesurau y soniasoch amdanynt, a phrosiectau allweddol eraill, yn cynnwys prosiect adfywio llwyddiannus Cefn Pennar, wedi gwella ansawdd esthetig y gymuned leol yn ogystal â darparu cyfleoedd hamdden a thwrystaidd? A gytunwch fod y gwaith o lanhau gwaith Phurnacite yn Abercwmboi yn elfen allweddol o'r gwaith o ehangu'r buddiannau amgylcheddol hynny? A groesawch y cynnydd a wnaed gan y gweithgor a sefydlwyd i wireddu'r nod hwnnw?

2.40 p.m.

**Sue Essex:** I once worked in Cynon Valley, when the Phurnacite plant was operating at full pelt and there was nothing else quite like it. It left a huge problem, and I pay tribute to the people, including you, who have worked extremely hard to turn a blighted area into a site

**Sue Essex:** Arferwn weithio yng Nghwm Cynon, pan oedd y gwaith Phurnacite yn gweithredu i'w gapasiti llawn ac nid oedd unrhyw beth tebyg iddo. Gadawodd broblem enfawr, a hoffwn dalu teyrnged i'r bobl, yn eich cynnwys chi, sydd wedi gweithio'n

that is a credit to the valley. I have seen enormous changes in that valley; it has gone through difficult economic times, but has seen major improvements both visually and environmentally. With the removal of some of the causes of pollution, air quality and water quality has also improved. I hope that those environmental improvements will be a wonderful backcloth for the people who live in the valley, and for anyone who wishes to invest there. It has moved on enormously.

**Geraint Davies:** Do you agree that the current ongoing process of remediation of the Phurnacite plant would be an excellent means of freeing valuable development land on the valley floor? Will the Minister ensure that the WDA secures sufficient funding so that that process is completed satisfactorily?

**Sue Essex:** I am not responsible for the WDA, which receives its own environmental funding. Lest there be any misunderstanding, I am not sure how much of that land—Christine and the local council will probably know more—can be completely restored for future use. It would depend on the state of the finished product. However, other sites in the Valleys have been restored. The Cwm Cynon site has been successfully regenerated for other uses. I will consider this issue, but we would be dependent on the WDA to use its resources—along with others—to find the right solution.

eithriadol o galed i droi ardal sydd wedi dioddef yn safle sy'n glod i'r cwm. Yr wyf wedi gweld newidiadau aruthrol yn y cwm hwnnw; mae wedi profi cyfnodau economaidd anodd, ond mae wedi gwella'n weledol ac yn amgylcheddol. Drwy gael gwared â rhai o'r pethau sy'n achosi llygredd, mae ansawdd yr aer a'r dŵr hefyd wedi gwella. Gobeithiaf y bydd y gwelliannau amgylcheddol hynny yn gefndir gwych i'r bobl sy'n byw yn y cwm, ac i unrhyw un arall sy'n dymuno buddsoddi yno. Mae wedi symud yn bell yn ei flaen.

**Geraint Davies:** A gytunwch y byddai'r broses gyfredol barhaus o adfer y gwaith Phurnacite yn ffordd wych o ryddhau tir datblygu gwerthfawr ar lawr y cwm? A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod y WDA yn cael digon o arian er mwyn i'r broses gael ei chwblhau'n foddhaol?

**Sue Essex:** Nid wyf yn gyfrifol am y WDA, sy'n derbyn ei gyllid amgylcheddol ei hun. Er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, nid wyf yn siŵr faint o'r tir hwnnw—mae'n siŵr y bydd Christine a'r cyngor lleol yn gwybod mwy—y gellir ei adnewyddu'n llwyr er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol. Byddai'n dibynnu ar gyflwr y tir ar ôl cwblhau'r gwaith. Fodd bynnag, adferwyd safleoedd eraill yn y Cymoedd. Adnewyddwyd safle Cwm Cynon yn llwyddiannus ar gyfer defnyddiau eraill. Byddaf yn ystyried y mater hwn, ond byddem yn dibynnu ar y WDA i ddefnyddio ei adnoddau—ynghyd ag eraill—i ddod o hyd i'r ateb cywir.

#### **Llinell Glyn Ebwy (Toriadau yng Ngwasanaethau'r Rheilffyrdd) Ebbw Valley Line (Cuts in Rail Services)**

**Q4 Brian Hancock:** Will the Minister confirm that the present cuts in rail services will not endanger the Ebbw valley line? (OAQ23859)

**Sue Essex:** I am not sure to which cuts you refer. In Wales, Virgin train services were reduced. The Ebbw valley line has not yet reopened for passenger service, but it will open, so you cannot apply the issue of cuts to that. However, as you, and everybody else in the Chamber knows by now, on 22 January 2003, the Assembly announced that it would provide

**C4 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau na fydd y toriadau presennol yng ngwasanaethau'r rheilffyrdd yn peryglu llinell glyn Ebwy? (OAQ23859)

**Sue Essex:** Nid wyf yn siŵr pa doriadau y cyfeiriwch atynt. Yng Nghymru, lleihawyd gwasanaethau trên Virgin. Nid yw llinell glyn Ebwy wedi ail-agor hyd yma ar gyfer gwasanaethau i deithwyr, ond bydd yn ail-agor, felly ni allwch gyfeirio at doriadau yn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, fel y gwyddoch chi, a phawb arall yn y Siambr

revenue funding to introduce passenger services on the Ebbw valley line. In the first three years of that service, it will replace a rail passenger partnership bid, which was made to the Strategic Rail Authority; the SRA was unable to approve the bid due to its current financial restraints. However, the Assembly will meet the capital costs of upgrading the line. Objective 1 support is also being made available.

**Brian Hancock:** I have raised my concerns about the Ebbw valley railway line many times. I have discussed issues such as the timing of services, the number of stations and halts for every village and town, and the suitability of the former Navigation Colliery site for a park and ride station. However, Sir Harry Jones recently called for the rail service to Newport to commence sooner rather than later. Will you take action?

**Sue Essex:** I can take action on some issues, but cannot on others. I cannot upgrade the Newport signal station. I am not technically able to do so, I do not have the power, and I would not want anybody to put their faith in me to try. We have progressed with this railway line. Ideas are being developed for the stations and for integrated transport along that valley. All the building blocks have been put in place. As you will know, I have continually said that we want the Newport signal station upgraded, not only to increase capacity in Newport, but also for the benefit of the greater Gwent area. That is part of our vision for railways and we will pursue it vigorously. However, I cannot do it.

**John Griffiths:** You said earlier that long standing issues would probably be raised today. Given that the Corus closures and job cuts at Ebbw Vale and Newport were the catalysts for the planned reopening of the line, and that consultants engaged to map the way forward in the aftermath of those steel redundancies stressed the importance of Newport as the hub of the regional economy, including Ebbw Vale,

erbyn hyn, ar 22 Ionawr 2003, cyhoeddodd y Cynulliad y byddai'n darparu arian refeniw er mwyn cyflwyno gwasanaethau i deithwyr ar linell glyn Ebwy. Yn ystod tair blynedd cyntaf y gwasanaeth hwnnw, bydd yn disodli cynnig partneriaeth teithwyr rheilffyrdd, a wnaed i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol; nid oedd yr SRA yn gallu cymeradwyo'r cynnig oherwydd ei gyfyngiadau ariannol presennol. Fodd bynnag, bydd y Cynulliad yn talu costau cyfalaf uwchraddio'r llinell. Bydd cymorth Amcan 1 ar gael hefyd.

**Brian Hancock:** Yr wyf wedi mynegi fy mhryderon ynghylch llinell rheilffordd glyn Ebwy sawl gwaith. Yr wyf wedi trafod materion fel amseriad gwasanaethau, nifer y gorsafoedd ac arosfeydd ar gyfer pob pentref a thref, ac addasrwydd hen safle glofa Navigation ar gyfer gorsaf parcio a theithio. Fodd bynnag, cafwyd cais yn ddiweddar gan Syr Harry Jones i'r gwasanaeth rheilffordd i Gasnewydd ddechrau cyn gynted â phosibl. A fyddwch yn cymryd camau yn yr achos hwn?

**Sue Essex:** Gallaf weithredu ar rai materion, ond nid ar eraill. Ni allaf uwchraddio gorsaf signalau Casnewydd. Nid oes gennyf y gallu technegol i wneud hynny, nid oes gennyf y pŵer, ac ni fyddwn yn dymuno gweld unrhyw un yn dibynnu arnaf i wneud hynny. Gwnaed cynnydd gyda'r llinell reilffordd hon. Mae syniadau'n cael eu datblygu ar gyfer y gorsafoedd ac ar gyfer trafnidiaeth integredig ar hyd y cwm hwnnw. Mae'r gwaith paratoadol wedi'i wneud. Fel y gwyddoch, yr wyf wedi dweud sawl gwaith y dylid uwchraddio gorsaf signalau Casnewydd, nid yn unig er mwyn cynyddu'r capasiti yng Nghasnewydd, ond hefyd er budd ardal ehangach Gwent. Mae hynny'n rhan o'n gweledigaeth ar gyfer y rheilffyrdd a byddwn yn cefnogi hynny'n frwd. Fodd bynnag, ni allaf wneud hynny.

**John Griffiths:** Dywedasoeh yn gynharach ei bod yn debygol y byddai materion hirsefydlog yn cael eu codi heddiw. O ystyried mai cau gwaith Corus a'r colli swyddi yng Nglynebwy a Chasnewydd a ysgogodd y bwriad i ailagor y llinell, a bod yr ymgynghorwyr a gyflogwyd i gynllunio'r ffordd ymlaen yn dilyn y diswyddiadau dur hynny wedi pwysleisio pwysigrwydd

do you agree that it is easy to understand the continuing strong feeling in the area that a passenger link from Ebbw Vale to Newport should be agreed at the same time as the link to Cardiff? That would recognise the economic situation, and the social, commercial and leisure links between Ebbw Vale and Newport.

**Sue Essex:** I agree. John, Rosemary and local councillors draw it to my attention because they feel strongly about it. As you will know—and I will repeat a little history here—we always anticipated that the line would link up with Newport, until this practical difficulty was discovered. We took the decision—which was generally supported—that if, by coming into Cardiff, we could bring the line into operation earlier than anticipated, then we would do that. As I said in answer to Brian's point, it is important that we continually put pressure on Network Rail, not only to keep its commitment to renew the signal station, but to do so as early as possible, because, when that happens, the service will be able to go into Newport.

**William Graham:** Will you engage with Newport City Council, as soon as possible, to make that clear? Will you ensure that this rail link is restored to Newport as soon as possible?

**Sue Essex:** I have answered the second point. I think that the situation is clear to Newport City Council but, to avoid any doubt, I will write to the council.

**Peter Law:** Minister, you are right that this was always planned to be an Ebbw Vale to Cardiff service. It came about to target deprivation and social exclusion in Blaenau Gwent following Corus's announcement, and the closure of the Ebbw Vale steelworks. That was how it was put through, and I am grateful for that. Your proposals are warmly welcomed in my constituency, Blaenau Gwent, as they will target social exclusion. I ask you to keep up the pressure on Network Rail, to ensure that this opens, as planned, in 2005.

Casnewydd fel canolfan yr economi ranbarthol, gan gynnwys Glynebwy, a gytunwch ei bod yn hawdd deall y teimladau cryf sydd yn yr ardal o hyd y dylid cytuno ar gyswllt i deithwyr o Lynebwy i Gasnewydd ar yr un pryd â'r cyswllt i Gaerdydd? Byddai hynny'n cydnabod y sefyllfa economaidd, a'r cysylltiadau cymdeithasol, masnachol a hamdden rhwng Glynebwy a Chasnewydd.

**Sue Essex:** Cytunaf. Mae John, Rosemary a chynghorwyr lleol wedi tynnu'r mater i'm sylw am eu bod yn teimlo'n gryf yn ei gylch. Fel y gwyddoch—byddaf yn ailadrodd rhywfaint o hanes yn awr—yr ydym wedi rhagweld erioed y byddai'r llinell yn cysylltu â Chasnewydd, hyd nes i'r anhawster ymarferol hwn gael ei ganfod. Gwnaethom benderfyniad—a gefnogwyd ar y cyfan—pe gallem roi'r llinell ar waith yn gynharach na'r disgwyl, drwy gysylltu â Chaerdydd, yna byddem yn gwneud hynny. Fel y dywedais mewn ymateb i bwynt Brian, mae'n bwysig ein bod yn parhau i roi pwysau ar Network Rail, nid yn unig i gadw ei ymrwymiad i adnewyddu'r orsaf signalau, ond i wneud hynny cyn gynted â phosibl, oherwydd, pan ddigwydd hynny, gall y gwasanaeth gysylltu â Chasnewydd.

**William Graham:** A fyddwch yn cysylltu â Chyngor Dinas Casnewydd, cyn gynted â phosibl, er mwyn pwysleisio hynny? A fyddwch yn sicrhau y caiff y cyswllt rheilffordd hwn ei adfer i Gasnewydd cyn gynted â phosibl?

**Sue Essex:** Yr wyf wedi ateb yr ail bwynt. Credaf fod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa ond, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ysgrifennaf at y cyngor.

**Peter Law:** Weinidog, mae'n ffaith mai gwasanaeth o Lynebwy i Gaerdydd a fwriadwyd erioed. Fe'i crëwyd er mwyn targedu amddifadedd ac allgáu cymdeithasol ym Mlaenau Gwent yn dilyn cyhoeddiad Corus, a chau'r gwaith dur yng Nglynebwy. Dyna sut y cafodd ei gynnig, ac yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Croesewir eich cynigion yn frwd yn fy etholaeth, Blaenau Gwent, gan y byddant yn targedu allgáu cymdeithasol. Yr wyf yn awyddus i chi barhau i roi pwysau ar Network Rail, er

mwyn sicrhau y bydd yn agor, yn ôl y disgwyl, yn 2005.

**Sue Essex:** This was done following Corus's announcement. Those devastating decisions speeded up the reopening of the Ebbw valley line. We always wanted to do it, but that gave an extra push and made it imperative. We are making progress with Network Rail. It is an easier animal to deal with than Railtrack—although that is not saying much, as Railtrack was impossible to deal with. We are making progress. We have had good news from Network Rail on the Vale of Glamorgan line. We have demonstrated our commitment to the railways in words and finance. Network Rail has that commitment, therefore it is easy for it to plan with us, as we have made it clear where we want to go to and where our money will provide support. While I am here, I will continue to keep up the pressure, as will whoever follows me.

**Sue Essex:** Gwnaed hynny yn dilyn cyhoeddiad Corus. Arweiniodd y penderfyniadau dinistriol hynny at gyflymu'r broses o ailagor llinell glyn Ebwy. Yr oeddem yn awyddus i wneud hynny, ond rhoddodd hyn ysgogiad ychwanegol a'i wneud yn angenrheidiol. Yr ydym yn gwneud cynnydd gyda Network Rail. Mae'n haws delio â'r cwmni hwnnw na Railtrack—er nad yw hynny'n dweud llawer, oherwydd ei bod yn amhosibl delio â Railtrack. Cawsom newyddion da iawn gan Network Rail ynglŷn â llinell Bro Morgannwg. Yr ydym wedi dangos ein hymrwymiad i'r rheilffyrdd ar lafar ac yn ariannol. Gwnaed yr ymrwymiad hwnnw i Network Rail, felly mae'n haws iddo gynllunio gyda ni, gan ein bod wedi pwysleisio'r ffordd ymlaen o'n safbwynt ni a lle y bydd ein harian yn darparu cymorth. Tra wyf yma, byddaf yn parhau i ddwyn pwysau arno, fel y gwna fy olynydd.

**Rosemary Butler:** I could not miss this last opportunity to remind Sue of the desire that exists in Newport to have this railway. I am pleased that you will keep up the pressure on Network Rail. It is important that this railway is opened up, because there are many houses on the former Rogerstone power station site now. That, and the development of the University of Wales College Newport, which means that more students are coming to the town, have led to traffic on the roads getting worse. This railway is important, not only to the economic development of Ebbw Vale, but to the economic development of Newport and its environs.

**Rosemary Butler:** Ni allwn golli'r cyfle olaf hwn i atgoffa Sue o'r dyhead sy'n bodoli yng Nghasnewydd i gael y rheilffordd hon. Yr wyf yn falch y byddwch yn parhau i ddwyn pwysau ar Network Rail. Mae'n bwysig agor y rheilffordd hon, oherwydd mae llawer o dai ar safle cyn orsaf bŵer y Tŷ-du. Mae hynny, a datblygiad Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd, sy'n golygu bod mwy o fyfyrwyr yn dod i'r dref, wedi golygu bod y traffig ar y ffordd yn gwaethygu. Mae'r rheilffordd hon yn bwysig, nid yn unig i ddatblygiad economaidd Glynebwy, ond hefyd i ddatblygiad economaidd Casnewydd a'r ardal gyfagos.

**Sue Essex:** Coincidentally, I have been to Newport twice this week for launches. I also passed through Pontllanfraith, the area that you mentioned, for a conference on waste. It is a huge area, where there have been massive changes in land use; you mentioned the Rogerstone site. The railway is particularly important in terms of providing connections to work, and in serving the new residential development. Following the problems at Corus, Newport and the greater Gwent area are now in for some exciting times. It will be a good few

**Sue Essex:** Drwy gyd-ddigwyddiad, yr wyf wedi bod yng Nghasnewydd ddwywaith yr wythnos hon ar gyfer achlysuron lansio. Euthum drwy Bontllanfraith, yr ardal y soniasoch amdani, ar gyfer cynhadledd ar wastraff. Mae'n ardal enfawr, lle y gwelwyd newidiadau aruthrol yn y defnydd a wneir o'r tir; soniasoch am safle Tŷ-du. Mae'r rheilffordd yn arbennig o bwysig o ran darparu cysylltiadau gwaith, ac o ran gwasanaethu datblygiadau preswyl newydd. Yn dilyn y problemau yn Corus, mae

years before all our ambitions are secured, but I am positive about the future of this area, and I know that you are too. I want not only the Ebbw Vale line, but other connections, put in place, so that integrated transport can play its part in the future growth of this area.

Casnewydd ac ardal ehangach Gwent bellach yn wynebu cyfnod cyffrous iawn. Cymer ychydig flynyddoedd i wireddu pob un o'n huchelgeisiau, ond teimlaf yn obeithiol iawn ynglŷn â dyfodol yr ardal hon, a gwn eich bod chithau'n teimlo felly hefyd. Yr wyf yn awyddus i gysylltiadau eraill, nid dim ond llinell Glynebwy, fod ar waith, er mwyn i drafnidiaeth integredig chwarae ei rhan yn nhwff yr ardal hon yn y dyfodol.

### **Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ Questions to the House Committee**

#### **Y Gwasanaeth Cyfieithu yn y Siambr The Translation Service in the Chamber**

**Q1 Alun Pugh:** Will the Committee make a statement on the translation service in the Chamber? (OAQ23918)

**C1 Alun Pugh:** A wnaiff y Pwyllgor ddatganiad ar y gwasanaeth cyfieithu yn y Siambr? (OAQ23918)

**The Deputy Presiding Officer (John Marek):** The policy of providing an interpretation service from Welsh to English in Plenary enables the proceedings of the Assembly to be conducted bilingually, and is a statutory requirement under section 47 of the Government of Wales Act 1998. It is delivered by the in-house interpreters of the Assembly Translation Service, based in the Presiding Office. It is an excellent service and I have not received any complaints.

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae'r polisi o ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn Cyfarfodydd Llawn yn golygu y gellir cynnal trafodion y Cynulliad yn ddwyieithog, ac mae'n ofyniad statudol o dan adran 47 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Darperir y gwasanaeth gan gyfieithwyr mewnol Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad, sy'n gweithio yn Swyddfa'r Llywydd. Mae'n wasanaeth gwych ac nid wyf wedi derbyn unrhyw gŵynion.

**Alun Pugh:** I have tabled this question for one reason: to express my thanks to the translation team for its faultless work over the last four years. [*Applause.*]

**Alun Pugh:** Cyflwynais y cwestiwn hwn am un rheswm: er mwyn diolch i'r tîm cyfieithu am ei waith ardderchog yn ystod y pedair blynedd diwethaf. [*Cymeradwyaeth.*]

I know that I speak for the entire Assembly when I say that. Anyone who can keep up with Cynog Dafis talking at 160 words per minute or with me speaking rather more slowly in the Welsh language clearly deserves our praise.

Gwn fy mod yn siarad ar ran y Cynulliad cyfan pan ddywedaf hynny. Mae'n amlwg bod unrhyw un sy'n gallu cyfieithu pan fydd Cynog Dafis yn siarad 160 gair y munud neu pan fyddaf i'n siarad ychydig yn arafach yn Gymraeg yn haeddu ein clod.

Diolch o galon i chi i gyd.

Thank you very much to all of you.

**The Deputy Presiding Officer:** It is nice to have a soft question. However, it is an important one. I am glad you asked that question, Alun, and I will ensure that every member of the translation staff has access to the Record of Proceedings to see what you said. I wholeheartedly associate myself and the Presiding Office with your remarks.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'n braf cael cwestiwn ysgafn. Fodd bynnag, mae'n gwestiwn pwysig. Yr wyf yn falch eich bod wedi gofyn y cwestiwn, Alun, a byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff cyfieithu yn gallu gweld Cofnod y Trafodion i weld yr hyn a ddywedasoch. Yr wyf fi, a Swyddfa'r Llywydd yn cytuno'n llwyr â'ch sylwadau.

2.50 p.m.

## **Datganiad ar Ddatblygiadau Hyfforddiant ar gyfer y Gweithlu Iechyd Statement on Health Workforce Training Developments**

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** Thank you for the opportunity to make this statement today. The developments taking place in Wales will ensure that all workers in the health service are entitled to training and development, no matter what their job is. Our goal is to have a health service in Wales that is second to none in enhancing the skills of that workforce, both for their own benefit and, most importantly, for the benefit of our patients and the people of Wales.

As you know, it takes time to grow our own health workforce in Wales and it takes real commitment—both physical and financial—to support expansion. It takes determination to invest in the long term when there are always demands for short-term fixes today.

There were 966 registered medical students on the roll at the University of Wales College of Medicine in 1999-2000, and the number will increase to at least 1,385 by 2004. The annual intake of medical students in Wales increased from 190 students in 1998 to 290 in 2001. We have invested £9 million in the Swansea clinical school, which opened in November 2001. This is the first, critical phase in our ambitious plans to expand medical undergraduate education in Wales. The next steps will be the Swansea graduate entry scheme, a clinical school in north Wales and a health sciences institute in Gwent.

On the Swansea graduate scheme, approval has been given for funding to appoint a senior lead tutor and tutorial lecturers, so that work can begin on the curriculum and timetables. In the case of the north Wales clinical school, good progress is being made on agreeing the outline business case, and we remain on track for the first cohort of students to be admitted in autumn

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Diolch ichi am y cyfle i wneud y datganiad hwn heddiw. Bydd y datblygiadau sy'n digwydd yng Nghymru yn sicrhau bod gan bob gweithiwr yn y gwasanaeth iechyd yr hawl i hyfforddiant a datblygu, waeth beth fo'i swydd. Ein nod yw cael gwasanaeth iechyd yng Nghymru sydd heb ei ail o ran gwella sgiliau'r gweithlu hwnnw, er eu budd eu hunain ac, yn bwysicaf oll er budd y cleifion a phobl Cymru.

Fel y gwyddoch, mae'n cymryd amser i ddatblygu ein gweithlu iechyd ein hunain yng Nghymru ac mae'n gofyn am ymrwymiad gwirioneddol—yn gorfforol ac ariannol—i gynnal tŵf. Mae'n gofyn am benderfyniad i fuddsoddi yn yr hirdymor lle mae galwadau o hyd am atebion tymor byr heddiw.

Yn 1999-2000 yr oedd 966 o fyfyrwyr meddygol cofrestredig ar gofrestr Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a bydd y ffigur yn cynyddu i o leiaf 1,385 erbyn 2004. Cynyddodd nifer y myfyrwyr meddygol a dderbyniwyd bob blwyddyn yng Nghymru o 190 yn 1998 i 290 yn 2001. Yr ydym wedi buddsoddi £9 miliwn yn ysgol glinigol Abertawe, a agorodd ym mis Tachwedd 2001. Dyma'r cam allweddol cyntaf yn ein cynlluniau uchelgeisiol i ymestyn addysg feddygol i israddedigion yng Nghymru. Y camau nesaf fydd cynllun derbyn graddedigion Abertawe, ysgol glinigol yn y Gogledd a sefydliad gwyddorau iechyd yng Ngwent.

O ran cynllun graddedigion Abertawe, cymeradwywyd cyllid i benodi prif uwch diwtor a darlithwyr tiwtor, fel y gall gwaith ddechrau ar y cwricwlwm a'r amserlenni. Yn achos ysgol glinigol y Gogledd, gwneir cynnydd da ar gytuno ar achos busnes amlinellol, ac yr ydym ar y trywydd cywir i dderbyn y garfan gyntaf o fyfyrwyr yn



2004. The Gwent outline business case is currently being finalised by the project board and trust and we expect it to be submitted soon.

The number of dentists in training in Wales is 55 per year. To review the situation, I commissioned a consultation exercise and issued the document 'Routes to Reform'. The review points to the need to train more dentists and those in complementary professions. Assembly officials are currently considering the recommendations. We will set out a programme of development over the next three to five years, ensuring that we have dental training that meets the needs of Wales.

The total number of contracted nurse training places in Wales in 1999-2000 was 2,664, and this was increased to 3,450 in 2002-03. More than 4,300 nurses, midwives and health visitors will have come out of training between 2000 and 2004. The number of training places for the allied health professions has also been increased from 494 in 1999-2000 to 649 in 2003-04. Within this increase, occupational therapy places have increased from 47 in 1999 to 112 in 2003, physiotherapy places from 73 in 1999 to 140 in 2003 and radiography places from 15 in 1999 to 98 in 2003.

There is also a constant need to look for different ways of delivering training and to broaden access to medicine as a profession. The graduate entry scheme in Swansea will be a unique medical educational development for Wales, compressing the traditional five-year programme of study into four years and producing qualified doctors for the NHS more quickly than has been possible in the past. This scheme will also bring broader experience and maturity from a first degree into the profession.

Accelerated courses are being developed for those who have a first degree and wish to take up a healthcare profession. The accelerated physiotherapy programme, which began this year, will enable graduates in a related subject to obtain a physiotherapy qualification in two years as opposed to having to follow the traditional three-year route.

hydref 2004. Mae achos busnes amlinellol Gwent yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan y bwrdd prosiect a'r ymddiriedolaeth a disgwyliwn iddo gael ei gyflwyno yn fuan.

Mae 55 o ddeintyddion yn cael eu hyfforddi yng Nghymru bob blwyddyn. I adolygu'r sefyllfa, comisiynais ymgynghoriad a chyhoeddais ddogfen 'Routes to Reform'. Mae'r adolygiad yn cyfeirio at yr angen i hyfforddi mwy o ddeintyddion a'r rhai mewn proffesiynau ategol. Mae swyddogion y Cynulliad yn ystyried yr argymhellion ar hyn o bryd. Byddwn yn sefydlu rhaglen ddatblygu dros y tair i bum mlynedd nesaf, i sicrhau bod gennym hyfforddiant deintyddol sy'n diwallu anghenion Cymru.

Cyfanswm y lleoedd hyfforddi nyrsys dan gontract yng Nghymru yn 1999-2000 oedd 2,644, a chynyddodd y ffigur i 3,450 yn 2002-03. Bydd mwy na 4,300 o nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd wedi cwblhau eu hyfforddiant rhwng 2000 a 2004. Hefyd cynyddodd nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer y proffesiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd o 494 yn 1999-2000 i 649 yn 2003-04. O fewn y cynnydd hwn, mae lleoedd therapi galwedigaethol wedi cynyddu o 47 yn 1999 i 112 yn 2003, lleoedd ffisiotherapi o 73 yn 1999 i 140 yn 2003 a lleoedd radiograffeg o 15 yn 1999 i 98 yn 2003.

Mae angen o hyd ystyried ffyrdd gwahanol o gyflwyno hyfforddiant ac ymestyn mynediad at feddygaeth fel proffesiwn hefyd. Bydd y cynllun derbyn graddedigion yn Abertawe yn ddatblygiad unigryw i Gymru ym maes addysg feddygol, gan gywasgu'r rhaglen astudio bum mlynedd draddodiadol i bedair blynedd, a chynhyrchu meddygon cymwys i'r GIG yn gyflymach nag yr oedd yn bosibl yn y gorffennol. Bydd y cynllun hwn hefyd yn dod â phrofiad ehangach ac aeddfedrwydd pobl sydd wedi ennill gradd gyntaf i'r proffesiwn.

Mae cyrsiau cyflymach yn cael eu datblygu ar gyfer y rhai hynny sy'n meddu ar radd gyntaf ac sy'n gobeithio gweithio ym maes gofal iechyd. Bydd y rhaglen ffisiotherapi gyflymach, a ddechreuodd eleni, yn galluogi graddedigion mewn pwnc cysylltiedig i ennill cymhwyster mewn ffisiotherapi mewn dwy flynedd yn hytrach na gorfod dilyn y

llwybr tair blynedd traddodiadol.

Part-time programmes are being developed, which will open up access for students with financial and family commitments. We have worked closely with education providers and trusts to develop and pilot part-time courses to increase opportunities for healthcare support workers to train as nurses. The first programme, run by the University of Wales, Bangor, in conjunction with the Conwy and Denbighshire NHS Trust, began in September 2002. Students will soon be able to access training in physiotherapy and occupational therapy through part-time programmes. Similar developments are taking place to increase education and training opportunities for other healthcare professionals, such as healthcare scientists, pharmacists and psychologists.

Mae rhaglenni rhan amser yn cael eu datblygu, a fydd yn galluogi myfyrwyr ag ymrwymadau ariannol a theuluol i dilyn cyrsiau. Yr ydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr addysg ac ymddiriedolaethau i ddatblygu cyrsiau peilot rhan amser i roi mwy o gyfleoedd i weithwyr cymorth gofal iechyd hyfforddi i fod yn nyrsys. Dechreuodd y rhaglen gyntaf, a gynhelir gan Brifysgol Cymru, Bangor ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych ym mis Medi 2002. Cyn bo hir bydd myfyrwyr yn gallu cael hyfforddiant mewn ffisiotherapi a therapi galwedigaethol drwy raglenni rhan amser. Ceir datblygiadau tebyg i roi mwy o gyfleoedd addysg a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, megis gwyddonwyr gofal iechyd, fferyllwyr a seicolegwyr.

The Assembly Government's document, 'Improving Health in Wales', has made it clear that opportunities for professional development must be available to all staff members, whatever their role. By April 2003, all health organisations will have personal development planning programmes in place to encompass career development opportunities, including secondment, shadowing and networking, and to address succession planning issues. By April 2004, health bodies in Wales will have introduced individual training accounts for all support staff. In doing so, all trusts must safeguard funds for these purposes, mirroring the financial support that the Welsh Assembly Government is providing—for example, through increasing the NHS bursary by some 10.4 per cent in September 2001 and a further 2.4 per cent in September 2002.

Eglurodd dogfen Llywodraeth y Cynulliad, 'Gwella Iechyd yng Nghymru', fod yn rhaid i gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol fod ar gael i bob aelod o staff, beth bynnag fo'u rôl. Erbyn Ebrill 2003, bydd gan bob sefydliad iechyd raglenni cynllunio datblygiad personol ar waith i gwmpasu cyfleoedd datblygu gyrfa, gan gynnwys secondio, cysgodi a rhwydweithio, ac i fynd i'r afael â materion cynllunio olynad. Erbyn Ebrill 2004, bydd cyrff iechyd yng Nghymru wedi cyflwyno cyfrifon hyfforddiant unigol ar gyfer yr holl staff cymorth. Wrth wneud hynny, rhaid i bob ymddiriedolaeth sicrhau arian at y dibenion hyn, gan adlewyrchu'r cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru—er enghraifft drwy gynyddu bwrseriaeth y GIG tua 10.4 y cant ym Medi 2001 a 2.4 y cant ymhellach ym Medi 2002.

My opening remarks highlighted the progress being made in valuing the staff of the health service, both present and future. This is being supported by the expansion of existing, and well-tested, training methods. However, the Assembly Government has also ensured that we recognise and value changing needs in providing alternative routes of training, and in developing a highly-skilled health workforce in Wales. This is wholly in line with the needs of modern healthcare and the health needs of Wales.

Amlygodd fy sylwadau agoriadol y cynnydd a wneir o ran gwerthfawrogi staff y gwasanaeth iechyd, yn awr ac i'r dyfodol. Cefnogir hyn gan ymgais i estyn y dulliau hyfforddi presennol a phroffedig. Fodd bynnag, sicrhodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd ein bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi anghenion newydd o ran darparu llwybrau hyfforddi amgen, a datblygu gweithlu iechyd medrus iawn yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr ag anghenion gofal iechyd modern ac

anghenion iechyd Cymru.

**David Lloyd:** It is apposite to have a statement on health workforce training development because workforce planning in the NHS in Wales has long been neglected. There have been developments in recent years, which have been outlined. When I graduated from Cardiff in 1980, I was one of 167 doctors graduating that year. The number graduating in 1998 was 190, so the increase in the interim has not been great. With the advent of the Swansea clinical school, 290 doctors a year graduate in Wales. That is to be welcomed, because, as we know, medical vacancies pose severe challenges. There are 135 general practitioner vacancies and 45 consultant psychiatrist vacancies in Wales, the latter out of a total of only 135 posts. I am aware of challenges elsewhere. I attended a meeting of the Chartered Society of Physiotherapists in Carmarthen—I am its president for south-west Wales—and know that front-line physiotherapy services are under pressure because of staff shortages. We are also all aware of the reality of providing an NHS dental service in Ceredigion and elsewhere.

**David Lloyd:** Mae'n briodol cael datganiad ar ddatblygiad hyfforddiant y gweithlu iechyd gan fod y gwaith o gynllunio gweithlu'r GIG yng Nghymru wedi'i esgeuluso ers blynyddoedd. Bu datblygiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cael eu hamlinellu. Wrth imi raddio o Gaerdydd yn 1980, yr oeddwn yn un o 167 o feddygon a oedd yn graddio y flwyddyn honno. Yr oedd y nifer a oedd yn graddio yn 1998 yn 190, felly ni fu'r cynnydd yn y cyfamser yn fawr. Gyda dyfodiad ysgol glinigol Abertawe, bydd 290 o feddygon y flwyddyn yn graddio yng Nghymru. Mae hynny i'w groesawu oherwydd, fel y gwyddom, mae lleoedd gwag meddygol yn golygu heriau difrifol. Mae 135 o swyddi gwag ar gyfer meddygon teulu a 45 o swyddi gwag ar gyfer ymgynghorwyr seiciatryddol yng Nghymru, o gyfanswm o 135 o swyddi yn unig yn achos ymgynghorwyr seiciatryddol. Yr wyf yn ymwybodol o heriau mewn mannau eraill. Mynychais gyfarfod o Gymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion yng Nghaerfyrddin—fi yw ei llywydd ar gyfer de-orllewin Cymru—a gwn fod gwasanaethau ffisiotherapi rheng flaen o dan bwysau oherwydd prinder staff. Mae pob un ohonom hefyd yn ymwybodol o realiti darparu gwasanaeth deintyddol GIG yng Ngheredigion a mannau eraill.

The figures on recruitment and training places are welcome as far as they go. However, this is not just a matter of recruitment and training; the other side of the coin is retaining staff once they qualify. That presents a severe challenge to the Minister. Many of us were present at the Royal College of Nursing's launch of its manifesto on valuing nursing, much of which concerned the need to retain nursing staff once they qualify. We have hundreds of qualified nurses in Wales who are not working as nurses today. That is for a variety of reasons, but much of it boils down to their terms and conditions of employment. There is a need for flexible shift hours, for childcare and to address pay and conditions. The NHS needs to become an exemplary employer. How is the Minister addressing the need to improve the retention of nursing staff, bearing in mind that expenditure on agency nurses in Wales was £8 million in 1999-2000, and £15 million in 2001-02? There are

Mae'r ffigurau ar recriwtio a lleoedd hyfforddiant i'w croesawu o ran hynny. Fodd bynnag, nid mater o recriwtio a hyfforddi yn unig ydyw, ochr arall y geiniog yw cadw staff ar ôl iddynt ennill eu cymhwyster. Mae hynny'n her ddfrifol i'r Gweinidog. Yr oedd llawer ohonom yn bresennol yn achlysur lansio maniffesto Coleg Brenhinol y Nyrsys ar werthfawrogi nyrsio, yr oedd llawer ohono yn ymwneud â'r angen i gadw staff nyrsio ar ôl iddynt ennill cymhwyster. Mae gennym gannoedd o nyrsys cymwys yng Nghymru nad ydynt yn gweithio fel nyrsys heddiw, a hynny am amrywiaeth o resymau ond yn y pen draw y prif reswm yw telerau ac amodau eu cyflogaeth. Mae angen oriau gwaith hyblyg, ar gyfer gofal plant ac i fynd i'r afael â chyflog ac amodau gwaith. Mae angen i'r GIG ddod yn gyflogwr o safon. Sut y mae'r Gweinidog yn mynd i'r afael â'r angen i

challenges in terms of the nursing workforce.

gadw mwy o staff nyrsio, o gofio bod y gwariant ar nyrsys asiantaethau yng Nghymru yn £8 miliwn yn 1999-2000, a £15 miliwn yn 2001-02? Mae'r rhain yn heriau o ran y gweithlu nyrsio.

On the dental workforce, I am aware of the figures on those training to become dentists. What progress is the Minister making in employing salaried dentists in the NHS? Large tracts of Wales, particularly rural Wales, do not have an NHS dentist. The current contract fails to attract and retain NHS dentists. How are we increasing the number of NHS salaried dentists in areas such as Ceredigion and Pembrokeshire?

O ran y gweithlu ym maes deintyddiaeth, yr wyf yn ymwybodol o ffigurau'r rhai sy'n hyfforddi i fod yn ddeintyddion. Pa gynnydd a wna'r Gweinidog o ran denu deintyddion cyflogedig i weithio yn y GIG? Mae rhannau helaeth o Gymru, yn arbennig Cymru wledig, heb ddeintydd GIG. Nid yw'r contract cyfredol yn denu nac yn cadw deintyddion y GIG. Sut yr ydym yn mynd ati i gynyddu nifer y deintyddion GIG cyflogedig mewn ardaloedd megis Ceredigion a Sir Benfro?

3.00 p.m.

Finally, on the new general practitioner contract, we are training medical students to become doctors, and 70 per cent of medical graduates will become GPs. However, recent negotiations over pay and conditions in the new GP contract—as the Minister will know; we had this conversation in the Health and Social Services Committee last week—mean that 70 per cent of GP practices across Britain will have fewer resources than at present. The present formula does not address all the workforce and workload issues. Unless the funding issues in the new GP contract are addressed, GPs across Britain are likely to vote against it, because its current funding arrangements would destabilise most practices in Britain. That happened in NHS dentistry in 1992, when fees levels were slashed and dentists were driven into the private sector. GPs do not want history to repeat itself, and NHS general practice in Wales and Britain to be destabilised, because problems with the funding arrangements in the new GP contract have failed to be addressed. What input does the Minister have into the negotiations? I appreciate that it is a delicate matter, but there is nothing more delicate than destabilising the whole of British general practice. What input does the Minister have into these negotiations to sort out proper funding arrangements in the new GP contract?

Yn olaf, o ran contract newydd y meddygon teulu, yr ydym yn hyfforddi myfyrwyr meddygol i fod yn feddygon, a bydd 70 y cant o raddedigion meddygol yn dod yn feddygon teulu. Fodd bynnag mae'r negodiadau diweddar contract newydd y meddygon teulu—fel y gŵyr y Gweinidog; cawsom y sgwrs hon yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf—yn golygu y bydd gan 70 y cant o bractisiau meddygon teulu ar draws Prydain lai o adnoddau nag sydd ganddynt yn awr. Nid yw'r fformiwla bresennol yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud â gweithlu a baich gwaith. Os nad eir i'r afael â materion ariannu yng nghontract newydd y meddygon teulu, bydd meddygon teulu ledled Prydain yn debyg o bleidleisio yn ei erbyn, oherwydd byddai ei drefniadau ariannu presennol yn debyg o ddadsefydlogi'r rhan fwyaf o bractisiau ym Mhrydain. Digwyddodd hynny yn neintyddiaeth y GIG yn 1992, pan dorwyd lefelau ffioedd yn llym gan orfodi'r deintyddion i weithio yn y sector preifat. Nid yw'r meddygon teulu am weld hanes yn cael ei ailadrodd, ac i feddygaeth deulu y GIG yng Nghymru a Phrydain gael ei ddadsefydlogi, oherwydd methiant i fynd i'r afael â phroblemau gyda threfniadau ariannu yng nghontract newydd y meddygon teulu. Pa ran sydd gan y Gweinidog yn y negodiadau? Gwerthfawrogaf ei fod yn fater sensitif, ond nid oes dim byd mwy sensitif na dadsefydlogi meddygaeth teulu ym

Mhrydain yn ei chyfanrwydd. Pa ran sydd gan y Gweinidog yn y negodiadau hyn i ddatrys trefniadau ariannu priodol yng nghontract newydd y meddygon teulu.

**Jane Hutt:** This statement is about expansion in the training and education of our health workforce. However, as you say, it is also clearly linked to workforce planning, which is now in place as a result of our initiative. That sets the target of providing 700 more doctors, 6,000 more nurses and 2,000 more allied health professionals by 2010. It is clear that this must be tied into training and education, but also into our recruitment and retention plans. As you know, we discussed the all-Wales recruitment and retention plan not just with managers, but with our staff representatives at the Health and Social Services Committee. It is incumbent upon every NHS body in Wales to deliver on that plan.

**Jane Hutt:** Mae'r datganiad hwn yn ymwneud ag ehangu hyfforddiant ac addysg ein gweithlu iechyd. Fodd bynnag, fel y dywedwch mae hefyd wedi'i gysylltu'n agos â chynllunio'r gweithlu, sydd bellach ar waith o ganlyniad i'n menter. Mae hynny'n gosod targed o ddarparu 700 yn fwy o feddygon, 6,000 yn fwy o nyrsys, a 2,000 yn fwy o weithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig erbyn 2010. Mae'n amlwg fod yn rhaid cysylltu hyn â hyfforddiant ac addysg, ond hefyd â'n cynlluniau recriwtio a chadw. Fel y gwyddoch, trafodwyd y cynllun recriwtio a chadw i Gymru gyfan gennym nid yn unig gyda rheolwyr, ond gyda chynrychiolwyr ein staff yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n ddyletswydd i bawb ym mhob corff GIG yng Nghymru i gyflawni'r cynllun hwnnw.

To respond to your points, it is clear that, as the Royal College of Nursing said, we need to ensure that managers deliver family-friendly, flexible work practices. That is the steer from the Assembly Government. We know that good practice exists and we are investing Assembly money into developing childcare facilities in the form of day nurseries and crèches. We are also ensuring a childcare working party, in which the RCN is involved. We must have investment, support and advice.

I ymateb i'ch pwyntiau, mae'n amlwg fel y dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys, bod angen sicrhau bod rheolwyr yn cyflwyno arferion gwaith hyblyg ac ystyriol o deuluoedd. Dyna arweiniad Llywodraeth y Cynulliad. Gwyddom fod arfer da yn bodoli ac yr ydym yn buddsoddi arian y Cynulliad i ddatblygu cyfleusterau gofal plant ar ffurf cylchoedd chware dydd a meithrinfeydd. Yr ydym hefyd yn sicrhau gweithgor gofal plant y mae Coleg Brenhinol y Nyrsys yn ymwneud ag ef. Rhaid inni gael buddsoddiad, cymorth a chyngor.

We have signed up to 'Agenda for Change', which will have a dramatic effect on the health service, and we are awaiting the results of negotiations and consultations with all NHS staff, organisations and trade unions to take that forward. We have the money in place for 'Agenda for Change'. It is important in terms of opening up opportunities for staff—you mentioned physiotherapists, for example—that part-time courses are now available. We are enabling people to progress from first degrees to taking a two-year rather than a three-year physiotherapy training course. Our training and education providers in Wales must be congratulated on their consideration of

Yr ydym wedi ymrwymo i'r 'Agenda ar gyfer Newid' a gaiff effaith ddramatig ar y gwasanaeth iechyd, ac yr ydym yn disgwyl am ganlyniad negodiadau ac ymgynghoriadau gyda holl staff y GIG sefydliadau ac undebau llafur i ddatblygu hyn. Mae gennym yr arian ar gyfer yr 'Agenda ar gyfer Newid'. Mae'n bwysig o ran creu cyfleoedd ar gyfer staff—soniasoch am ffisiotherapyddion er enghraifft—fod cyrsiau rhan amser ar gael bellach. Yr ydym yn galluogi pobl i ddatblygu o raddau cyntaf i ddilyn cyrsiau hyfforddi ffisiotherapi dwy flynedd yn hytrach na thair blynedd. Rhaid llongyfarch ein darparwyr hyfforddiant ac

innovative means of attracting people into the health service, from different streams and interests and at different stages of life.

You raised an important point about the new GP contract; this is a sensitive time. We have invested money in the recruitment and retention of our GP colleagues. We know that we must retain our most experienced and mature GPs and have extended the golden thank you scheme to enable them to continue to contribute. We have also provided funding to second them to disadvantaged areas, where there are shortages of GPs. In terms of recruitment, we have increased our £5,000 golden hello to £12,000 in areas where there is a shortage of GPs. We must drive forward not only our GP recruitment and retention scheme, but other initiatives, such as additional funding and our focus on the primary care estate, because the buildings within which our healthcare workforce work are as important as the terms and conditions and support offered to them.

Finally, in relation to the GP contract, it is at a sensitive stage of negotiations. The four UK health Ministers have agreed to sign up to a framework that was drawn up in consultation with the General Practitioner Committee of the British Medical Association and with the NHS Confederation, in co-operation with the four UK health departments. The funding formula has been an issue, as we discussed at the Health and Social Services Committee last week. I assure you that the money is in place to meet the aspirations included in the GP contract. Discussions are also ongoing to ensure that we can deal with the concerns raised in relation to the formula, and that there is a fair and adequate arena for GPs when they vote on it shortly. I hope that we can reassure GPs, not only with funding, but also with the right policy framework.

**Ann Jones:** I thank the Minister for this statement, which outlines real increases in the number of health workforce training places. Everyone will be pleased with that. I also thank

addysg yng Nghymru am ystyried dulliau arloesol o ddenu pobl i'r gwasanaeth iechyd, o wahanol ffrydiau a diddordebau ac ar adegau gwahanol mewn bywyd.

Codasoch bwynt pwysig am gontract newydd y meddygon teulu; mae hon yn adeg sensitif. Yr ydym wedi buddsoddi arian mewn recriwtio a chadw meddygon teulu. Gwyddom fod yn rhaid cadw ein meddygon teulu mwyaf profiadol ac aeddfed ac yr ydym wedi ymestyn y cynllun tâl diolch i'w galluogi i barhau i gyfrannu. Yr ydym hefyd wedi darparu arian i'w secondio i ardaloedd difreintiedig, lle mae prinder meddygon teulu. O ran recriwtio yr ydym wedi cynyddu'r croeso euraid o £5,000 i £12,000 mewn ardaloedd lle mae prinder meddygon teulu. Rhaid inni nid yn unig hyrwyddo ein cynllun recriwtio a chadw meddygon teulu, ond mentrau eraill hefyd, megis arian ychwanegol a rhoi sylw i'r ystad gofal sylfaenol, oherwydd bod yr adeiladau y mae ein gweithlu gofal iechyd yn gweithio ynddynt yr un mor bwysig â'r telerau a'r cymorth a gynigir iddynt.

Yn olaf, mewn perthynas a chontract y meddygon teulu, mae ar gam sensitif yn y negodiadau. Cytunodd pedwar Gweinidog Iechyd y DU ar fframwaith a luniwyd mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Meddygon Teulu Cymdeithas Feddygol Prydain a Chyddfederasiwn y GIG mewn cydweithrediad â phedair adran Iechyd y DU. Bu'r fformiwla ariannu yn fater pryder, fel y gwnaethom drafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf. Rhoddaf sicrwydd i chi fod yr arian yno i wireddu'r dyheadau yng nghontract y meddygon teulu. Mae trafodaethau yn parhau i sicrhau y gallwn ddelio gyda'r pryderon a godir mewn perthynas â'r fformiwla, a bod sefyllfa deg a digonol ar gyfer meddygon teulu pan fyddant yn pleidleisio arno yn fuan. Gobeithiaf ein bod yn gallu tawelu meddyliau meddygon teulu, nid yn unig o ran arian, ond hefyd gyda'r fframwaith polisi cywir.

**Ann Jones:** Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad hwn, sy'n amlinellu cynnydd gwirioneddol yn nifer y lleoedd hyfforddi i'r gweithlu iechyd. Bydd pawb yn falch o

the Minister for the update on progress with regard to the north Wales medical school—which, again, is of interest to me. What plans do you have to fast-track training for audiologists so that we can roll-out universal neonatal hearing screening? Also, will you build on the excellent developments that you mentioned in the statement, and consider extending training routes to the social care workforce, so that it can undertake training in nursing as well?

**Jane Hutt:** The need to fast-track audiology training is key to rolling out the provision of NHS digital hearing aids in Wales. We anticipated an increase in need and therefore we have liaised and negotiated with our training providers to deliver extended training. We must also recognise that technicians have a part to play, as well as fully-fledged audiologists. I am sure that many Members have visited the audiology units that we have funded, which are providing a modernised service, with NHS digital hearing aids. Students, technicians and audiologists are already in place and we are taking that forward.

I pay tribute to the Conwy and Denbighshire NHS Trust for its work with the University of Wales, Bangor to provide training opportunities in nursing for healthcare support workers. That began with that partnership in north Wales. I met, with you, some of the students, who are excited about these opportunities. This must be spread throughout Wales. We have set up the first programme, and education providers and trusts will be looking at it keenly. Recruiting people who have already made a contribution to healthcare must be the way forward in terms of recruiting more nurses into the service.

**David Melding:** I welcome the increase in the number of training places, which is projected to continue. There has been genuine achievement on this matter. However, do you not think that it is incongruous that that increase has not been accompanied by a target for an increase in staffing levels in the medium-term? You

hynny. Hefyd diolchaf i'r Gweinidog am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt ysgol feddygol y Gogledd—sydd, unwaith eto o ddiddordeb imi. Pa gynlluniau sydd gennych i'n galluogi i gyflwyno hyfforddiant carlam i glywedegwyr fel ein bod yn gallu cyflwyno sgrinio clyw pob plentyn newydd-anedig? Hefyd a wnewch adeiladu ar y datblygiadau ardderchog y soniasoch amdanynt yn eich datganiad, ac ystyried ymestyn llwybrau hyfforddi i'r gweithlu gofal cymdeithasol, fel ei fod yn gallu ymgymryd â hyfforddiant nyrsio yn ogystal?

**Jane Hutt:** Mae'r angen i roi hyfforddiant carlam ym maes clywedeg yn allweddol o ran darparu cymhorthion clywed digidol y GIG yng Nghymru. Rhagwelwyd cynnydd yn y galw, ac felly yr ydym wedi cydlynu a negodi gyda'n darparwyr hyfforddiant i gyflwyno hyfforddiant estynedig. Rhaid inni hefyd gydnabod fod gan dechnegwyr eu rhan i chwarae, ynghyd â clywedegwyr cymwys. Yr wyf yn siŵr bod llawer o Aelodau wedi ymweld â'r unedau clywedeg a arianwyd gennym, sydd yn darparu gwasanaeth modern, gyda chymhorthion clyw digidol y GIG. Mae myfyrwyr, technegwyr a chlywedegwyr ar waith eisoes ac yr ydym yn datblygu hynny.

Talaf deyrnged i Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych am ei gwaith gyda Phrifysgol Cymru Bangor i ddarparu cyfleoedd hyfforddi mewn nyrsio ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd. Dechreuodd hynny gyda'r bartneriaeth honno yn y Gogledd. Cyfarfûm, yn eich cwmni, â rhai o'r myfyrwyr sy'n frwdfrydig am y cyfleoedd hyn. Rhaid lledaenu hyn ledled Cymru. Yr ydym wedi sefydlu'r rhaglen gyntaf a bydd darparwyr addysg ac ymddiriedolaethau yn edrych arno yn fanwl. Recriwtio pobl sydd eisoes wedi gwneud cyfraniad at ofal iechyd yw'r ffordd ymlaen o ran recriwtio rhagor o nyrsys i'r gwasanaeth.

**David Melding:** Croesawaf y cynnydd yn nifer y lleoedd hyfforddi, y rhagwelir y bydd yn cynyddu. Bu cyflawniad gwirioneddol ar y mater hwn. Fodd bynnag, oni thybiwch ei bod yn rhyfedd nad yw'r cynnydd hwnnw wedi ei gplysu â tharged ar gyfer cynnydd mewn lefelau staffio yn y tymor canolig? Yr

outlined the figures that you hope to achieve by 2010—that is nearly two Assemblies away; the targets were set last year, so that is an eight-year span. Do you not agree that vigilance is needed to ensure that, when these people are trained, they practice in Wales? As for anyone involved in scrutinising the Government, we need milestones that are more frequent than one that is eight years away. Would it not have been more reasonable to set medium-term targets for staff increases in, perhaps, 2006-07?

I also want to amplify Dai Lloyd's point on the importance of retaining staff and encouraging staff who take a break from the health service, for whatever reason, to return to the workforce. Around a half of all trained nurses of working age do not practice. There is a large pool of talent there, and we need to tap into it with innovative training schemes to bring those people up to date with current practice, and to encourage them back into the workforce.

**Jane Hutt:** We have taken a great step forward in expanding education and training and in linking it to workforce planning. This is the first time that trusts throughout Wales have been asked what they need, as opposed to what they can afford. We did not have a workforce planning exercise or the tools to do it until the Assembly Government took this forward. It is not a one-off exercise—we have discussed our plans at length in the Health and Social Services Committee—because every year the tool that trusts now use to predict their workforce needs will be refined. That information will then come back to the Assembly and to the Government—and to Committee, I am sure—so that we can consider how to refine the targets. We will have to refine them as we develop our national service frameworks and in recognising the new developments that are taking place through innovations in care. That will require us to look across the board at all specialities and at all levels of the health service. Those refinements will be reflected in our workforce plans.

ydych wedi amlinellu'r ffigurau y gobeithiwch eu cyrraedd erbyn 2010—mae hynny bron yn ddau dymor cynulliad i ffwrdd; gosodwyd y targedau y llynedd, felly mae hynny'n rhychwantu wyth mlynedd. Oni chytunwch fod angen gwyliadwriaeth i sicrhau, bod y bobl hyn, pan gânt eu hyfforddi, yn ymarfer yng Nghymru? O ran unrhyw un sy'n ymwneud â chraffu ar waith y Llywodraeth, mae angen cerrig milltir sy'n amlach nag un sydd wyth mlynedd i ffwrdd. Oni fyddai wedi bod yn fwy rhesymol i osod targedau tymor canolig ar gyfer cynnydd yn niferoedd staff, yn 2006-07 efallai?

Hoffwn hefyd ymhelaethu ar bwynt Dai Lloyd ar bwysigrwydd cadw staff ac annog staff sy'n cael seibiant o'r gwasanaeth iechyd, am ba reswm bynnag, i ddychwelyd i'r gweithlu. Nid yw tua hanner y nyrsys o oedran gwaith yn ymarfer. Mae cronfa fawr o dalent yn y fan honno, ac mae angen inni fanteisio arni mewn iddi mewn cynlluniau hyfforddi blaengar i ddysgu'r arferion diweddaraf i'r bobl hynny ac i'w hannog i ddychwelyd i'r gweithlu.

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi cymryd cam mawr ymlaen mewn ymestyn addysg a hyfforddiant a'u cysylltu â chynllunio'r gweithlu. Dyma'r tro cyntaf bod rhywun wedi gofyn i ymddiriedolaethau ledled Cymru nodi'u hanghenion, yn hytrach na'r hyn y gallant ei fforddio. Nid oedd gennym ymarferiad cynllunio'r gweithlu na'r offer i'w gynnal hyd nes i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu hyn. Nid ymarferiad unwaith ac am byth ydyw—yr ydym wedi trafod ein cynlluniau yn hir yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—oherwydd bob blwyddyn bydd angen mireinio'r arf a ddefnyddir yn awr gan yr ymddiriedolaethau i ragweld eu hanghenion o ran gweithlu. Bydd y wybodaeth honno wedyn yn dod yn ôl i'r Cynulliad ac i'r Llywodraeth—ac i'r Pwyllgor, yr wyf yn sicr—fel ein bod yn gallu ystyried sut i fireinio'r targedau. Bydd yn rhaid inni eu mireinio wrth inni ddatblygu ein fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol ac wrth gydnabod y datblygiadau newydd sy'n digwydd drwy arloesi ym maes gofal. Bydd hyn yn gofyn inni ystyried pob arbenigedd a phob lefel o'r gwasanaeth iechyd. Caiff y broses fireinio hon ei hadlewyrchu yn ein



cynlluniau i'r gweithlu.

3.10 p.m.

As you say, it is important that we seek to retain, as well as to recruit and train, our workforce. The need to ensure that we enable our staff to stay in the service, and to support and reward them, came over strongly when we met trade union representatives and managers. 'Agenda for Change' will be a great step forward in terms and conditions. We need family-friendly provisions, childcare support and part-time opportunities, as well as more career opportunities. We have allocated £0.5 million for nurse and pharmacist prescribing. Nurse consultants are now coming on board. That is part of retaining our workforce, continual professional development, acknowledgement and training. As you know, David, the workforce has expanded considerably—there are 8,000 more staff in the NHS over the past two or three years—as a result of our investment into our workforce in Wales.

**Kirsty Williams:** Thank you for your statement, Minister. We welcome these real increases in medical workforce training across the board. That shows that we are investing in the long-term capacity of the NHS in Wales to deal with patients' needs, rather than concentrating on short-term political gain.

I have a few questions. First, on medical education, are you confident that we are doing as much as we can to ensure that the medical undergraduates that we recruit come from a wide variety of backgrounds, and from all parts of Wales? Secondly, are you convinced that we have adequate teaching facilities, specifically at the University Hospital of Wales, to meet these increases? I am aware of concerns at the medical school in Cardiff about the adequacy of its student facilities. If we are to attract good-quality students, we need to have good-quality facilities for them to train in. We also need sustainability in clinical placements for students across Wales. It is all very well having academic places for students, but they also need clinical experience. Are you convinced that we have the capacity to deliver that?

Fel y soniwyd, mae'n bwysig ein bod yn cadw yn ogystal â recriwtio a hyfforddi, ein gweithlu. Daeth yr angen i sicrhau ein bod yn galluogi ein staff i aros yn y gwasanaeth, ac i'w cefnogi a'u gwobrwyo, i'r amlwg pan gyfarfuom â chynrychiolwyr undebau llafur a rheolwyr. 'Bydd Agenda ar gyfer Newid' yn gam mawr ymlaen mewn telerau ac amodau. Mae angen darpariaethau sy'n ystyriol o deuluoedd, cymorth gofal plant a chyfleoedd rhan amser, ynghyd â rhagor o gyfleoedd gyrfa. Yr ydym wedi clustnodi £0.5 miliwn ar gyfer hyfforddiant rhagnodi nyrsys a fferyllwyr. Mae ymgynghorwyr nyrsio yn dechrau cefnogi hyn. Mae hynny'n rhan o gadw ein gweithlu, datblygiad proffesiynol parhaus, cydnabyddiaeth a hyfforddiant. Fel y gwyddoch, David, mae'r gweithlu wedi tyfu'n sylweddol—mae 8,000 yn fwy o staff yn y GIG dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf—o ganlyniad i'n buddsoddiad yn ein gweithlu yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Croesawn y cynnydd gwirioneddol hwn yn nifer y gweithlu meddygol sy'n cael hyfforddiant ym mhob maes. Dengys hyn ein bod yn buddsoddi yng nghapasiti tymor hir y GIG yng Nghymru i ymdrin ag anghenion cleifion, yn hytrach na chanolbwyntio ar fantais wleidyddol yn y tymor byr.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau. Yn gyntaf, o ran addysg feddygol, a ydych yn ffyddiog ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod yr israddedigion meddygol a recriwtir gennym yn dod o gefndiroedd amrywiol, ac o bob rhan o Gymru? Yn ail, a ydych yn siŵr bod gennym gyfleusterau addysgu digonol, yn arbennig yn Ysbyty Athrofaol Cymru, i ymdopi â'r cynnydd hwn? Yr wyf yn ymwybodol o bryderon yn yr ysgol feddygol yng Nghaerdydd am ddigonolrwydd ei chyfleusterau i fyfyrwyr. Er mwyn denu myfyrwyr o safon, mae angen cyfleusterau o safon er mwyn iddynt gael eu hyfforddiant ynddynt. Hefyd mae angen cynaliadwyedd o ran lleoliadau clinigol myfyrwyr ar draws Cymru. Mae'n iawn i gael lleoedd academig

i fyfyrwyr, ond mae angen profiad clinigol arnynt hefyd. A ydych yn siŵr bod gennym y capasiti i gyflawni hynny.

While we are teaching more medical students, what are you doing to recruit more medical educators in Wales? We will need more teachers, as well as students, for these medical schools. It is deplorable that we have trained exactly the same number of dentists in Wales for the last 10 years—there has not been an increase in that time. We need to tackle that urgently. In increasing the number of dentists that you intend to train in Wales, will you consider that alongside developments in primary care dental centres? The St David's Primary Care Unit in Cardiff provides excellent training opportunities, as well as treatment to patients who desperately need NHS care. Do you agree that it is incumbent upon us to develop such centres in north, mid and west Wales, in line with increases in dental training places? You referred to several therapies for which training places have been increased. However, the obvious omission was speech and language therapy. You will be aware from the Health and Social Services Committee's work on children with special health needs that there is a huge problem in the recruitment of, and providing access to, speech and language therapists. There is a long waiting list. What are your plans regarding this therapy?

Tra ein bod yn hyfforddi mwy o fyfyrwyr meddygol, beth yr ydych yn ei wneud i recriwtio rhagor o addysgwyr meddygol yng Nghymru? Bydd angen mwy o athrawon arnom, yn ogystal â myfyrwyr, ar gyfer yr ysgolion meddygol hyn. Mae'n warthus ein bod wedi hyfforddi yr un nifer yn union o ddeintyddion yng Nghymru am y 10 mlynedd diwethaf—ni fu cynnydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae angen inni fynd i'r afael â hynny ar frys. Wrth gynyddu nifer y deintyddion y bwriedwch eu hyfforddi yng Nghymru, a wnewch ystyried hynny ar y cyd â datblygiadau yn y canolfannau gofal deintyddol sylfaenol? Mae'r Uned Gofal Sylfaenol Dewi Sant yng Nghaerdydd yn darparu cyfleoedd hyfforddi ardderchog, ynghyd â thriniaeth i gleifion sydd â mawr angen gofal GIG. A gytunwch bod dyletswydd arnom i ddatblygu canolfannau o'r fath yn y Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin, yn unol â'r cynnydd yn y lleoedd hyfforddi deintyddion? Cyfeiriasoch at sawl therapi lle mae nifer y lleoedd hyfforddi wedi cynyddu. Fodd bynnag yr un amlwg a hepgorwyd oedd therapi lleferydd ac iaith. Byddwch yn ymwybodol oddi wrth waith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar blant ag anghenion iechyd arbennig fod problem enfawr o ran recriwtio therapyddion lleferydd ac iaith, a sicrhau eu bod ar gael. Mae rhestr aros faith. Beth yw eich cynlluniau o ran y therapi hwn?

Finally, on nurse training, I have had bitter experience over the last four years of the trust in Powys, which is now defunct, in trying to ensure that there is co-operation on lifelong learning. It has been difficult to get the trust to second people for training and to make it available to them. What will you do to ensure that trusts throughout Wales—or, in Powys, the new local health board—honour their commitment to training opportunities for staff?

Yn olaf, o ran hyfforddi nysrys, dros y pedair blynedd diwethaf cefais brofiad chwerw o'r ymddiriedolaeth ym Mhowys, sydd bellach wedi dod i ben, o ran ceisio sicrhau bod cydweithrediad ar ddysgu gydol oes. Bu'n anodd darbwylo'r ymddiriedolaeth i secondio pobl ar gyfer hyfforddiant a'i ddarparu ar eu cyfer. Beth a wnewch i sicrhau bod ymddiriedolaethau ledled Cymru—neu, ym Mhowys, y bwrdd iechyd lleol newydd—yn cadw eu hymrwymiad i roi cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff?

Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Gareth  
Law, Peter

Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Cymeradwyo Rheoliadau Porthiant (Diwygio) 2003 Approval of the Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003**

**Y Llywydd:** Dan Reolau Sefydlog Rhifau 22.25, 23.10 a 23.11, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. **The Presiding Officer:** Under Standing Order Nos. 22.25, 23.10 and 23.11, this motion is not subject to debate.

**The Business Minister (Carwyn Jones):** I propose that **Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*the National Assembly acting under Standing Order Nos. 22.25, 23.10 and 23.11, approves:* *y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 22.25, 23.10 a 23.11, yn cymeradwyo:*

*a) the Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003, a copy of which was laid in the Table Office on 26 March 2003 and e-mailed to Assembly Members on 26 March 2003; and* *a) Rheoliadau Porthiant (Diwygio) 2003 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mawrth 2003 ac a ebostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Mawrth 2003; ac*

*b) the explanatory memorandum laid in the Table Office on 26 March 2003 and e-mailed to Assembly Members on 26 March 2003; and* *b) y memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mawrth 2003 ac a ebostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Mawrth 2003; ac*

*c) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 26 March 2003 and e-mailed to Assembly Members on 26 March 2003. (NDM1467)* *c) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mawrth 2003 ac a ebostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Mawrth 2003. (NDM1467)*

*Cynnig (NDM1467): O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Motion (NDM1467): For 34, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine

Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane  
 Davies, Janet  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jones, Ann  
 Jones, Gareth  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Cynnig Trefniadol Procedural Motion**

The Business Minister (Carwyn Jones): I propose that  
 Y Trefnydd (Carwyn Jones): Cynig iaf fod

*the National Assembly for Wales suspends Standing Order No. 34.5 to enable motions NNDM1470 and NNDM1471 to be debated today.*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gohirio Rheol Sefydlog Rhif 34.5 er mwyn caniatáu i gynigion NNDM1470 ac NNDM1471 gael eu trafod heddiw.*

**Y Llywydd:** Ni welaf unrhyw un sydd yn dymuno siarad ar y cynnig hwn, felly galwaf bleidlais. Bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair o blaid yn y bleidlais i ohirio Rheol Sefydlog Rhif 34.5.

**The Presiding Officer:** I do not see anyone who wishes to speak on this motion, therefore I call for a vote. A two-thirds majority vote in favour is required to suspend Standing Order No. 34.5.

*Cynnig: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Motion: For 34, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine

Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane  
 Davies, Janet  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jones, Ann  
 Jones, Gareth  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Cymeradwyo Cyfarwyddiadau Cymorth Gwladol (Taliadau Gohiriedig) 2003 Approval of the National Assistance (Deferred Payments) Directions 2003**

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

*the National Assembly for Wales considers the principle of the National Assistance (Deferred Payments) Directions 2003, which were laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 25 March 2003. (NNDM1470)*

I propose that

*the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 27.2 (iii), approves the National Assistance (Deferred Payments) Directions 2003, which were laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 25 March 2003. (NNDM1471)*

**Y Llywydd:** Ni welaf unrhyw un sydd am wneud cyfraniad, felly galwaf bleidlais.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Cymorth Gwladol (Taliadau Gohiriedig) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2003. (NNDM1470)*

Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 27.2 (iii), yn cymeradwyo Cyfarwyddiadau Cymorth Gwladol (Taliadau Gohiriedig) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2003. (NNDM1471)*

**The Presiding Officer:** I do not see anyone who wishes to contribute, therefore I call for a vote.

*Cynnig (NNDM1470): O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Motion (NNDM1470): For 35, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Janet  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Gareth  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Cynnig (NDM1471): O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM1471): For 35, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Janet  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison

Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jones, Ann  
 Jones, Gareth  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Y Strategaeth Troseddwyd Ifanc ar gyfer Cymru Gyfan The All Wales Youth Offending Strategy**

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** I propose that

*the National Assembly for Wales*

*1. welcomes the draft all-Wales youth offending strategy which was e-mailed to Members on 26 March 2003;*

*2. recognises that the strategy provides a framework for preventing offending among children and young people that is directly related to the wider Welsh policy context;*

*3. acknowledges that this is a joint strategy of the Assembly Government and the Youth Justice Board and welcomes the close collaboration between the two organisations in seeking to prevent and reduce youth crime in Wales;*

*4. endorses the strategy's conclusion that the prevention of youth offending requires a multi-agency approach which considers the needs and entitlements of children and young people at all levels of prevention and intervention;*

*5. agrees that the all-Wales youth offending strategy group will be responsible for monitoring progress. (NDM1468)*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*1. yn croesawu'r strategaeth troseddwyd ifanc ar gyfer Cymru gyfan a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 26 Mawrth 2003;*

*2. yn cydnabod bod y strategaeth yn cynnig fframwaith ar gyfer atal troseddu ymhlith plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cyd-destun polisi ehangach yng Nghymru;*

*3. yn cydnabod mai strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yw'r strategaeth ac yn croesawu'r cydweithio agos rhwng y ddau gorff er mwyn ceisio atal a lleihau troseddu gan bobl ifanc yng Nghymru;*

*4. yn ategu casgliad y strategaeth bod atal pobl ifanc rhag troseddu'n gofyn am ymagwedd aml-asiantaeth sy'n ystyried anghenion a hawliau plant a phobl ifanc ar bob lefel o atal ac ymyrryd;*

*5. yn cytuno mai grŵp y strategaeth troseddwyd ifanc ar gyfer Cymru gyfan fydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd. (NDM1468)*



Last June, I made a statement on the work of the all-Wales youth offending strategy group and its specific remit to produce a strategy for Wales. The group is jointly chaired by Lord Warner, who is chair of the youth justice board for England and Wales, and myself. Its membership consists of Assembly and youth justice board officials and representatives of chief officers of the relevant local agencies, the judiciary, HM Prison Service and the voluntary sector. The group has now produced a comprehensive draft youth offending strategy, which has been circulated to all Members. The strategy aims to provide a framework for preventing offending by children and young people that is directly related to the wider Welsh policy context. It identifies risk factors across the key policy areas of education, health, housing, communities, social welfare and employment. It sets out the existing provision and gaps in provision, and makes recommendations for action.

When a child or young person gets into trouble with the law, it concerns us all and matters to the whole community because the damage done affects the lives of the victims of crime and the fear of crime spreads to those around them. It matters most directly to the young people and their families. Repairing the damage at the earliest opportunity is the greatest single investment we can make in community safety in the long term. We know that young people who are drawn into the criminal justice system are more likely to offend again in the future. However, those who end up in custody are the most likely to commit more serious offences upon release. That is why the strategy before you has placed such an emphasis on preventing young people from being drawn down this path and on diverting them, wherever possible, from the identifiable difficulties.

I ask Members to endorse this important new strategy for Wales, which is vital in linking criminal justice policies to the wider range of Assembly social inclusion policies and which has the clear aim of reducing crimes by young people and making Wales a safer place. I hope to formally consult agencies in Wales in early summer this year and to publish the final document by the end of

Fis Mehefin diwethaf, gwneuthum ddatganiad ar waith y grŵp strategaeth troseddwy'r ifanc ar gyfer Cymru gyfan a'i gylch gwaith penodol o lunio strategaeth i Gymru. Cadeirir y grŵp ar y cyd gan yr Arglwydd Warner, sy'n gadeirydd bwrdd cyfiawnder ieuencid Cymru a Lloegr, a minnau. Mae ei aelodaeth yn cynnwys swyddogion o'r Cynulliad a'r bwrdd cyfiawnder ieuencid a chynrychiolwyr prif swyddogion yr asiantaethau lleol perthnasol, y farnwriaeth, Gwasanaeth Carchardai EM a'r sector gwirfoddol. Mae'r grŵp bellach wedi llunio strategaeth troseddwy'r ifanc ddrafft gynhwysfawr, a ddosbarthwyd i bob Aelod. Nod y strategaeth yw darparu fframwaith ar gyfer atal troseddu ymhlith plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cyddestun polisi ehangach yng Nghymru. Mae'n nodi ffactorau risg ar draws meysydd polisi allweddol addysg, iechyd, tai, cymunedau, lles cymdeithasol a chyflogaeth. Mae'n amlinellu'r ddarpariaeth bresennol a'r bylchau mewn darpariaeth, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu.

Pan fo plentyn neu berson ifanc yn dechrau cyflawni troseddau, mae'n achos pryder inni oll ac yn fater pwysig i'r gymuned gyfan gan fod y drwg a wneir yn effeithio ar fywydau dioddefwyr troseddau ac mae bod ag ofn troseddau yn lledu i bawb o'u hamgylch. Ar y bobl ifanc a'u teuluoedd y ceir yr effaith fwyaf uniongyrchol. Unioni'r sefyllfa mor fuan â phosibl yw'r buddsoddiad mwyaf y gallwn ei wneud o ran diogelwch cymunedol yn yr hirdymor. Gwyddom fod pobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn fwy tebygol o droseddu eto yn y dyfodol. Fodd bynnag, y rhai a gaiff eu carcharu sydd fwyaf tebygol o gyflawni troseddau mwy difrifol ar ôl cael eu rhyddhau. Dyna pam mae'r strategaeth sydd ger eich bron wedi rhoi cymaint o bwyslais ar atal pobl ifanc rhag mynd ar y trywydd hwn a'u darbwyllo i osgoi'r anawsterau adnabyddadwy lle bynnag y bo modd.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r strategaeth newydd bwysig hon i Gymru, sy'n hollbwysig o ran cysylltu polisiâu cyfiawnder troseddol ag ystod ehangach polisiâu'r Cynulliad ar gynhwysiant cymdeithasol ac sydd â'r nod pendant o leihau nifer y troseddau a gyflawnir gan bobl ifanc a sicrhau bod Cymru yn lle mwy diogel. Gobeithiaf ymgynghori ag asiantaethau yng Nghymru yn ffurfiol ar ddechrau'r haf eleni

2003.

**Janet Ryder:** This is an important document for young people. Unfortunately, much clarity will be needed to deliver it, as the strategy draws together many facets of different agencies and different aspects of the National Assembly's work. Consider the responsibility to deliver the strategy, which is split between the local authorities—and within the local authorities between social services and education departments—the police, the National Probation Service, and local health authorities. All that must work itself out against a policy framework that is being developed by the National Assembly. Even within the Assembly, that policy framework is split between three ministerial portfolios: health and social services, local government—with its community safety and drugs and alcohol work—and education and lifelong learning. Drawing that entire policy framework together in the National Assembly is a huge task in itself. I am sure that you are aware that the Local Government and Housing Committee has, for several years, asked that that be drawn together under one Minister and included in the community safety and drug and alcohol work. We have still had no movement on that from the First Minister. However, every time we discuss it in Committee, we request that it all be brought together under one portfolio.

The difference in the policy framework and the difference in policy development in Wales is starting to create problems for the youth offending teams. Their targets and objectives are set by the Westminster Government, according to its own strategies, and the teams must deliver on those targets against a policy framework that is set in the Assembly. Given the problems that may increasingly arise, there is a real need and justification for the whole of the youth offending teams' work to be devolved to the National Assembly so that we can set their targets and objectives in line with our policies.

Funding these youth offending teams is another concern. Although they are part of a statutory body, they have no core funding. Their funding is made up from different pots.

a chyhoeddi'r ddogfen derfynol erbyn diwedd 2003.

**Janet Ryder:** Mae hon yn ddogfen bwysig i bobl ifanc. Yn anffodus, bydd angen bod yn eglur iawn i'w chyflwyno, gan fod y strategaeth yn dwyn ynghyd agweddau niferus ar wahanol asiantaethau ac agweddau gwahanol ar waith y Cynulliad Cenedlaethol. Ystyriwch y cyfrifoldeb dros gyflwyno'r strategaeth, a rennir rhwng yr awdurdodau lleol—ac o fewn yr awdurdodau lleol rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg—yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac awdurdodau iechyd lleol. Rhaid i hynny oll fynd rhagddo yn erbyn fframwaith polisi sy'n cael ei ddatblygu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Hyd yn oed o fewn y Cynulliad, rhennir y fframwaith polisi hwnnw rhwng tri phortffolio gweinidogol: iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol—gyda'i waith ar ddiogelwch cymunedol a chyffuriau ac alcohol—ac addysg a dysgu gydol oes. Mae tynnu y fframwaith polisi cyfan hwnnw ynghyd yn y Cynulliad Cenedlaethol yn dasg enfawr ynddi'i hun. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi gofyn i hynny gael ei dynnu ynghyd o dan un Gweinidog a'i gynnwys yn y gwaith ar ddiogelwch cymunedol a chyffuriau ac alcohol ers sawl blwyddyn. Yr ydym yn dal i aros i'r Prif Weinidog weithredu ar hynny. Fodd bynnag, bob tro y trafodwn y mater hwn yn y Pwyllgor, gofynnwn i hyn oll gael ei dynnu ynghyd o dan un portffolio.

Mae'r gwahaniaeth yn y fframwaith polisi a'r gwahaniaeth mewn datblygu polisi yng Nghymru yn dechrau creu problemau i'r timau troseddwr ifanc. Pennir eu targedau a'u hamcanion gan Lywodraeth San Steffan, yn ôl ei strategaethau ei hun, a rhaid i'r timau gyflawni'r targedau hynny yn erbyn fframwaith polisi a osodir gan y Cynulliad. O gofio'r problemau a allai godi'n fwyfwy, mae gwir angen a chyfiawnhad dros ddatganoli gwaith cyfan y timau troseddwr ifanc i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn inni bennu eu targedau a'u hamcanion yn unol â'n polisïau.

Mae cyllid y timau troseddwr ifanc hyn yn achos pryder arall. Er eu bod yn rhan o gorff statudol, nid oes ganddynt arian craidd. Daw eu harian o gyllidebau gwahanol. Daw'r swm

The biggest pot is that of the local authorities, and that is not constant, as it is subject to cuts periodically. That does not enable the youth offending teams to plan for the long term. Any such public body needs to be able to plan for the long term, especially when they must deliver such a crucial strategy.

mwyaf o'r awdurdodau lleol, ac nid yw hwnnw'n gyson, gan ei fod yn cael ei gwtogi o bryd i'w gilydd. O ganlyniad ni all timau troseddwr ifanc gynllunio ar gyfer yr hirdymor. Mae angen i unrhyw gorff cyhoeddus o'r fath allu cynllunio ar gyfer yr hirdymor, yn enwedig pan fo raid iddynt gyflawni strategaeth mor allweddol.

3.50 p.m.

I know that you, Minister, have corresponded with the National Probation Service, which also contributes to the youth offending teams' pot of funding. A report of this correspondence was discussed at the Local Government and Housing Committee this morning and there was disappointment at the National Probation Service's low level of contribution to these youth offending teams. The service has received funding increases under the comprehensive spending review, but it feels that it has other priorities and, therefore, does not want to increase its level of funding to the youth offending teams. I am sure that you will explain to them how important it is that they reconsider that funding. More importantly, will you explain to your Westminster colleagues that these youth offending teams need a core, set budget to enable them to deliver these strategies?

Gwn eich bod chi, Weinidog, wedi gohebu â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sydd hefyd yn cyfrannu at gyllid y timau troseddwr ifanc. Trafodwyd adroddiad ar yr ohebiaeth hon yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y bore yma a chawsom ein siomi gan gyfraniad bach y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i'r timau troseddwr ifanc hyn. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn rhagor o arian o dan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, ond teimla fod ganddo flaenoriaethau eraill ac, felly, nid yw am roi mwy o arian i'r timau troseddwr ifanc. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn esbonio iddynt pa mor bwysig ydyw iddynt ailystyried yr arian hwnnw. Yn bwysicach na hynny, a wnewch esbonio i'ch cyd-Weinidogion yn San Steffan fod angen cyllideb graidd, sefydlog ar y timau troseddwr ifanc hyn er mwyn eu galluogi i gyflawni'r strategaethau hyn?

On the strategy before us, and the developments needed in Wales, we have a lack of secure mental health in-patient facilities for children and young people. We do not have dedicated detoxification facilities for children and young people with drugs and alcohol problems; they are currently referred to adult healthcare services. Homelessness has increased and is impacting on this situation. The majority of Welsh young offenders that are remanded, or who receive custodial sentences, are held in English facilities. Together with partners, we can address these shortages and provide such service facilities. However, until the youth offending teams receive guaranteed core funding, it will be difficult for them to plan for the long term. Will you do what you can to provide youth offending teams with core funding?

O ran y strategaeth sydd ger ein bron, a'r datblygiadau sydd eu hangen yng Nghymru, mae gennym brinder cyfleusterau iechyd meddwl diogel i blant a phobl ifanc fel cleifion mewnol. Nid oes gennym gyfleusterau dadwenwyno penodol i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau o ran cyffuriau ac alcohol; cânt eu cyfeirio ar hyn o bryd at wasanaethau gofal iechyd oedolion. Mae digartrefedd wedi cynyddu ac mae'n cael effaith ar y sefyllfa hon. Caiff y rhan fwyaf o droseddwr ifanc yng Nghymru a anfonwyd i'r ddalfa, neu a gaiff eu carcharu, eu cadw mewn cyfleusterau yn Lloegr. Gyda'n partneriaid, gallwn fynd i'r afael â'r prinder hwn a darparu cyfleusterau gwasanaeth o'r fath. Fodd bynnag, hyd nes y caiff y timau troseddwr ifanc arian craidd wedi ei sicrhau, bydd yn anodd iddynt gynllunio ar gyfer yr hirdymor. A wnewch bopeth o fewn eich gallu i ddarparu arian craidd ar gyfer y timau troseddwr ifanc?

**Gwenda Thomas:** While I support this

**Gwenda Thomas:** Er y cefnogaf y cynnig hwn,

motion, I want to speak about point 3. The draft strategy takes no account of the present situation with regard to developing a secure training unit in south Wales. The Youth Justice Board has designated Aberpergwm in Glynneath as the preferred site for a secure training unit and I understand that the planning application is imminent. The draft strategy mentions ongoing negotiations between the Youth Justice Board and the Assembly. What are these negotiations about and who is involved in them? Surely we need to be mindful that the planning process might require the National Assembly to take the final decision regarding any applications? I understand that the application for the Glynneath site will be a significant departure from Neath Port Talbot County Borough Council's unitary development plan.

In their presentation to a hostile public meeting at Glynneath in January, Youth Justice Board officials were unable to confirm that places allocated in the proposed secure training unit would be exclusively for Welsh offenders. One must consider how the phased withdrawal at the privately run Ashfield Prison and Young Offender Institution in Bristol will affect the overall availability of places.

I am also concerned at the reference to funding in this draft strategy. Is there a definite Home Office commitment to make funding available for the development of a secure training unit in south Wales? The strategy should also deal with resource implications for local government. If the secure unit is developed in south Wales, will the Children's Commissioner for Wales Act 2001 apply? If so, who will be responsible? I accept that there is a need for secure facilities in Wales but I am not convinced that building a large unit in Glynneath is the answer. The needs of Wales may be better served by several smaller units—such a unit already exists in my constituency. In any case, there should have been a wider debate on the concept and provision of secure training places. Given that the responsibility for social services is a devolved issue, it would have been helpful had Assembly Members been involved in this debate from the outset.

hoffwn drafod pwynt 3. Nid yw'r strategaeth ddrafft yn ystyried y sefyllfa bresennol o ran datblygu uned hyfforddi ddiogel yn y De. Mae Aberpergwm yng Nglyn-nedd wedi'i ddynodi fel dewis safle ar gyfer uned hyfforddi ddiogel gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a deallaf ei fod ar fin cyflwyno cais cynllunio. Mae'r strategaeth ddrafft yn cyfeirio at y negodiadau sy'n mynd rhagddynt rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Cynulliad. Beth yw diben y negodiadau hyn a phwy sy'n cymryd rhan ynddynt? Rhaid inni gofio efallai y bydd yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y broses gynllunio wneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw gais? Deallaf y bydd y cais ar gyfer y safle yng Nglyn-nedd yn wyriad mawr oddi wrth gynllun datblygu unedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Yn eu cyflwyniad i gyfarfod cyhoeddus gwrthwynebus yng Nglyn-nedd ym mis Ionawr, nid oedd swyddogion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu cadarnhau mai ar gyfer troseddwyr o Gymru yn unig y byddai'r lleoedd yn yr uned hyfforddi ddiogel arfaethedig. Rhaid ystyried sut y bydd y penderfyniad i roi'r gorau yn raddol i ddefnyddio Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield ym Mryste, a gaiff ei redeg gan gwmni preifat, yn effeithio ar nifer y lleoedd sydd ar gael.

Pryderaf hefyd ynglŷn â'r cyfeiriad at arian yn y strategaeth ddrafft hon. A oes ymrwymiad pendant gan y Swyddfa Gartref i ddarparu arian ar gyfer datblygu uned hyfforddi ddiogel yn y De? Dylai'r strategaeth hefyd ymdrin â'r goblygiadau o ran adnoddau i lywodraeth leol. Os datblygir yr uned ddiogel yn y De, a fydd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 yn gymwys? Os felly, pwy fydd yn gyfrifol? Derbyniaf fod angen cyfleusterau diogel yng Nghymru ond nid wyf yn argyhoeddedig mai codi uned fawr yng Nglyn-nedd yw'r ateb. Efallai y byddai nifer o unedau bach yn diwallu anghenion Cymru yn well—mae uned o'r fath eisoes yn fy etholaeth. Sut bynnag, dylid bod wedi cynnal dadl ehangach ar y cysyniad a'r ddarpariaeth o leoedd hyfforddi diogel. O gofio bod y cyfrifoldeb dros wasanaethau cymdeithasol wedi'i ddatganoli, byddai wedi bod yn fuddiol pe bai Aelodau'r Cynulliad wedi'u cynnwys yn y ddadl hon o'r dechrau.

**Brian Hancock:** When I saw that this item was on the agenda, I contacted my local youth offending team. Surprisingly enough, it considers itself to be a major success. There is intensive supervision and a surveillance programme. However, that is only at a local level—such success does not extend throughout the constituency or the county borough, or throughout Wales. My local youth offending team was successful because it put in an initial bid, and it was one of the first programmes. It was a useful tool.

Young people placed on these orders cause concern and have committed serious offences. Research and monitoring has shown that, although some re-offend, the severity and number of offences is reduced as a result of these orders. The focus has changed from protecting youth offenders too much, which some might argue was never the case anyway, to assessing the risk to the local community and putting a programme into action to reduce that risk. That is the heavy end. The courts refer young people on their first appearance before the courts to a referral panel. Volunteers from the local community sit on that panel, who have been trained by the youth offending teams. Often, the young offender, his family, and the victim meet, so that the offender can hear what it is like to be a victim of crime. The panel decides how to remedy the situation. That works well at a local level—it engages with young offenders and improves lives in communities. That is a good news story. However, we must provide opportunities for regeneration in deprived communities where crime rates are at their highest. A high proportion of previous offenders are unemployed, and such people are most likely to re-offend when unemployed. As the old saying has it, the devil finds work for idle hands. There is a need to join-up with other schemes such as Communities First, and to tackle social exclusion, which will ensure better access to employment, education and health services. There is also a need to identify risks with regard to children and to re-engage individuals so that they are drawn away from offending and re-offending. Research carried out in relation to evidence gathered in the ‘Communities that Care’ report has shown that initiatives that target whole communities, by identifying local needs and responding to

**Brian Hancock:** Pan welais fod yr eitem hon ar yr agenda, cysylltais â'm tîm troseddwy'r ifanc lleol. Er syndod mawr, mae'n ystyried ei hun yn llwyddiant mawr. Ceir goruchwyliaeth ddwys a rhaglen wyliadwraeth. Fodd bynnag, dim ond ar lefel leol y mae hynny—nid yw llwyddiant o'r fath wedi lledu ar draws yr etholaeth na'r fwrdeistref sirol, na ledled Cymru. Yr oedd fy nhîm troseddwy'r ifanc lleol yn llwyddiannus am iddo wneud cais ar y dechrau, ac mai hon oedd un o'r rhaglenni cyntaf o'i bath. Yr oedd yn arf ddefnyddiol.

Mae pobl ifanc y gwneir y gorchmynion hyn yn eu cylch yn achos pryder ac maent wedi cyflawni troseddau difrifol. Dengys ymchwil a gwaith monitro, er i rai ohonynt droseddu eto, y cyflawnant lai o droseddau a throseddau llai difrifol o ganlyniad i'r gorchmynion hyn. Newidiwyd y pwyslais o ddiogelu troseddwy'r ifanc gormod, y byddai rhai yn dadlau nad oedd hynny erioed yn digwydd mewn gwirionedd, i asesu'r risg i'r gymuned leol a rhoi rhaglen ar waith er mwyn lleihau'r risg honno. Dyna'r ochr ddifrifol. Pan fydd pobl ifanc yn ymddangos gerbron y llys am y tro cyntaf cânt eu cyfeirio at banel cyfeirio. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned leol, sydd wedi cael eu hyfforddi gan y timau troseddwy'r ifanc, yn aelodau o'r panel hwnnw. Yn aml, mae'r troseddwr ifanc, ei deulu a'r dioddefwr yn cyfarfod, er mwyn i'r troseddwr gael clywed sut brofiad ydyw bod yn ddiodesdwr trosedd. Mae'r panel yn penderfynu sut i unioni'r sefyllfa. Mae hynny'n gweithio'n dda ar lefel leol—mae'n cynnwys troseddwy'r ifanc ac yn gwella bywydau mewn cymunedau. Mae hynny'n newyddion da. Fodd bynnag, rhaid inni ddarparu cyfleoedd ar gyfer adfywio o fewn cymunedau difreintiedig lle mae cyfraddau troseddu ar eu huchaf. Mae cyfran uchel o gyn-droseddwy'r yn ddi-waith, ac mae pobl o'r fath yn fwyaf tebygol o droseddu eto pan fyddant yn ddi-waith. I ddyfynnu'r hen ddywediad Saesneg, ‘the devil finds work for idle hands’. Mae angen cydweithio â chynlluniau eraill megis Cymunedau yn Gyntaf, a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, a fydd yn sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar wasanaethau cyflogaeth, addysg ac iechyd. Mae angen hefyd nodi risgiau i blant a chysylltu o'r newydd ag unigolion er mwyn eu hatal rhag troseddu ac aildroseddu. Dengys ymchwil a wnaed mewn perthynas â thystiolaeth a gasglwyd yn yr adroddiad ‘Cymunedau sy'n Malio’ fod mentrau sy'n

anti-social behaviour, have a positive impact and reduce the risk of offending by children and young people.

Finally, detox centres, where young and older people go to overcome their addictions, must provide help, encouragement and counselling to enable them to do so. If they do not do that, many people will lead a life of crime, and sometimes they will commit crimes to get into prison just so that they can get help. When they come out of prison, they need follow-up services to ensure that they do not again find their way into crime, such as petty thieving and so on.

**Peter Black:** Gwenda Thomas made some important points on the proposed secure training unit in Glynneath. I believe, as do other local Members, that the unit is not located appropriately, and that it is too large. I would welcome a rethink.

The most impressive aspect of this strategy is the number of partners that are involved. In terms of that, and the responsibilities that have been divided between the Assembly, the Home Office and other Government departments, partnership will be crucial to this strategy's success. The point has been made that structure and funding are important. It is also important to engage with young people if we are to reduce crime among them and deal with the many issues that have arisen from this strategy.

It is easy, when discussing that strategy, to talk about anti-social behaviour. All Members receive complaints about it, and we try to deal with it in our own ways. Where the police and the youth offending teams have adopted a strategy involving anti-social behaviour contracts—followed, if necessary, by anti-social behaviour orders—they have had some success in targeting those who are the main offenders in this respect. We must also look at other solutions. In my role as a councillor of Swansea City and County Council, I saw, on Monday, a report by the director of education on initiatives to deal with truancy and unauthorised absence from school. He reported that where unauthorised absence had been reduced, crime rates also reduced. Clearly there is a link there. If we

targeddu cymunedau cyfan, drwy nodi anghenion lleol ac ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn cael effaith gadarnhaol ac yn lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc yn troseddu.

Yn olaf, rhaid i ganolfannau dadwenwyno, lle y gall pobl ifanc a phobl hŷn fynd i drechu eu dibyniaeth, roi cymorth, anogaeth a gwasanaeth cwnsela i'w galluogi i wneud hynny. Os na wnânt hynny, bydd llawer o bobl yn parhau i droseddu, ac weithiau byddant yn cyflawni troseddau er mwyn mynd i'r carchar a hynny dim ond i gael cymorth. Pan gânt eu rhyddhau o'r carchar, mae angen gwasanaethau dilynol arnynt i sicrhau nad ydynt yn dechrau troseddu eto, megis cyflawni mân-ladrad ac ati.

**Peter Black:** Gwnaeth Gwenda Thomas rai pwyntiau pwysig ynglŷn â'r uned hyfforddi ddiogel arfaethedig yng Nglyn-nedd. Credaf, fel Aelodau lleol eraill, nad yw lleoliad yr uned yn briodol, a'i bod yn rhy fawr. Byddai'n dda gennyf pe bai ailfeddwl yn ei gylch.

Yr agwedd fwyaf trawiadol ar y strategaeth hon yw nifer y partneriaid sy'n rhan ohoni. Yn hynny o beth, ac o ran y cyfrifoldebau a rannwyd rhwng y Cynulliad, y Swyddfa Gartref ac adrannau eraill y Llywodraeth, bydd partneriaeth yn hollbwysig i lwyddiant y strategaeth hon. Gwnaed y pwynt bod strwythur a chyllid yn bwysig. Mae'n bwysig hefyd cynnwys pobl ifanc er mwyn inni leihau troseddu yn eu plith ac ymdrin â'r materion niferus sydd wedi codi o'r strategaeth hon.

Mae'n hawdd sôn am ymddygiad gwrth-gymdeithasol wrth drafod y strategaeth honno. Mae pob Aelod yn derbyn cwynion am hynny, a cheisiwn ymdrin ag ymddygiad o'r fath yn ein ffyrdd ein hunain. Lle mae'r heddlu a'r timau troseddwr ifanc wedi mabwysiadu strategaeth sy'n cynnwys contractau ymddygiad gwrth-gymdeithasol—wedi'u dilyn gan orchmynion ymddygiad gwrth-gymdeithasol os oes angen—maent wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn hyn o beth o ran targedu'r rhai sy'n troseddu fwyaf. Rhaid inni ystyried atebion eraill hefyd. Yn fy rôl fel cynghorydd ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe, gwelais, ddydd Llun, adroddiad gan y cyfarwyddwr addysg ar fentrau i fynd i'r afael â thriwantiaeth ac absenoldeb o'r ysgol nas awdurdodwyd. Nododd fod cyfraddau troseddu wedi gostwng lle yr oedd absenoldeb nas

can deal with truancy, it may well help to reduce crime. The development of the alternative curriculum by many education authorities is also helping to engage youngsters who are alienated from education facilities and the educational system.

4.00 p.m.

We also need a positive approach. I have been talking to NACRO Cymru about the model that they are promoting, known as safe havens. This is an American model, whereby young people are engaged and empowered. We do not have that exact model in Wales, but we have many examples of good practice around Wales, where organisations have been set up to engage young people. I was privileged to visit one in my own region at Pyle, the KPC Youth Project. It was set up by local residents with little support from statutory organisations. It is open all day for five, six or seven days a week. It works with young people and provides them with information, computer courses, and places for them to hang around in and have a cup of coffee or play pool. It has achieved some success in Pyle, but, like other organisations, it has had difficulty finding core funding, although at the moment it has the security of a three-year lottery grant. This has proved invaluable in ensuring that, in the short-term at least, this facility is guaranteed.

Funding these facilities is important. When they try to find ways to occupy young people, local councils often provide an education-based facility, which young people do not always want to go to. It is important to talk to young people, engage with them, listen to what they want and make sure the core funding is in place for what they want. I met some young people in my region who are keen to have a skate-boarding facility in their community. Again, they had difficulty in getting funding; that is always difficult. The Welsh Assembly Government needs to talk to the Welsh Local Government Association and local councils to try to ensure core funding for the sort of facility that gets young people off the streets and gives them things to do.

awdurdodwyd wedi gostwng. Yn amlwg mae cysylltiad. Os gallwn fynd i'r afael â thriwantiaeth, mae'n ddigon posibl y gall hyn helpu i leihau troseddau. Mae'r ffaith bod sawl awdurdod addysg wedi datblygu cwricwlwm amgen hefyd yn helpu i gysylltu â phobl ifanc sydd wedi'u dieithrio oddi wrth gyfleusterau addysg a'r system addysgol.

Mae angen inni hefyd gael ymagwedd gadarnhaol. Bùm yn siarad â NACRO Cymru am y model y maent yn ei hyrwyddo, a elwir yn hafanau diogel. Mae hwn yn fodel Americanaidd lle y caiff pobl ifanc eu cynnwys a'u grymuso. Nid oes gennym yr union fodel hwnnw yng Nghymru, ond mae gennym lawer o enghreifftiau o arfer da ledled Cymru, lle sefydlwyd sefydliadau i gysylltu â phobl ifanc. Cefais y ffrainc o ymweld ag un yn fy rhanbarth fy hun yn y Pîl, sef Prosiect Ieuenticid KPC. Fe'i sefydlwyd gan drigolion lleol, heb fawr o gymorth gan sefydliadau statudol. Mae ar agor drwy'r dydd am bum, chwe neu saith diwrnod yr wythnos. Mae'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn darparu gwybodaeth a chyrsgiau cyfrifiadurol iddynt, ynghyd â lle iddynt ymgynnull a chael cwpanaid o goffi neu chwarae pŵl. Bu'n eithaf llwyddiannus yn y Pîl, ond, fel sefydliadau eraill, cafodd anhawster i ddod o hyd i arian craidd, er bod ganddo sicrwydd grant tair blynedd gan y loteri ar hyn o bryd. Bu'r grant hwn yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod dyfodol, o leiaf yn y byrdymor, i'r cyfleuster hwn.

Mae'n bwysig ariannu'r cyfleusterau hyn. Pan fydd cynghorau lleol yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddifyrru pobl ifanc, maent yn aml yn darparu cyfleuster addysgol, nad yw pobl ifanc bob amser am fynd iddo. Mae'n bwysig siarad â phobl ifanc, ennyn eu diddordeb, gwranddo ar eu dymuniadau a sicrhau bod arian craidd ar gael ar gyfer yr hyn a ddymunant. Cyfarfûm â rhai pobl ifanc yn fy rhanbarth sy'n awyddus i gael cyfleuster sgrialu yn eu cymuned. Unwaith eto, cawsant anhawster i gael arian; mae hynny bob amser yn anodd. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cynghorau lleol i geisio sicrhau bod arian craidd ar gyfer y math o gyfleuster sy'n cadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd a'u difyrru.

The pilot scheme to provide free access to leisure centres in the summer is welcome. Further extensions of that scheme perhaps offer a way to get young people off the streets.

This is an important strategy. During the consultation, I hope it will be fleshed out into specific action and funding.

**Alison Halford:** Preventing youth offending is essential in stemming the steady rise in crime in our society. We all know that that is a worrying trend. A strategy based on prevention rather than cure is already halfway to success. Repeat offending begins somewhere. This is why this strategy is vital to reducing crime in Wales. As you all know, boringly, I have been a strong advocate for devolving powers over policing in Wales. It is important that we strengthen partnerships with police. That is another good move. We all know that, since 1999, the Assembly has given £500 million to policing and yet we do not have a strong voice. Coming together in partnership will help this initiative.

It is a modern-day complaint that youths are marauding around our streets, but today they seem to be even more violent. I am sure that no-one was trying to knock me off, but I had a pellet through the window of my office the other day. Presumably, it was a wayward child, and not, I hope, someone trying to bump me off.

Labour's Crime and Disorder Act 1998 made it clear that the prevention of youth offending is essential to reducing the rising tide of crime among our young criminals. I am glad that the strategy considers universal entitlement. This programme will ensure that everyone in Wales has a broad range of basic elements and entitlements. Personal support, whenever they may need it, is essential, as is the need to provide avenues through which these wayward children can learn to channel their energies more productively.

Thank you for calling me to speak, Deputy Presiding Officer. You have always been kind to me. As this is my last Plenary, I wish you all well in the future.

Rhaid croesawu'r cynllun peilot sy'n rhoi mynediad am ddim i ganolfannau hamdden yn ystod yr haf. Efallai y bydd estyn y cynllun hwnnw ymhellach yn ffordd o gadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd.

Mae hon yn strategaeth bwysig. Gobeithiaf y caiff ei hehangu i gynnwys camau gweithredu a chyllid penodol yn ystod yr ymgynghoriad.

**Alison Halford:** Mae'n hanfodol atal pobl ifanc rhag troseddu er mwyn rheoli'r cynnydd graddol mewn troseddu yn ein cymdeithas. Gŵyr pob un ohonom fod y duedd honno yn un sy'n achosi pryder. Mae strategaeth sy'n seiliedig ar atal y drwg yn hytrach na'i wella eisoes ar y trywydd iawn i lwyddo. Rhaid i aildroseddu ddechrau rhywle. Dyma pam mae'r strategaeth hon yn hollbwysig i leihau troseddau yng Nghymru. Fel y gwyddoch, hyd at syrffed, yr wyf wedi dadlau'n gryf dros ddatganoli pwerau dros blismona yng Nghymru. Mae'n bwysig inni atgyfnerthu partneriaethau â'r heddlu. Mae hynny'n rhywbeth arall da i'w wneud. Gŵyr pob un ohonom fod y Cynulliad, er 1999, wedi rhoi £500 miliwn i'r heddlu ac eto nid oes gennym lais cryf. Bydd dod ynghyd mewn partneriaeth yn helpu'r fenter hon.

Un gŵyn a glywyd yn rheolaidd yn yr oes sydd ohoni yw bod pobl ifanc yn cerddetan ar ein strydoedd, ond ymddengys erbyn hyn eu bod hyd yn oed yn fwy treisgar. Yr wyf yn siŵr nad oedd neb yn ceisio fy lladd, ond daeth peled drwy ffenestr fy swyddfa y diwrnod o'r blaen. Cymeraf mai plentyn drwg ydoedd, ac nid rhywun a oedd yn ceisio fy lladd, gobeithio.

Eglurodd Deddf Troseddau ac Anrhefn 1998 Llafur ei bod yn hanfodol atal pobl ifanc rhag troseddu er mwyn lleihau troseddu cynyddol ymhlith ein troseddwy'r ifanc. Yr wyf yn falch o nodi bod y strategaeth yn ystyried hawliau cyffredinol. Bydd y rhaglen hon yn sicrhau y bydd gan bawb yng Nghymru ystod eang o elfennau a hawliau sylfaenol. Mae cymorth personol, lle bynnag y bo'i angen, yn hanfodol, yn ogystal â'r angen i gynnig ffyrdd i'r plant drwg hyn ddysgu i ddefnyddio'u hegri yn fwy cynhyrchiol.

Diolch ichi am fy ngalw i siarad, Ddirprwy Lywydd. Yr ydych bob amser wedi bod yn garedig imi. Gan mai hwn fydd fy Nghyfarfod Llawn olaf, hoffwn ddymuno'n



dda i bob un ohonoch ar gyfer y dyfodol.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you, Alison.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch yn fawr, Alison.

**Karen Sinclair:** I welcome this working draft of the all-Wales youth offending strategy. Its strength is that it is child-centred, rather than crime-centred. That is important. It emphasises the fact that children's behaviour is, more often than not, a reflection of their circumstances and it stresses the importance of early intervention. When I first entered the youth service in the mid-1970s, my brief was to work with young people at risk, and it worked. We identified the young people who needed intensive support, and we gave it to them. That was the sort of specialist service that only a full-time youth club can offer. Over years of cutbacks, this work became less and less possible. It was seen as easier to exclude children at risk than to invest in them, and pushing these youngsters to the far reaches of society reinforced their feelings of alienation and anger.

**Karen Sinclair:** Croesawaf y drafft hwn o'r strategaeth troseddwyr ifanc ar gyfer Gymru gyfan. Ei chryfder yw ei bod yn canolbwyntio ar blant, yn hytrach na throesddu. Mae hynny'n bwysig. Pwysleisia'r ffaith bod ymddygiad plant, yn amlach na pheidio, yn adlewyrchu eu hamgylchiadau a phwysleisia bwysigrwydd ymyrryd yn gynnar. Pan ddechreuais weithio i'r gwasanaeth ieuencid yng nghanol y 1970au, fy nhasg oedd gweithio gyda phobl ifanc mewn perygl, a gweithiodd hynny. Nodwyd y bobl ifanc yr oedd angen cymorth dwys arnynt, a rhoddwyd y cymorth hwnnw iddynt. Dyna'r math o wasanaeth arbenigol na all ond clwb ieuencid llawn amser ei gynnig. Dros flynyddoedd o doriadau, daeth y gwaith hwn yn llai a llai posibl. Ystyriwyd ei bod yn haws gwahardd plant mewn perygl yn hytrach na buddsoddi ynddynt, a thrwy wthio'r plant hyn i ymylon cymdeithas atgyfnerthwyd eu hymdeimlad o ddiethrio a dieter.

We must address why we have higher numbers of people in prison now. We must evaluate what we can do to stop young people entering the downward spiral out of mainstream society and into an alternative and alienated way of life. This strategy contains clear guidelines on partnership working and developmental obligations, encompassing children at risk of offending, up to the resettlement obligations for those who have left custody. That is important. It is essential that all levels of the strategy are funded appropriately. That includes level 1, which aims to provide a universal service. A well-funded universal service would ensure that fewer young people will need to go beyond that level and require more specialist intervention.

Rhaid inni fynd i'r afael â'r rhesymau pam fod mwy o bobl yn y carchar yn awr. Rhaid inni werthuso'r hyn y gallwn ei wneud i atal pobl ifanc rhag dechrau gadael prif ffrwd cymdeithas a chychwyn ar ffordd o fyw amgen wedi'i dieithrio. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys canllawiau pendant ar weithio mewn partneriaeth a goblygiadau datblygol, gan gwmpasu plant sydd mewn perygl o droseddu, i oblygiadau ailsefydlu ar gyfer y rhai sydd wedi eu rhyddhau. Mae hynny yn bwysig. Mae'n hanfodol y caiff pob lefel o'r strategaeth eu hariannu'n briodol. Mae hynny'n cynnwys lefel 1, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth cyffredinol i bawb. Byddai gwasanaeth cyffredinol wedi'i ariannu'n dda yn sicrhau na fydd angen i gynifer o bobl ifanc fynd y tu hwnt i'r lefel honno ac y bydd llai o alw am ymyrraeth fwy arbenigol.

I have come across situations in my constituency recently where the dearth of services for young people has led to significant social friction between younger and older people. The only intervention

Deuthum ar draws sefyllfaoedd yn fy etholaeth yn ddiweddar lle yr oedd prinder gwasanaethau i bobl ifanc wedi arwain at gryn wrthdaro cymdeithasol rhwng pobl iau a phobl hŷn. Yr unig ymyrraeth a oedd ar gael

available at short notice was by the excellent youth offending team in Wrexham. However, to leave a situation run on, with no investment in the basic youth service infrastructure, and then rely on the youth offending team to sort it out, is not only an inefficient use of resources and skills, but an easy way to allow the holistic service to be neglected. It does not pay to have crisis intervention as the first option. Young people need early investment, and this strategy acknowledges that. It acknowledges that investing in our children and their needs, whether those needs are simple or complex, gives value for money and pays dividends in many ways.

I hope that the Minister can assure me in her closing speech that we will ensure universal access to level 1 provision across Wales. Youth service provision is currently patchy. I seek assurance from the Minister that voluntary organisations and local authorities will be able to work closely together, building good links with the youth offending teams, to ensure that young people's potential problems are identified earlier.

Fel y gŵyr Aelodau, ceir etholiadau ymhen pedair wythnos. Bydd llwyddiant y Cynulliad yn cael ei farnu yn ôl nifer y pleidleiswyr yn yr etholiadau hynny. Mae cryn ddifaterwch yn y Gogledd eisoes ynghylch y Cynulliad gan ei fod wedi methu â chydabod na chysylltu â'r Gogledd. Un broblem sy'n bodoli yw na chaiff y Gogledd ei gynrychioli yn y Llywodraeth glymblaid. Mae'n achos pryder fod pobl yn ddifater ynglŷn â'r Cynulliad yn y Gogledd, yn enwedig yn fy ardal i, a roddodd bleidlais 'ie' fawr yn y refferendwm ar ddatganoli. Mae'r bobl hynny yn hynod o siomedig erbyn hyn.

Yr wyf yn rhoi llawer o'r bai ar y Prif Weinidog, gan na roddodd lais i'r Gogledd yn y Cabinet. Mae'n bwysig fod unrhyw broblemau yn y Gogledd yn cael eu dwyn gerbron y Cabinet, a gwrthodwyd y cyfle hwnnw inni. Ceir llawer o broblemau yn y Gogledd, ac mae'n anodd cael ymatebion iddynt. Gofynnais sawl gwaith am gyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog yn ddiweddar, yn arbennig am y llanastr o hyd ynglŷn â thaliadau cymorth fferm, ond ni chredai fod angen iddo gyfarfod â mi. Fe'ch sicrhaf, Brif Weinidog, y dylai fod dyletswydd arnoch i wrando ar y problemau yn y maes hwnnw, yn hytrach na gwrandao ar esgusodion tala Mike German am broblemau cyfrifiadurol.

Nid wyf yn deall pam mae'r Prif Weinidog wedi methu â chydabod angen y Gogledd am lais yn y Cabinet. Sicrhodd deiliad cyntaf y swydd hon yn y Cynulliad, Alun Michael, fod y Cabinet yn cynnwys Aelodau o bob rhan o Gymru, fel y byddai gan bob rhan lais yn y Cabinet. Ar y pryd, Tom Middlehurst—

**Ann Jones:** A wnewch chi dderbyn ymyriad, Peter?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni chewch ymyrryd.

**Peter Rogers:** I am sorry, Ann. Tom Middlehurst was a Minister under Alun Michael. There was also a Minister from Pembrokeshire, and Peter Law represented the Valleys. It is no good saying, First Minister, that you do not have the talent or the expertise in Members from north Wales. You failed to reward John Marek, of all people. He is a former aide to the Treasury, who is steeped in political expertise, yet you decided to bypass him. You even tried to prevent him from becoming Deputy Presiding Officer.

As we approach the elections, following this first Assembly, some issues in north Wales have not been addressed. One of the main issues is the line of communication from north Wales to the capital. With the Assembly based in Cardiff, there is much more to-ing and fro-ing from north Wales as people travel from north Wales to represent their needs here. For example, representatives of the Welsh Development Agency, local councils, and many other organisations do that. However, a totally inadequate transport system links north and south Wales. That is unacceptable. Last week, when I had a meeting planned in Anglesey, I caught the 2.45 p.m. train from Cardiff in order to be back in Anglesey by 6 p.m. The train was 15 minutes late leaving Cardiff station. When I got to Crewe I ran up the platform, over the bridge and onto platform 10, but the train pulled out seconds before I got there. I was the first on the platform—there were six or seven other people behind me who were not as swift or as nimble as me. I was, therefore, late for my planned meeting in Anglesey and I had to wait for an hour on Crewe station.

What happens if you complain? Virgin Trains says, 'It is not our station, it has nothing to do with us. We get fined if the train leaves the station a minute late. It is First North Western Trains.' If you want an integrated transport system, you must work together. What will happen if people, such as myself, have to revert to using a car because of disastrous train journeys? Only a fortnight ago, I waited at Holyhead station for a train with no shelter from the driving rain. The train finally

**Peter Rogers:** Mae'n ddrwg gennyf, Ann. Yr oedd Tom Middlehurst yn Weinidog o dan Alun Michael. Yr oedd Gweinidog o Sir Benfro hefyd, a chynrychiolai Peter Law y Cymoedd. Waeth heb â dweud, Brif Weinidog, nad oes gennych y ddawn na'r arbenigedd ymysg Aelodau o'r Gogledd. Bu ichi fethu â gwobrwyo John Marek, o bawb. Mae'n gyn-gynorthwywr i'r Trysorlys, ac wedi'i drwytho mewn arbenigedd gwleidyddol, eto penderfynasoch ei anwybyddu. Gwnaethoch hyd yn oed geisio ei rwystro rhag dod yn Ddirprwy Lywydd.

Ar drothwy'r etholiadau, yn dilyn y Cynulliad cyntaf hwn, nid ymdriniwyd â rhai materion yn y Gogledd. Un o'r prif faterion yw'r llinell gyfathrebu o'r Gogledd i'r brifddinas. Gan fod y Cynulliad wedi ei leoli yng Nghaerdydd, mae llawer o fynd a dod o'r Gogledd wrth i bobl deithio o'r Gogledd er mwyn cynrychioli eu hanghenion yma. Er enghraifft, mae cynrychiolwyr Awdurdod Datblygu Cymru, cynghorau lleol, a llawer o sefydliadau eraill yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae system drafndiaeth hollol annigonol yn cysylltu'r Gogledd a'r De. Mae hynny'n annerbiniol. Yr wythnos diwethaf, a minnau wedi trefnu cyfarfod yng Nghaerdydd, daliais y trê 2.45 p.m o Gaerdydd er mwyn cyrraedd yn ôl yn Ynys Môn erbyn 6 p.m. Yr oedd y trê 15 munud yn hwyr yn gadael gorsaf Caerdydd. Pan gyrraeddais Crewe rhedais i fyny'r platfform, dros y bont, ac i blatfform 10, ond yr oedd y trê wedi gadael eiliadau cyn imi gyrraedd. Fi oedd y cyntaf ar y platfform—yr oedd chwech neu saith o bobl y tu ôl imi nad oedd mor gyflym ac ystwyth â mi. Yr oeddwn, felly, yn hwyr i'm cyfarfod arfaethedig yn Ynys Môn a gorfu imi aros am awr yng ngorsaf Crewe.

Beth sy'n digwydd os ydych yn cwyno? Dywed Virgin Trains, 'Nid ein gorsaf ni ydyw, nid oes a wnelo dim â ni. Cawn ein dirwyo os bydd y trê yn gadael yr orsaf funud yn hwyr. Bai First North Western Trains ydyw.' Os ydych am gael system drafndiaeth integredig, rhaid ichi gydweithio. Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i bobl fel fi ddechrau defnyddio car eto oherwydd teithiau trê trychinebus? Dim ond pythefnos yn ôl, arhosais yng ngorsaf

arrived 15 minutes late. What a way to start the day—soaked and cold on a four-and-a-half hour journey to Cardiff. It is not surprising that three or four Assembly Members from north Wales are not standing in the Assembly elections. If Sue Essex were the Minister for Anglesey or Deeside, she would have taken it upon herself to ensure that we had adequate transport to this fine capital city—it is a fine capital. Following last week's care home lobby, the people of north Wales were horrified to hear how much money is expected to be spent on the new Assembly building. Like everyone else who comes to Cardiff from north Wales, they thought that they would have a brand new building for between £40 million and £50 million, rather than just a glorified debating chamber. Had we a Minister for north Wales, people would have understood what we were getting. No progress has been made in the past four years, and the situation will probably get worse. That is why north Wales needs a strong voice in Government and in the Cabinet.

I have warned Jane Hutt many times in the Chamber about problems in the private nursing and residential home sector. I wonder whether she should be spending so much time on restructuring the health service and training more doctors and nurses, instead of putting right the basic problems preventing the adequate transfer of patients from hospitals into community care. It will be bedlam unless this problem is addressed.

The Joseph Rowntree Foundation recommended an increase in fees of around 16 per cent for care homes. However, last week, Anglesey County Council increased private sector funding by 3 per cent, while increasing funding for its own homes by some 8 per cent. Where is the justice in that? Such councils will bring the health service to its knees. Jane Hutt is not interested. She says that money is being pumped into the service, but where is it going? A Minister representing north Wales could ensure that the money was being used for the right

Caergybi am drên heb gysgod rhag y glaw trwm. Cyrhaeddodd y trên 15 munud yn hwyr yn y diwedd. Am ffordd i ddechrau'r diwrnod—yn wlyb at fy nghroen ac yn oer ar siwrnai bedair awr a hanner i Gaerdydd? Nid yw'n syndod nad yw tri neu bedwar o Aelodau'r Cynulliad o'r Gogledd yn sefyll yn etholiadau'r Cynulliad. Os mai Sue Essex fyddai'r Gweinidog dros Ynys Môn neu Lannau Dyfrdwy, byddai wedi mynd ati i sicrhau bod gennym gysylltiadau trafniadaeth digonol i'r brifddinas hardd hon—mae'n brifddinas hardd. Yn dilyn y lobi cartrefi gofal yr wythnos diwethaf, yr oedd pobl y Gogledd wedi arswydo ar ôl clywed faint o arian y disgwylir iddo gael ei wario ar adeilad newydd y Cynulliad. Fel pawb arall a ddaw i Gaerdydd o'r Gogledd, yr oeddent yn credu y byddent yn cael adeilad newydd sbon am swm rhwng £40 miliwn a £50 miliwn, yn hytrach nag adeilad nad yw fawr gwell na siambr ddadlau. Pe bai gennym Weinidog dros ogledd Cymru, byddai pobl wedi deall yr hyn yr oeddem yn ei gael. Ni wnaethpwyd unrhyw gynnydd yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ac mae'n debyg y bydd y sefyllfa yn gwaethygu. Dyna pam mae angen llais cryf ar y Gogledd yn y Llywodraeth ac yn y Cabinet.

Rhybuddiais Jane Hutt lawer gwaith yn y Siambr am broblemau yn y sector cartrefi nyrsio preifat a chartrefi preswyl. Tybed a ddylai fod yn treulio cymaint o amser ar ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd a hyfforddi rhagor o feddygon a nyrsys, yn hytrach na datrys y problemau sylfaenol sy'n atal y broses o drosglwyddo cleifion o ysbytai i ofal cymunedol yn ddigonol. Os nad ymdrinnir â'r broblem hon, bydd yn draed moch.

Argymhellodd Sefydliad Joseph Rowntree gynnydd o tua 16 y cant mewn ffioedd ar gyfer cartrefi gofal. Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf, cynyddodd Cyngor Sir Ynys Môn arian i'r sector preifat 3 y cant, tra'n cynyddu arian ar gyfer ei gartrefi ei hun tua 8 y cant. Ble mae'r cyfiawnder yn hynny? Bydd cynghorau o'r fath yn dinistrio'r gwasanaeth iechyd. Nid oes gan Jane Hutt ddiddordeb. Dywed fod arian yn cael ei roi i'r gwasanaeth, ond i ble mae'n mynd? Gallai Gweinidog sy'n cynrychioli'r Gogledd sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at

purpose, namely dealing with the problem of bedblocking. If north Wales was represented by someone such as John Marek, questions would have been asked and he would have made sure that money was given to care homes.

What you fail to realise is that the line of communication in north Wales used to be—  
[*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. We cannot have several different conversations going on in the Chamber.

**Peter Rogers:** Throw them out.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I will not throw them out.

**Peter Rogers:** Devolution should have ensured a new line of communication between north and south Wales to ensure that the whole of Wales had one voice. Why does Rhodri Morgan want to be surrounded by Cabinet members from around Cardiff? Does he feel insecure? Is he afraid of competition from people such as John Marek and Peter Law? The Assembly represents the whole of Wales, not just Cardiff.

Consider who has been put up to reply to this debate. Poor Alun Pugh will be making his last appearance in the Assembly before Brynle Williams starts to maul him. I look forward to your response, Alun. However, remember that the greatest mark that you have made in north Wales is in photo opportunities, particularly on that bike of yours. You have not made any contribution, so I do not know why you are replying to this debate on north Wales.

On the health service in north Wales, why is the orthopaedic hospital in Gobowen giving better treatment to English patients than it is to Welsh patients? There are patients waiting more than a year for surgery in north Wales and yet for some cases the funding in Gobowen ran out as early as last September. English patients are being treated quicker, which is not fair. There is only one training centre in Wales for allied health professionals such as speech therapists, and that is in Cardiff. How are we expected to attract

y diben cywir, sef ymdrin â'r broblem blocio gwelyau. Pe bai'r Gogledd yn cael ei gynrychioli gan rywun fel John Marek, byddai cwestiynau wedi cael eu gofyn a byddai wedi sicrhau bod arian yn cael ei roi i gartrefi gofal.

Yr hyn nad ydych yn sylweddoli yw bu'r llinell gyfathrebu yn y Gogledd—[*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni allwn gael sawl sgwrs wahanol yn mynd ymlaen yn y Siambr.

**Peter Rogers:** Taflwch hwy allan.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni wnafe eu taflu allan.

**Peter Rogers:** Dylai datganoli fod wedi sicrhau llinell gyfathrebu newydd rhwng y Gogledd a'r De er mwyn sicrhau bod un llais gan Gymru gyfan. Pam mae Rhodri Morgan am gael aelodau'r Cabinet o ardal Caerdydd? A yw'n teimlo'n ansicr? A oes ganddo ofn cystadleuaeth gan bobl fel John Marek a Peter Law? Mae'r Cynulliad yn cynrychioli Cymru gyfan, nid Caerdydd yn unig.

Ystyriwch pwy a gynigiwyd i ymateb i'r ddadl hon. Bydd Alun Pugh druan yn gwneud ei ymddangosiad olaf yn y Cynulliad cyn y bydd Brynle Williams yn dechrau ei larpio. Edrychaf ymlaen i'ch ymateb, Alun. Fodd bynnag, cofiwch mai'r ôl mwyaf a adawsoch ar y Gogledd oedd cyfleoedd tynnu lluniau, yn arbennig ar eich beic. Ni wnaethoch unrhyw gyfraniad, felly ni wn pam yr ydych yn ymateb i'r ddadl hon am y Gogledd.

Ynghylch y gwasanaeth iechyd yn y Gogledd, pam mae'r ysbyty orthopedig yng Ngobowen yn rhoi gwell triniaeth i gleifion o Loegr nag ydyw i gleifion o Gymru? Mae cleifion yn aros am fwy na blwyddyn am lawdriniaeth yn y Gogledd ac eto daeth yr arian i ben ar gyfer rhai achosion yng Ngobowen mor gynnar â mis Medi diwethaf. Caiff cleifion o Loegr eu trin yn gynt, sy'n annheg. Dim ond un ganolfan hyfforddi sydd yng Nghymru ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig megis therapyddion



students to this starved profession if we cannot provide a training base in north Wales? What about education and training opportunities, particularly in my own industry of agriculture? Training opportunities in agriculture are drying up, because rural areas have been destroyed. On the radio this morning, I heard Rhodri Morgan describing how the Assembly had reacted to the foot and mouth disease outbreak. If the full story ever comes out, he will hang his head in shame. The mismanagement and incompetence was terrible, and he got away with it. He got away with an appalling record on support payments to farmers, particularly in north Wales. He used fancy phrases such as 'window payments' and 'hardship letters' and then he lost his rag completely and started to shout obscenities here. He did not understand the problem then and he never will. [Interruption.] I have given him the chance to meet with me.

5.10 p.m.

If someone of John Marek's calibre had been in the Cabinet—or even Karen Sinclair, who comes from a rural area—matters might have been different: they would have understood. Karen has spent four years here, and has never been stretched. She does not even stand up when she speaks in the Chamber. She would have been the one to act on this. When she came to the Committee last week, she said that we need the Audit Commission to study the payments, and she is right. She would have grabbed the bull by the horns.

We have tremendous problems in education, and it seems as though Jane Davidson is not interested. You will remember that, three weeks ago, I asked a question about an inquiry into a teacher in Anglesey, who has subsequently been recommended to attend No. 10 Downing Street. That inquiry has been on hold for 11 months; it will never happen.

I hope that the next Assembly recognises the need for a strong voice for north Wales, so that devolution can be seen to work for all of Wales and not just for Cardiff. I assure you that, in the next Assembly elections, I will be

lleferydd, ac mae honno yng Nghaerdydd. Sut mae disgwyl inni ddenu myfyrwyr i'r proffesiwn amddifad hwn os na allwn ddarparu canolfan hyfforddi yn y Gogledd? Beth am gyfleoedd addysg a hyfforddiant, yn arbennig yn y diwydiant amaethyddiaeth, sef fy maes i? Mae cyfleoedd hyfforddi mewn amaethyddiaeth yn prinhau, oherwydd dinistriwyd ardaloedd gwledig. Ar y radio y bore yma, clywais Rhodri Morgan yn disgrifio'r modd yr ymatebodd y Cynulliad i argyfwng clwy'r traed a'r genau. Os daw y stori gyfan i'r golwg, bydd yn cywilyddio. Yr oedd y camreoli a'r aflerwech yn ddifrifol, a daeth ohoni'n groeniach. Anwybyddwyd ei record ofnadwy ar gymorthdaliadau i ffermwyr, yn arbennig yn y Gogledd. Defnyddiodd ymadroddion crand fel 'taliadau ffenestr' a 'llythyrau caledi' ac yna colodd ei dymer yn llwyr a dechrau gweiddi rhegfeydd yma. Nid oedd yn deall y broblem y pryd hwnnw ac ni fydd yn ei deall byth. [Torri ar draws.] Rhoddais gyfle iddo gyfarfod â mi.

Pe bai rhywun o safon John Marek wedi bod yn y Cabinet—neu hyd yn oed Karen Sinclair, sy'n dod o ardal wledig—efallai y byddai pethau wedi bod yn wahanol: byddent wedi deall. Treuliodd Karen bedair blynedd yma, ac ni chafodd ei hymestyn. Nid yw hyd yn oed yn sefyll ar ei thraed pan fydd yn siarad yn y Siambr. Byddai hi wedi bod yn ddelfrydol i weithredu ar hyn. Pan ddaeth i'r Pwyllgor yr wythnos diwethaf, dywedodd bod angen gofyn i'r Comisiwn Archwilio astudio'r taliadau, ac mae'n gywir. Byddai wedi gafael yng nghyrr yr aradr.

Mae gennym broblemau aruthrol ym maes addysg, ac ymddengys nad oes diddordeb gan Jane Davidson. Dair wythnos yn ôl, cofiwch imi ofyn cwestiwn am ymchwiliad i athro yn Ynys Môn, a argymhellwyd wedi hynny i fynychu Rhif 10 Stryd Downing. Gohiriwyd yr ymchwiliad hwnnw ers 11 mis; ni fydd byth yn digwydd.

Gobeithiaf y bydd y Cynulliad nesaf yn cydnabod bod angen llais cryf ar y Gogledd, er mwyn dangos bod datganoli yn gweithio dros Gymru gyfan, ac nid Caerdydd yn unig. Yn etholiadau nesaf y Cynulliad, fe'ch

supported by many more Conservative colleagues, and we will really punch our weight.

**The Deputy Presiding Officer:** I call the Deputy Minister for Education and Lifelong Learning.

**Peter Rogers:** I am sorry, but I promised one minute each to Gareth and Eleanor.

**The Deputy Presiding Officer:** Very well. I call Gareth Jones.

**Gareth Jones:** Deallaf fod ysbryd diwedd tymor yma heddiw, ond dyma neges bwysig o ran y Gogledd. Yr ydym yn dod at etholiad, ond gallaf eich sicrhau, pan yr wyf yn siarad gyda'm hetholwyr, mae pryder mawr ynghylch y canfyddiad bod popeth yn mynd i'r De. Mae hynny'n ffaith. Os edrychwch ar brosiectau mawr fel Canolfan Mileniwm Cymru, y pwll nofio yn Abertawe—a'r Cynulliad ei hun—y teimlad yw ein bod yn colli allan yn y Gogledd.

Derbyniaf fod Peter wedi cyflwyno'r pwnc mewn ysbryd ymosodol, ond mae ei neges yn allweddol bwysig i'r Llywodraeth nesaf, pa liw bynnag fo'r Llywodraeth honno: edrychwch yn ofalus ar anghenion y Gogledd a sicrhewch ein bod yn cael chwarae teg. Yn gam neu'n gymwys, y canfyddiad yn y Gogledd yw nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd.

**Eleanor Burnham:** The North Wales Regional Committee has made the Assembly far more accessible than the Welsh Office ever was. I understand Peter's strong sentiments. We have all campaigned to improve transport, but it is a slow-moving issue. Power to regulate the trains, and the Strategic Rail Authority in particular, should be devolved. The failed Wrexham city status bid was a blow to the North, and people's perception is worsened by negative media coverage. The Assembly has many good news stories, but the media supports the negative perception of many people in north Wales, which is unfair. However, we must work on strengthening our ties with the North, and ensure that at least someone in the Cabinet is from north Wales when, hopefully,

sicrhaf y byddaf yn cael fy nghynorthwyo gan lawer mwy o gyd-Aelodau o'r blaidd Geidwadol, a byddwn yn ddylanwadol iawn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar y Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Peter Rogers:** Mae'n ddrwg gennyf, ond addewais funud yr un i Gareth ac Eleanor.

**Y Dirprwy Lywydd:** O'r gorau. Galwaf ar Gareth Jones.

**Gareth Jones:** I understand that there is an end-of-term atmosphere here today, but this is an important message as regards north Wales. We are coming up to an election, but I can assure you that, when I speak to my constituents, they are concerned about the perception that everything goes to south Wales. That is a fact. If you look at large-scale projects such as the Wales Millennium Centre, the swimming pool in Swansea—and the Assembly itself—the feeling is that we in north Wales are losing out.

I acknowledge that Peter has presented this matter in an aggressive way, but his is an important, key message for the next Government, what ever its colour: look carefully at the needs of the North and ensure that it gets fair play. Rightly or wrongly, the perception in the North is that that is not true at the moment.

**Eleanor Burnham:** Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd wedi gwneud y Cynulliad yn llawer mwy hygyrch nag y bu'r Swyddfa Gymreig erioed. Deallaf deimladau cryf Peter. Yr ydym oll wedi ymgyrchu i wella trafndiaeth, ond mae'n fater sy'n symud yn araf. Dylid datganoli'r pŵer i reoleiddio'r trenau, yn arbennig yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Yr oedd yr ymgyrch aflwyddiannus i gael statws dinas i Wrecsam yn ergyd i'r Gogledd, a dylanwadwyd ar bobl gan sylw negyddol yn y cyfryngau. Mae gan y Cynulliad lawer o straeon newyddion da, ond mae'r cyfryngau yn ategu canfyddiad negyddol llawer o bobl yn y Gogledd, sy'n annheg. Fodd bynnag, rhaid inni weithio ar gryfhau ein cysylltiadau â'r Gogledd, a sicrhau bod o leiaf rywun yn y Cabinet yn

we return in May.

**The Deputy Minister for Education and Lifelong Learning (Alun Pugh):** The short debate has been a successful part of our proceedings these last four years. It provides an invaluable opportunity for Members to raise issues of interest and concern. Members have raised matters ranging from Welsh canals, to the hospice movement, to British Sign Language. For my part, I have used this slot to improve safety and save lives in the Welsh mountains.

I am therefore disappointed that this Assembly's final short debate is being wasted. We are asked to believe that the North does not have a voice or any real influence in the Assembly, and that the people of the North do not get a fair deal. Spurred on by politicians such as Peter and, sometimes, by press columnists who cannot be bothered to do their homework, the cry 'the north is robbed' is widely heard among saloon bar sages.

**Karen Sinclair:** I know that you agree that we have a good story to tell in north Wales. It is a shame that the newspapers do not pick up on it. In my constituency, two Communities First programmes are making massive improvements to the lives of my constituents. That is a Labour initiative. We also have URBAN II structural funding as a direct result of the Labour-led Government. Also, a package that has been drawn up for the reclamation of a steelworks site that stood idle for many years would never have succeeded without direct intervention from us.

**Alun Pugh:** We have a good story to tell in north Wales and, unfortunately, only 10 minutes of this debate remain in which to tell it.

This afternoon, we have been invited to believe that the North loses out, and that there is some conspiracy—presumably hatched up in an M4 service area—to do us all down. It is, of course, complete nonsense. There is not a shred of empirical evidence to support such a blanket claim.

dod o'r Gogledd pan ddychwelwn, gobeithio, ym mis Mai.

**Y Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Alun Pugh):** Bu'r ddadl fer yn rhan lwyddiannus o'n trafodion yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae'n rhoi cyfle gwerthfawr i Aelodau godi materion sydd o ddiddordeb a phryder. Mae'r Aelodau wedi codi materion sy'n amrywio o gamlesi yng Nghymru, i'r mudiad hosbis, a'r Iaith Arwyddion Brydeinig. O'm rhan i, defnyddiais y ddadl fer i wella diogelwch ac arbed bywydau ym mynyddoedd Cymru.

Yr wyf yn siomedig felly fod dadl fer olaf y Cynulliad hwn yn cael ei gwastraffu. Gofynnir inni gredu nad oes llais gan y Gogledd na gwir ddylanwad yn y Cynulliad, ac nad yw pobl y Gogledd yn cael chwarae teg. Wedi'i hysgogi gan wleidyddion fel Peter, ac, weithiau, gan golofnwyr yn y wasg nad ydynt yn trafferthu i wneud eu gwaith cartref, mae'r gri 'mae'r Gogledd yn cael cam' i'w chlywed yn helaeth ymysg doethion y bar.

**Karen Sinclair:** Gwn y cytunwch fod gennym stori dda i'w hadrodd yn y Gogledd. Mae'n drueni nad yw'r papurau newydd yn ei hadrodd. Yn fy etholaeth i, mae dwy raglen Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwelliannau anferth i fywydau fy etholwyr. Menter Llafur yw honno. Mae gennym hefyd arian strwythurol URBAN II o ganlyniad uniongyrchol i'r Llywodraeth o dan arweiniad Llafur. Hefyd, ni fyddai pecyn a luniwyd ar gyfer adfer safle gwaith dur a fu'n segur ers nifer o flynyddoedd fyth wedi llwyddo heb ymyrraeth uniongyrchol gennym ni.

**Alun Pugh:** Mae gennym stori dda i'w hadrodd yn y Gogledd, ac, yn anffodus, dim ond 10 munud o'r ddadl hon sy'n weddill i'w hadrodd.

Y prynhawn yma, gofynnwyd inni gredu bod y Gogledd ar ei cholled, a bod rhyw gynllwyn—wedi ei lunio, mae'n debyg, mewn gwasanaethau ar yr M4—inni i gyd fod ar ein colled. Mae hynny'n hurt wrth gwrs. Nid oes mymryn o dystiolaeth empiraidd i ategu honiad mor gyffredinol.

Peter has brought much colour to our debates but, unfortunately, he is not the sort of man to let facts get in the way of a good rant. I am sorry to hear of his difficulties with privatised trains. However, the question that springs to mind is: who was responsible for privatising them in the first place? I wish Peter a long and happy retirement as he leaves us to spend more time with his family and money.

Yn ôl Peter Rogers, mae rhyw fath o gynllwyn yn bodoli i gymryd arian o'r Gogledd a'i roi i'r De. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny. Rhaid i Peter beidio â siarad sothach. Mae'n waeth na malu awyr, oherwydd mae'n beryglus, ac mae'n creu rhwygiadau o fewn ein cenedl. Mae gennym oll gyfrifoldeb i adeiladu Cymru unedig—y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg, y Gymru ddinesig a Chymru cefn gwlad, y Gogledd a'r De.

You will forgive me, Dirprwy Lywydd, if I start close to home, with the constituency that I have had the honour and privilege to represent for the last four years. Clwyd West is a mixed area. It is not the poorest area in Wales but, again, it is not an area without serious problems. The Assembly's policy response in the area has been comprehensive.

In Ruthin, a flood relief scheme is currently under construction. When the work is completed in 12 weeks' time, the entire town will heave a sigh of relief. Sue Essex, Welsh Labour's Minister for Environment, was not worried that her budget was heading north, but she was worried that people in Ruthin could not sleep for the fear of flooding. If a couple of Tory landowners had signed up to the scheme earlier, the work would have been completed by now.

In Colwyn Bay, a brand new primary school has been opened to replace a Victorian building. Secondary schools across Conwy are undergoing a major rebuilding programme as part of my party's commitment to work in partnership with local government in bringing every school in

Ychwanegodd Peter lawer o liw i'n dadleuon, ond, yn anffodus, nid yw'n fath o ddyn sy'n cael ei ffeithiau'n gywir cyn dechrau pregethu. Mae'n ddrwg gennyf glywed am ei anawsterau gyda threnau a breifateiddwyd. Fodd bynnag, y cwestiwn a ddaw i'r meddwl yw: pwy oedd yn gyfrifol am eu preifateiddio yn y lle cyntaf? Dymunaf ymddeoliad hir a hapus i Peter wrth iddo ein gadael i dreulio rhagor o amser gyda'i deulu a'i arian.

According to Peter Rogers, some kind of plot exists to take money from the North and give it to the South. There is no evidence to support that. Peter must not talk rubbish. It is worse than hot air, because it is dangerous, and it creates divisions within our nation. We all have a responsibility to build a united Wales—the Welsh speakers and the non-Welsh speakers, urban Wales and rural Wales, the North and the South.

Maddeuwch imi, Ddirprwy Lywydd, os cychwynnaf ar nodyn personol, gyda'r etholaeth y cefais yr anrhydedd a'r fraint o'i chynrychioli am y bedair blynedd diwethaf. Mae Gorllewin Clwyd yn ardal gymysg. Nid yr ardal dlotaf yng Nghymru ydyw, ond eto, nid yw'n ardal heb broblemau difrifol. Bu ymateb polisi'r Cynulliad yn yr ardal yn gynhwysfawr.

Yn Rhuthun, mae cynllun amddiffyn rhag llifogydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Pan gwblheir y gwaith ymhen 12 wythnos, bydd y dref gyfan yn rhoi ochenaid o ryddhad. Nid oedd Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd y Blaid Lafur yng Nghymru, yn poeni bod ei chyllideb yn mynd i'r Gogledd, ond yr oedd yn bryderus na allai pobl yn Rhuthun gysgu oherwydd ofn llifogydd. Pe bai un neu ddau o berchnogion tir Torïaidd wedi rhoi sêl eu bendith ar y cynllun yn gynharach, byddai'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn.

Ym Mae Colwyn, agorwyd ysgol gynradd newydd sbon yn lle adeilad o oes Fictoria. Mae ysgolion uwchradd ledled Conwy yn rhan o raglen ailadeiladu sylweddol fel rhan o ymrwymiad fy mhlaid i weithio mewn partneriaeth gyda llywodraeth leol er mwyn sicrhau safonau modern ym mhob ysgol yng

Wales up to modern standards.

Nghymru.

Government has a duty to be strategic in the education service. Jane Davidson's first major decision as Minister for Education and Lifelong Learning was to create a centre of excellence for autistic children. Where was this early focus of attention by the Minister? It was not in Cardiff, or in Pontypridd—it was in Denbigh. Ysgol Plas Brondyffryn—

Mae dyletswydd ar y Llywodraeth i fod yn strategol yn y gwasanaeth addysg. Y penderfyniad cyntaf o bwys a wnaeth Jane Davidson fel Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes oedd creu canolfan ragoriaeth i blant awtistig. I ble y rhoes y Gweinidog ei sylw cynnar? Nid i Gaerdydd, nac i Bontypridd—rhoes ef i Ddinbych. Ysgol Plas Brondyffryn—

**Ann Jones:** Thank you for mentioning Ysgol Plas Brondyffryn, which demonstrates the Government's commitment to ensuring that policies benefit the whole of Wales. I have a few examples from my constituency of which you may not be aware. The first thing that I asked the then Assembly Secretary for Local Government and Housing—my good friend Peter Law, who sits in front of me in the Chamber—to do was to write off Rhuddlan Borough Council's £2.5 million debt. He did so, and that gave us an opportunity to start rebuilding. Ysbyty Glan Clwyd has received money towards achieving fire code compliance. The trust has also received money for a new out-patient unit at the Royal Alexandra Hospital. We have received £88,000 from the Finance Minister for the West End policing priority area. Safe Routes to Schools, food co-operatives—I could go on and on, but I will not do so. Does that not demonstrate that north Wales Assembly Members can make a difference, whether or not we are members of the Cabinet? It is not about megaphone diplomacy, or ranting and shouting. It involves drawing on the strengths of a strong group.

**Ann Jones:** Diolch am sôn am Ysgol Plas Brondyffryn, sy'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau bod polisiau o fantais i Gymru gyfan. Mae gennyf ambell enghraifft o'm hetholaeth na fyddwch yn ymwybodol ohonynt efallai. Y peth cyntaf y gofynnais i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai—sef fy nghyfaill da Peter Law, sy'n eistedd o'm blaen yn y Siamb—ei wneud ar y pryd oedd dileu dyled £2.5 miliwn Cyngor Bwrdeistref Rhuddlan. Gwnaeth hynny, a rhoddodd hynny gyfle inni ddechrau ailadeiladu. Derbyniodd Ysbyty Glan Clwyd arian tuag at sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cod tân. Derbyniodd yr ymddiriedolaeth arian hefyd ar gyfer uned cleifion allanol newydd yn Ysbyty Royal Alexandra. Cawsom £88,000 gan y Gweinidog Cyllid ar gyfer ardal blismona flaenoriaethol Gorllewin y Rhyl. Llwybrau Diogel i'r Ysgol, mentrau bwyd cydweithredol—gallwn fynd ymlaen ac ymlaen, ond ni wna. Onid yw hynny'n dangos y gall Aelodau Cynulliad y Gogledd wneud gwahaniaeth, p'un a ydym yn aelodau'r Cabinet ai peidio? Nid yw'n ymwneud â diplomyddiaeth bocs sebon, na rhefru a gweiddi. Mae'n golygu defnyddio cryfderau grŵp cryf.

You mentioned Peter's retirement, but we all know that Peter is standing for re-election. Do you think that he has a better chance of returning to the Assembly as No. 4 on another party's list—whose name I cannot think of now; I do not think that I need to mention it—rather than being No. 7 on the Conservative Party list?

Soniasoch am ymddeoliad Peter, ond gwyddom oll fod Peter yn sefyll eto yn yr etholiad. A gredwch fod ganddo well siawns o ddychwelyd i'r Cynulliad fel Rhif 4 ar restr plaid arall—ni chofiaf ei henw yn awr; ni chredaf fod angen imi ei henwi—yn hytrach na bod yn Rhif 7 ar restr y Blaid Geidwadol?

5.20 p.m.

**Alun Pugh:** I cannot comment on that, but I can say that Jane Davidson's first decision as

**Alun Pugh:** Ni allaf wneud sylwadau ar hynny, ond gallaf ddweud i benderfyniad

Minister for Education and Lifelong Learning to create a centre of excellence has gone down well in north Wales. Ysgol Plas Brondyffryn was falling down around the ears of pupils and staff. Despite being in power for 18 years, the Tories did nothing to help some of the most needy children in the whole of Welsh society. Objective 1 is proving to be a big success story in my area. Abergele has a brand new college, bringing high-quality training and education opportunities to the entire area, to match the investment in physical infrastructure in local commercial centres. There has been important progress on economic development in the North. Unemployment is at a 26-year low. Assembly grants are supporting the development of sub-regional clusters of excellence from aerospace in Broughton to opto-electronics in Ann's constituency in St Asaph, and software engineering in Bangor. The foundations of a successful twenty-first century economy are being laid right now in north Wales. Rather than try to drive a wedge between the north and south of our nation, we should pull together, celebrating the success of our national schemes, such as free entry to museums.

**Peter Law:** I agree with you when you speak of those positive developments from which the people of north Wales will benefit, particularly due to Labour Party policies. That is in stark contrast to the negativity of Peter Rogers's farewell speech, although I will miss his occasional light-hearted contributions. Do you agree that our party brings good news to the people of north Wales, given its 10 steps for the future of the next Assembly Labour Government when the abolition of prescription charges will be at the top of the list? That is good news for the people of north Wales.

**Alun Pugh:** That is good news for the people of north, mid and south Wales. The current free bus pass scheme has been a roaring success. Anyone over 60 can jump on any local bus anywhere in our nation. If you have two days to spare, you can enjoy the magnificent scenery of our nation and travel free of charge from Colwyn Bay to Cardiff Bay. Having delivered free bus travel to

cyntaf Jane Davidson fel Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i greu canolfan ragoriaeth dderbyn cryn groeso yn y Gogledd. Yr oedd Ysgol Plas Brondyffryn yn disgyn yn ddarnau o amgylch disgyblion a staff. Er iddynt fod mewn grym am 18 mlynedd, ni wnaeth y Toriaid unrhyw beth i helpu rhai o'r plant mwyaf anghenus yn y gymdeithas gyfan yng Nghymru. Mae Amcan 1 yn llwyddiant mawr yn fy ardal i. Mae gan Abergele goleg newydd sbon, gan gyflwyno cyfleoedd hyfforddiant ac addysg o safon uchel i'r ardal gyfan, er mwyn cyfateb â'r buddsoddiad mewn seilwaith adeiladol mewn canolfannau masnachol lleol. Bu cynnydd pwysig ar ddatblygu economaidd yn y Gogledd. Mae diweithdra ar ei isaf ers 26 mlynedd. Mae grantiau'r Cynulliad yn cynorthwyo datblygiad clystyrau o ragoriaeth is-ranbarthol o awyrofod ym Mrychdwn i opto-electroneg yn etholaeth Ann yn Llanelwy, a gweithgynhyrchu meddalwedd ym Mangor. Mae sylfeini economi lwyddiannus yn yr unfed ganrif ar hugain yn cael eu gosod ar hyn o bryd yn y Gogledd. Yn hytrach na cheisio creu rhaniadau rhwng Gogledd a De ein cenedl, dylem gyd-dynnu, gan ddatlu llwyddiant ein cynlluniau cenedlaethol, megis mynediad am ddim i amgueddfeydd.

**Peter Law:** Cytunaf â chi pan soniwyd am y datblygiadau cadarnhaol hynny y bydd pobl y Gogledd yn elwa arnynt, yn arbennig oherwydd polisiâu'r blaid Lafur. Mae hynny'n cyferbynnu'n llwyr â negyddiaeth araith ffarwel Peter Rogers, er y byddaf yn colli ei gyfraniadau ysgafn achlysurol. A gytunwch fod ein plaid yn dod â newyddion da i bobl y Gogledd, o ystyried ei 10 cam ar gyfer dyfodol Llywodraeth Lafur y Cynulliad nesaf pan fydd diddymu taliadau presgripsiwn ar frig y rhestr? Mae hynny'n newyddion da i bobl y Gogledd.

**Alun Pugh:** Mae hynny'n newyddion da i bobl y Gogledd, y Canolbarth a'r De. Bu'r cynllun tocyn bws am ddim cyfredol yn llwyddiant ysgubol. Gall unrhyw un dros 60 oed neidio ar unrhyw fws lleol unrhyw le yn ein gwlad. Os oes gennych ddau ddiwrnod i sbario, gallwch fwynhau golygfeydd godidog ein gwlad a theithio am ddim o Fae Colwyn i Fae Caerdydd. Ar ôl cyflwyno teithio ar fws

everyone over 60 on this side of the election, as you said Peter, our party has pledged to make prescriptions free to everyone on the other side of the election.

However, there is a problem with the capital—the same problem that affects every capital of every nation in the world. Capitals by their nature tend to get more than their population share of major projects. There was a compelling case for locating the English national football stadium in Birmingham—with its good communications links, it would have been a better bet than a windblown industrial estate in north London. However, realistically, that stadium was never going to be built anywhere outside the capital. Anyone who has visited Berlin regularly over the last 20 years will have seen how investment in the public and private sectors has a tendency to follow the headquarters of Government. While our national sports stadium would look great in Ruthin and the Wales Millennium Centre would certainly enhance the cultural life of Kinmel Bay, those national projects were always, realistically, going to be built in our capital. However, not everything needs to be in the capital, and it is a key responsibility of government to balance the inevitable gravitational pull of the capital with the centrifugal force of regional development. This Labour-led Government has discharged that responsibility and the next Labour Government will continue to do so after May.

am ddim i bawb dros 60 oed cyn yr etholiad, fel y dywedasoeh Peter, addawodd ein plaid roi presgripsiynau yn rhad ac am ddim i bawb ar ôl yr etholiad.

Fodd bynnag, ceir problem gyda'r brifddinas—yr un broblem sy'n effeithio ar brifddinas pob gwlad yn y byd. Tuedda prifddinasoedd yn ôl eu natur gael mwy na'u cyfran o brosiectau mawr fesul pen o'r boblogaeth. Yr oedd dadl gref dros leoli stadiwm pêl-droed cenedlaethol Lloegr yn Birmingham—gyda'i gysylltiadau cyfathrebu da, byddai wedi bod yn fwy addas na stad ddiwydiannol wyntog yng ngogledd Llundain. Fodd bynnag, yn realistig, fyddai'r stadiwm hwnnw fyth yn cael adeiladu unrhyw le y tu allan i'r brifddinas. Bydd unrhyw un a ymwelodd â Berlin yn rheolaidd yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf wedi gweld y modd y mae buddsoddiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn tueddu i ddilyn pencadlys y Llywodraeth. Er y byddai ein stadiwm chwaraeon cenedlaethol yn edrych yn rhagorol yn Rhuthun ac y byddai Canolfan Mileniwm Cymru yn sicr yn gwella bywyd diwylliannol Bae Cinnel, yr oedd y prosiectau cenedlaethol hynny bob amser, yn realistig am gael eu hadeiladu yn y brifddinas. Fodd bynnag, nid oes angen i bopeth fod yn y brifddinas, ac mae'n gyfrifoldeb allweddol ar y llywodraeth i gydbwyso grym anochel y brifddinas i ddenu prosiectau gyda grym datblygu rhanbarthol o'r canol. Mae'r Llywodraeth hon a arweinir gan Lafur wedi cyflawni'r ddyletswydd honno a bydd y Llywodraeth Lafur nesaf yn parhau i wneud hynny ar ôl mis Mai.

### **Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Cyn diwedd Cyfarfod Llawn heddiw a diwedd y Cynulliad cyntaf, hoffwn ddiolch i bob Aelod, ac i'r staff, am yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

**The Presiding Officer:** Before the end of today's Plenary and the end of the first Assembly, I would like to express my gratitude to all Members, and to the staff, for what we have achieved over the past four years.

Mae sefydlu'r Cynulliad wedi bod yn gam hanesyddol i bobl Cymru. Efallai, fel y clywsom heddiw, nad ydym wedi gwireddu uchelgais pawb ond credaf ein bod wedi newid y ffordd o lywodraethu ein gwlad er

The establishment of the Assembly has been a historic development for the people of Wales. Perhaps, as we heard today, we may not have met everyone's aspirations, but in my view, we have changed the governance of

gwell.

Diolchaf yn arbennig i'r Dirprwy Lywydd, i Gadeiryddion Pwyllgorau, i aelodau Pwyllgor y Tŷ a'r Pwyllgor Busnes am eu gwaith caled. Mae pob un ohonom yn ddyledus i staff Swyddfa'r Llywydd. O dan arweiniad deallus a phrofiadol Paul Silk, Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr ydym wedi sefydlu gwasanaethau seneddol ar gyfer y Cynulliad hwn hafal i unrhyw gorff seneddol arall y gwn amdano. Yn arbennig, diolchaf yn gyhoeddus i'r rhai sydd wedi gweithio yn fy swyddfa breifat, am fod yn ddolen gyswllt gyfrinachol, ond sicr, rhyngof innau a phawb arall bob amser.

Yn olaf, dymunaf yn dda i bob Aelod sy'n ymddeol o'u gwirfodd. I'r rheini ohonom a fydd yn ymladd yr etholiad ar 1 Mai, dymunaf bedair wythnos braf inni i gyd. Yn olaf, ac yn bwysicaf, dymunaf bedair blynedd lwyddiannus a llewyrchus i'n holynwyr—Aelodau'r ail Gynulliad.

Fel arfer, cyn inni orffen, mae pwynt o drefn.

our country for the better.

I especially thank the Deputy Presiding Officer, Committee Chairs and members of the House Committee and the Business Committee for their hard work. We all owe a debt of gratitude to the staff of the Presiding Office. Under the knowledgeable and experienced leadership of the Clerk of the National Assembly for Wales, Paul Silk, we have established parliamentary services for this Assembly that are the equal of those of any other parliamentary body of which I know. In particular, I publicly thank those who have worked in my private office, for being a confidential, but firm, link between myself and everyone else at all times.

Finally, my good wishes to all Members who are retiring voluntarily. To those of us who will be contesting the election on 1 May, I wish us all an enjoyable four weeks. Finally, and most importantly, I wish a successful and fruitful four years to our successors—the Members of the second Assembly.

As always, before we finish, there is a point of order.

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**Janice Gregory:** I am embarrassed, Presiding Officer. I do not believe that I have done this in four years, but during a momentary lapse of concentration, I voted wrongly in the last vote.

**Lorraine Barrett:** Point of order. I also voted wrongly on amendment 5 in the last debate. I was not going to comment, but as Janice has done so, I will make my last point of order in this Assembly.

**Y Llywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

**Janice Gregory:** Yr wyf yn teimlo'n chwithig, Lywydd. Ni chredaf imi wneud hyn mewn pedair blynedd, ond mewn ennyd o anghofrwydd, pleidleisiais yn anghywir yn y bleidlais ddiwethaf.

**Lorraine Barrett:** Pwynt o drefn. Pleidleisiais innau yn anghywir ar welliant 5 yn y ddadl ddiwethaf. Nid oeddwn am ddweud unrhyw beth, ond gan fod Janice wedi gwneud hynny, gwnaf fy mhwynt o drefn olaf yn y Cynulliad hwn.

**The Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.23 p.m.  
The session ended at 5.23 p.m.*



